Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol: 31/2026

Dyddiad cyhoeddi: 25 Chwefror 2026

# Adolygiad o dirwedd data Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-201-9

Adolygiad o dirwedd data Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru

Alma Economics (2026). Adolygiad o dirwedd data Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 31/2026.

Ar gael yn: [https://www.llyw.cymru/adolygiad-o-amgylchedd-ddata-trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-vawdasv](https://www.llyw.cymru/adolygiad-o-amgylchedd-ddata-trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-vawdasv)

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata sydd ar gael hyd at fis Tachwedd 2025. Nid yw unrhyw ddatblygiadau, newidiadau neu wybodaeth newydd a allai fod wedi dod i law ar ôl y dyddiad hwn wedi'u hadlewyrchu yn y ddogfen hon.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Nerys Owens

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: [YmchwilCyfiawnderCymdeithasol@llyw.cymru](mailto:YmchwilCyfiawnderCymdeithasol@llyw.cymru)

# Tabl cynnwys

Rhestr termau ....4

1. Cyflwyniad a chefndir ....7

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) ....7

Diffiniadau a deddfwriaeth allweddol ....7

Strategaethau cenedlaethol ar VAWDASV ....9

Glasbrint ar gyfer gweithredu ....10

Mynd i'r afael â VAWDASV ....12

Heriau ....12

Mesur cynnydd ....12

Archwilio tirwedd data VAWDASV ....14

2. Methodoleg ....14

Cam 1 ....14

Cam cwmpasu a datblygu ....14

Cynnull y gweithgor ....15

Datblygu'r alwad am dystiolaeth ....15

Cyfweliadau cwmpasu ....15

Cam chwilio ac adolygu data ....16

Cam 2 ....17

Dadansoddiad o'r alwad am dystiolaeth ....17

Asesu ansawdd ....17

Dadansoddiad o'r prif ganfyddiadau ....18

Datblygu argymhellion ....18

Cyfyngiadau'r ymchwil ....18

3. Canfyddiadau ....20

Canfyddiadau ar lefel Cymru ....20

Rhannu data ac argaeledd data ....20

Tirwedd data ddarniog ....20

Dadgyfuniadau ystyrlon a data penodol i Gymru ....21

Amlder cyhoeddi a chasglu data ....21

Ansawdd y data a nodwyd ....21

Canfyddiadau yn ôl ffrwd waith y glasbrint ....22

Aflonyddu ar sail rhywedd ym mhob man cyhoeddus ....22

Aflonyddu yn y gweithle ........ 31
Mynd i'r afael â throseddu ........ 34
Comisiynu cynaliadwy:dull system gyfan ........ 45
Anghenion pobl hŷn ........ 55
Anghenion plant a phobl ifanc ........ 57
Llais y goroeswr ........ 68
Themâu ychwanegol ........ 72
Cam-drin ar sail anrhydedd, anffurfio organau cenhedlu benywod, a phriodas dan orfod ........ 72
4. Canfyddiadau o'r alwad am dystiolaeth ........ 74
Heriau a phroblemau sy'n gysylltiedig â gweithio gyda data VAWDASV ........ 74
Effeithiolrwydd data VAWDASV ........ 75
Amlder rhyddhau data VAWDASV ........ 76
5. Dadansoddiad o’r bylchau ........ 76
AMCAN 1: Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau at VAWDASV ar draws poblogaeth Cymru ........ 77
AMCAN 2: Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach a bod ymddygiad camdriniol bob amser yn anghywir ........ 77
AMCAN 3: Cynyddu pwyslais ar ddwyn troseddwyr i gyfrif a darparu cyfleoedd i newid eu hymddygiad yn seiliedig ar ddiogelwch dioddefwyr ........ 78
AMCAN 4: Gwneud ymyrraeth gynnar ac atal yn flaenoriaeth ........ 78
AMCAN 5: Mae proffesiynau perthnasol wedi'u hyfforddi i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr ........ 79
AMCAN 6: Darparu mynediad cyfartal i bob dioddefwr at wasanaethau croestoriadol ac ymatebol o ansawdd uchel ledled Cymru sydd ag adnoddau priodol ac sy'n gweithredu ar sail anghenion a chryfderau ........ 79
Bylchau eraill ........ 80
6. Casgliadau ac argymhellion ........ 80
Crynodeb o'r prif ganfyddiadau ........ 80
Amgylchedd data darniog ac anhygyrch ........ 80
Bylchau mewn data dadgyfunedig a data sy’n benodol i Gymru ........ 80
Data cyfyngedig ar droseddwyr ........ 81
Mesurau anghyson ar gyfer agweddau a gwasanaethau dros amser ........ 81
Tan-gynrychiolaeth o rai grwpiau a lleoliadau ........ 81
Mathau o niwed sy'n dod i'r amlwg a mecanweithiau olrhain annigonol ........ 82

7. Argymhellion ....82

1. Gwella amcangyfrifon sy'n seiliedig ar arolygon o gyffredinrwydd VAWDASV yng Nghymru dros amser ....82

2. Datblygu fframwaith monitro cenedlaethol i fesur cynnydd yn erbyn gweithredu'r Ddeddf ....83

3. Archwilio pa mor ddichonadwy yw rhoi hyfforddiant ledled y sector ar arferion gorau ar gyfer data ....84

4. Creu adnoddau sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd sy'n catalogio'r data sydd ar gael yng Nghymru ....85

8. Adran cyfeiriadau ....85

Atodiad A:Protocol chwilio ....88

Strategaeth chwilio ....88

Meini prawf cynnwys ac eithrio ....88

Ffynonellau gwybodaeth ....89

Cofnodion astudio ....90

Rheoli data ....90

Proses ddethol a chasglu data ....90

Echdynnu data ....91

Atodiad B: Deunyddiau ymchwil ....92

Canllawiau cyfweliadau cwmpasu ....92

Holiadur galwad am dystiolaeth ....98

Canllawiau i gwblhau'r alwad am dystiolaeth ....98

Adran 0: Gwybodaeth sefydliadol ....99

Adran 1:Data rydych chi'n eu hadnabod ac yn gweithio gyda hwy – cyhoeddedig ....99

Adran 2:Data rydych chi'n eu hadnabod ac yn gweithio gyda hwy – heb eu cyhoeddi ....100

Adran 3: Bylchau canfyddedig ....105

Adran 4: Argymhellion a myfyrdodau pellach ....108

Diolch yn fawr ....108

## Rhestr termau

### Trais ymhlith pobl ifanc ar ddêt (ADV)

Mae trais ymhlith pobl ifanc ar ddêt yn cynnwys unrhyw ymddygiadau rheolaethol, trais corfforol neu emosiynol, neu weithgareddau rhywiol gorfodaethol neu anghydsyniol sy'n digwydd mewn perthnasoedd rhwng pobl ifanc yn eu harddegau.

### BAWSO

Mae BAWSO yn darparu gwasanaethau a chymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol o grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a dioddefwyr sy'n fudwyr.

### Trais a cham-drin domestig (DVA)

Mae trais a cham-drin domestig yn cyfeirio at ddigwyddiad (neu ddigwyddiadau) o ymddygiadau rheolaethol, gorfodaethol, bygythiol neu dreisgar. Fodd bynnag, gall unrhyw un sydd â pherthynas â'r dioddefwr gyflawni trais a cham-drin domestig, yn hytrach na phartner neu gyn-bartner yn unig.

### Hysbysiadau Diogelu rhag Trais Domestig (DVPN)

Mae Hysbysiad Diogelu rhag Trais Domestig yn hysbysiad brys i beidio ag ymyrryd ac i droi allan y gall yr heddlu ei gyhoeddi i droseddwr wrth ymdrin ag achos o gam-drin domestig (Canllawiau Hysbysiadau Diogelu rhag Trais Domestig, 2016).

### Gorchymyn Amddiffyn rhag Trais Domestig (DVPO)

O fewn 48 awr i'r Hysbysiad Diogelu rhag Trais Domestig gael ei gyflwyno i'r troseddwr, rhaid gwrando ar gais gan yr heddlu i lys ynadon am Orchymyn Amddiffyn rhag Trais Domestig. Gall Gorchymyn Amddiffyn rhag Trais Domestig atal y troseddwr rhag dychwelyd i breswylfa a rhag cael cysylltiad â'r dioddefwr am hyd at 28 diwrnod (Canllawiau Hysbysiadau Diogelu rhag Trais Domestig, 2016).

### Anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM)

Diffinnir anffurfio organau cenhedlu benywod fel ystod o weithdrefnau sydd â'r bwriad o anafu, neu gael gwared ar, organau cenhedlu allanol benywod am unrhyw reswm nad yw'n feddygol (i gael rhagor o wybodaeth, gweler Cymorth i Ferched Cymru).

### Trais ar sail rhywedd (GBV)

Diffinnir trais ar sail rhywedd fel unrhyw achos o drais, bygythiadau o drais, neu aflonyddu sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol (gweler Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais rhywiol (Cymru)).

**Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICRFS)**

Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yw'r corff sy'n gyfrifol am arolygu ac adrodd yn annibynnol ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd lluoedd heddlu a gwasanaethau tân ac achub.

**Cam-drin ar sail anrhydedd (HBA)**

Mae cam-drin ar sail anrhydedd yn drosedd, neu'n gam-drin, a gyflawnir gan droseddwyr sy'n credu eu bod yn amddiffyn 'anrhydedd' eu teulu neu eu cymuned (i gael rhagor o wybodaeth, gweler Cymorth i Ferched Cymru).

**Trais gan bartner agos (IPV)**

Diffinnir trais gan bartner agos fel digwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad rheolaethol, gorfodaethol, bygythiol, diraddiol neu dreisgar, gan gynnwys trais rhywiol, a gyflawnir gan bartner agos neu gyn-bartner agos.

**Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol**

Mae'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn fframwaith ar gyfer nodi ac atgyfeirio dioddefwyr ac unigolion a allai fod wedi dioddef caethwasiaeth fodern er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymorth priodol. Os yw dioddefwr o dan 18 oed, rhaid gwneud atgyfeiriad, tra bod angen cydsyniad i atgyfeirio unigolion dros 18 oed.

**Comisiynwyr heddlu a throseddu**

Mae comisiynwyr heddlu a throseddu yn swyddogion etholedig sy'n gyfrifol am (i) plismona lleol, (ii) cyllideb yr heddlu, (iii) swm y dreth gyngor a godir ar yr heddlu, (iv) yr wybodaeth y mae unigolion yn ei chael am yr hyn y mae'r heddlu'n ei wneud, a (v) penodi'r prif gwnstabl (Llywodraeth y DU).

**Canolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC)**

Mae'r Ganolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol yn darparu gwybodaeth, cymorth arbenigol a therapi i unigolion tair oed neu hŷn sydd wedi profi trais neu gam-drin rhywiol, yn ddiweddar neu yn y gorffennol (Canolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru).

**Addysg cydberthynas a rhywioldeb**

Nod addysg cydberthynas a rhywioldeb yw rhoi dealltwriaeth gadarnhaol i ddysgwyr o gydberthnasau a rhywioldeb a'u haddysgu sut i adnabod camsyniadau. Yng Nghymru, mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn y cwricwlwm yn canolbwyntio ar (i) cydberthnasau a hunaniaeth, (ii) iechyd a llesiant rhywiol, a (iii) grymuso, diogelwch a pharch.

**Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion**

Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Mae'r rhwydwaith yn gweithio

gydag ysgolion i gynhyrchu tystiolaeth o ansawdd da ar iechyd a llesiant pobl ifanc trwy arolygon ar lefel dysgwyr ac ysgolion.

**Cyfwerth ag amser cyflawn**

Mae cyfwerth ag amser cyflawn yn ddull o fynegi llwyth gwaith, o'i gymharu â rôl amser llawn, lle mae un uned cyfwerth ag amser cyflawn yn hafal i un unigolyn yn gweithio oriau amser llawn.

# 1. Cyflwyniad a chefndir

## Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)

Mae'r cysyniad o "drais yn erbyn menywod" yn cyfeirio'n benodol at weithredoedd o drais sy'n targedu menywod oherwydd eu rhywedd (Cenhedloedd Unedig, 1992). Mae'n gysyniad yn gynhenid wedi'i ryweddu, ac ni ellir ei wahanu oddi wrth gyd-destun ehangach anghydraddoldeb rhywedd. Ynghyd â rhywedd, mae croestoriadedd hefyd yn ystyriaeth bwysig, oherwydd y gall ffactorau megis hil, dosbarth, oedran, anabledd a chenedligrwydd ddylanwadu ar sut mae trais yn cael ei brofi. Mae ymchwil yn dangos y gallai menywod sy'n wynebu anfanteision lluosog sy'n gorgyffwrdd fod mewn mwy o berygl o niwed oherwydd effeithiau cyfunol yr anghydraddoldebau cymdeithasol hyn (Dominguez a Menjivar, 2014).

Nid yw trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn heriau haniaethol. Maent yn cynrychioli argyfwng iechyd cyhoeddus sylweddol, ac yn groes i hawliau dynol sylfaenol – gan effeithio nid yn unig ar unigolion a'u teuluoedd, ond hefyd yn tanseilio llesiant cymunedau, sefydlogrwydd cymdeithasau, a chryfder economïau (Sefydliad Iechyd y Byd, 2021). Yng Nghymru a Lloegr, amcangyfrifir mai £66 biliwn y flwyddyn yw cost economaidd a chymdeithasol cam-drin domestig – gan ystyried niwed corfforol ac emosiynol, ymdrechion cyfiawnder troseddol ac atal, a cholled o ran cynhyrchiant (Oliver ac eraill, 2019). Mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith bod cost gyffredinol pob math o VAWDASV yn debygol o fod hyd yn oed yn uwch, gyda'i effaith lawn yn aml yn cael ei disgrifio fel un nad oes modd ei mesur (Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, d.d.).

Mae mater VAWDASV yn ymwneud yn bennaf â throseddwyr gwrywaidd a dioddefwyr benywaidd (Hester a Lilley, 2016), er y gall dynion a bechgyn hefyd brofi trais a cham-drin. Tynnodd adroddiad yn 2025 gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sylw at y ffaith y bydd dros un o bob pedair menyw yng Nghymru a Lloegr yn dioddef ymosodiad rhywiol neu ymgais i ymosod yn ystod eu hoes, ac mae o leiaf un o bob 12 menyw yn dioddef troseddau o'r fath bob blwyddyn. Mae rhywioldeb, oedran, dosbarth, hil ac anabledd yn croestorri â rhywedd, gan greu profiadau amrywiol o VAWDASV ac yn effeithio ar fynediad at wasanaethau a chanlyniadau. Er y gall VAWDASV effeithio ar unrhyw un, mae rhai grwpiau o fenywod a merched – megis menywod ifanc, unigolion LHDTC+, mudwyr, ffoaduriaid, menywod brodorol, unigolion ethnig leiafrifol, a'r unigolion hynny sy'n byw gydag HIV neu anableddau – yn arbennig o agored i niwed (Hearn ac eraill, 2016).

### Diffiniadau a deddfwriaeth allweddol

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yw'r ddeddfwriaeth gyntaf yn unrhyw le yn y DU i ganolbwyntio'n uniongyrchol ar drais yn erbyn menywod, gan ei wahaniaethu oddi wrth y termau ehangach 'trais domestig' neu 'gam-drin domestig'. Mae'n diffinio VAWDASV fel rhywbeth sy'n cwmpasu niwed corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol. Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar drais yn erbyn menywod, ond mae'n berthnasol i unrhyw un sy'n profi'r mathau hyn o gam-drin. Ystyrir bod

unigolyn yn "gysylltiedig" ag un arall at ddibenion cam-drin domestig os yw’n bodloni meini prawf penodol, fel bod yn briod neu'n cyd-fyw.

Mae'r Ddeddf yn cydnabod ystod eang o drais, gan gynnwys trais ar sail rhywedd (GBV), trais gan bartner agos (IPV), trais a cham-drin domestig (DVA), trais a cham-drin rhywiol (SVA), rheolaeth drwy orfodaeth, priodas dan orfod, priodas plant, yr hyn a elwir yn gam-drin ar sail anrhydedd (HBA), anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM), masnachu pobl, aflonyddu rhywiol, VAWDASV a hwylusir gan dechnoleg, a thrais ymhlith pobl ifanc ar ddêt (ADV). Mae cam-drin domestig yn cyfeirio at gam-drin rhwng unigolion sydd mewn cysylltiad personol, neu a fu mewn cysylltiad personol, ac mae trais ar sail rhywedd yn cwmpasu trais sy'n gysylltiedig â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol, ynghyd ag arferion fel anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod. Er nad yw rheolaeth drwy orfodaeth wedi'i henwi'n benodol yn y Ddeddf, mae'n cael ei chydnabod yn y memorandwm esboniadol.

Mae pwrpas y Ddeddf VAWDASV yn driphlyg. Yn gyntaf, mae'n canolbwyntio ar atal, gan anelu at gryfhau a gwella systemau ac arferion sy'n helpu i atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol rhag digwydd yn y lle cyntaf. Yn ail, mae'r Ddeddf yn pwysleisio amddiffyniad, gan sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu diogelu rhag niwed pellach wrth gael mynediad at gyfiawnder a diogelwch. Yn drydydd, mae'n blaenoriaethu cymorth, gan anelu at wella gwasanaethau i’r unigolion hynny yr effeithir arnynt gan drais o'r fath, gan ddarparu cymorth corfforol, emosiynol, cyfreithiol a chymdeithasol i gynorthwyo eu hadferiad a'u grymuso. Mae'r amcanion hyn yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol cam-drin a chefnogi goroeswyr ar hyd eu taith.

Mae'r Ddeddf yn sefydlu nifer o ofynion statudol i fynd i'r afael â VAWDASV yng Nghymru. Mae adran 2 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau perthnasol i ystyried sut i leihau effaith anghymesur cam-drin ar fenywod a merched. Mae adran 3 yn rhoi Gweinidogion Cymru dan fandad i baratoi, cyhoeddi ac adolygu strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â VAWDASV. O dan adran 5 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd greu strategaethau lleol ar y cyd, gan gynnwys cyrff a sefydliadau cyhoeddus.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys gofynion sy'n gysylltiedig ag addysg, gyda Gweinidogion Cymru wedi'u grymuso i fynnu bod awdurdodau lleol yn adrodd ar sut mae eu systemau addysg yn cefnogi amcanion y Ddeddf (adrannau 9 a 10). Mae adrannau 11 i 13 yn rhoi Gweinidogion Cymru dan fandad i gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol ac adroddiadau cynnydd blynyddol ar weithredu'r Ddeddf, ac mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud yr un peth.

Ar ben hynny, mae adrannau 15 i 17 yn darparu canllawiau statudol i awdurdodau perthnasol ar sut i arfer eu swyddogaethau i gefnogi'r Ddeddf, gyda chynghorydd cenedlaethol yn cael ei benodi o dan adrannau 20 i 22 i oruchwylio’r broses o weithredu’r Ddeddf, ei chynnydd, a chynghori arni. Mae'r cynghorydd cenedlaethol yn gyfrifol am gynnal ymchwil, adolygu polisïau, a chynghori ar effeithiolrwydd arferion cyfredol. Mae gan y cynghorydd hefyd yr awdurdod i ofyn am wybodaeth gan gyrff perthnasol, ac mae'n rhaid iddyn nhw gydymffurfio.

Y tu allan i Gymru yn benodol, bu Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn ddarn nodedig o ddeddfwriaeth o ran mynd i'r afael â cham-drin domestig yn y DU. Cyflwynodd y Ddeddf ystod eang o newidiadau deddfwriaethol allweddol, gan gynnwys y canlynol (ymysg eraill):

- creu diffiniad statudol o gam-drin domestig
- cydnabod plant dioddefwyr cam-drin domestig fel dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain
- sefydlu swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig
- amddiffyniadau llys teulu newydd i oroeswyr a phlant
- cyflwyno troseddau newydd (gan gynnwys tagu nad yw'n angheuol)

## Strategaethau cenedlaethol ar VAWDASV

Yn dilyn deddfu deddfwriaeth 2015, fe roddodd Llywodraeth Cymru gyfres o gynlluniau gweithredu ar waith gyda'r nod o gefnogi’r broses o weithredu’r gofynion statudol yn ymarferol. Y cyntaf o'r rhain oedd Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016–2021, a nododd chwe amcan allweddol i'w cyflawni erbyn mis Tachwedd 2021:

1. cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd a herio agweddau niweidiol
2. addysgu plant a phobl ifanc ar gydberthnasau iach
3. dwyn troseddwyr i gyfrif a hyrwyddo newid mewn ymddygiad
4. blaenoriaethu ymyrryd yn gynnar ac atal
5. sicrhau bod gweithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi'n briodol
6. darparu gwasanaethau cyson o ansawdd uchel, a arweinir gan anghenion, i ddioddefwyr ledled Cymru

Cefnogir yr amcanion hyn gan Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol trawslywodraethol a'u mesur drwy ddeg dangosydd cenedlaethol a drafodir yn fanylach ar dudalen 13. Yn y cam cychwynnol, blaenoriaethwyd hyfforddiant i weithwyr proffesiynol rheng flaen ym meysydd plismona, gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cryfhau eu gallu i nodi ac ymateb i gam-drin. Sefydlwyd canolfannau argyfwng a gwasanaethau allgymorth i ddarparu cymorth ar unwaith a mannau diogel i oroeswyr. Lansiwyd ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd hefyd i herio agweddau cymdeithasol niweidiol a gwella gwybodaeth am gam-drin a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael.

Yn 2019, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad (‘adolygiad 2019’) i asesu’r cynnydd a wnaed o ran gweithredu Deddf VAWDASV (Cymru). Cydnabu adolygiad 2019 rôl gadarnhaol landlordiaid tai cymdeithasol wrth gefnogi dioddefwyr, yn ogystal â'r gwelliannau a ysgogwyd gan y Ddeddf mewn gwasanaethau VAWDASV (megis sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i ddioddefwyr a goroeswyr), gyda chydweithio llwyddiannus mewn rhai ardaloedd, gan gynnwys Cwm Taf, Gogledd Cymru a Gwent. Fodd bynnag, nododd

adolygiad 2019 hefyd sawl maes i'w gwella, gan gynnwys diffyg data cyson a hawdd eu cyrchu ar gyffredinrwydd trais a'r defnydd o wasanaethau, darpariaeth dameidiog o wasanaethau, a heriau wrth ymgysylltu â throseddwyr. Oherwydd bod yr adroddiad bellach yn chwe oed, mae rhai materion a nodwyd wedi parhau i fod yn broblem, tra bod rhai yn llai perthnasol bellach.

Gan adeiladu ar brofiadau a gwersi'r cam cyntaf, cyflwynodd Llywodraeth Cymru strategaeth VAWDASV newydd ar gyfer y cyfnod 2022 i 2026. Nod y strategaeth wedi'i diweddaru yw mynd i'r afael â VAWDASV ym mhob ffurf, ac mae'n amlinellu ymrwymiad i wneud Cymru 'y lle mwyaf diogel yn y byd i fod yn fenyw', gan gydnabod nad yw trais o'r fath yn anochel, ond yn hytrach yn deillio o normau a chredoau cymdeithasol y mae'n rhaid eu herio. Mae'r dull cymdeithas gyfan hwn wedi'i seilio ar egwyddorion atal, amddiffyn a chymorth Deddf VAWDASV, gyda'r nod o fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau VAWDASV.

O ran amcanion, mae strategaethau 2016 a 2022 yn parhau i fod yn gyson i raddau helaeth o ran eu prif ffocws – codi ymwybyddiaeth, blaenoriaethu atal, hyrwyddo atebolrwydd troseddwyr, a sicrhau mynediad at wasanaethau cymorth i ddioddefwyr. Fodd bynnag, mae amcanion strategaeth 2022 yn cyflwyno sawl datblygiad allweddol. Mae'r amcan cyntaf bellach yn canolbwyntio'n benodol ar herio canfyddiadau ac agweddau'r cyhoedd, nid dim ond codi ymwybyddiaeth. Mae addysg cydberthnasau'n cael ei hymestyn i oedolion, gyda mwy o bwyslais ar rymuso a dewisiadau gwybodus. Mae'r strategaeth sydd wedi'i diweddaru hefyd yn ymgorffori croestoriadedd i adlewyrchu profiadau amrywiol, ac yn rhoi mwy o ffocws ar gefnogi newid mewn ymddygiad i atal aildroseddu.

## Glasbrint ar gyfer gweithredu

Datblygwyd fframwaith glasbrint i ategu'r broses o gyflawni amcanion strategaeth 2022 i 2026. Mae'r glasbrint yn dwyn ynghyd amrywiaeth o sefydliadau i greu dull unedig o fynd i'r afael â VAWDASV drwy ddarparu trywydd cyffredin i bob partner a fforwm i ddatblygu dulliau cydweithredol. Mae'n hyrwyddo broses o ddatblygu polisïau ar y cyd, adnoddau a rennir, ac ymdrechion cydlynol i wneud y mwyaf o'r effaith.

Mae'r glasbrint yn cynnwys strwythur llywodraethu a rennir ar draws cyrff datganoledig a heb eu datganoli, ac mae'n cynnwys y sectorau cyhoeddus, preifat ac arbenigol. Mae'n ymgorffori chwe ffrwd waith wahanol, wedi'u diffinio fel meysydd gweithgarwch penodol, gan gynnwys:

**Aflonyddu ar sail rhywedd ym mhob man cyhoeddus** – gyda'r nod o ddeall ei achosion, gwella systemau adrodd, cefnogi dioddefwyr, a symud y pwyslais tuag at newid agweddau gwrywod. Mae hefyd yn mynd i'r afael â thrais rhywiol a misogynistaidd, gan ddwyn troseddwyr i gyfrif, ac yn integreiddio ymdrechion â mentrau'n ymwneud â diogelwch cymunedol, plismona a chydraddoldeb rhywiol.

**Aflonyddu yn y gweithle** – yn canolbwyntio ar adeiladu tystiolaeth o arferion effeithiol i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol yn y gweithle, hyrwyddo arweinyddiaeth, codi ymwybyddiaeth, a defnyddio offer a dulliau sy'n bodoli eisoes i greu amgylcheddau dim goddefgarwch o ran aflonyddu rhywiol.

**Mynd i'r afael â throseddu** – yn ehangu ymgyrchoedd cyhoeddus ar gyfer yr unigolion hynny sydd mewn perygl o ymddygiad camdriniol, gan ganolbwyntio ar ymyriadau ataliol i dorri cylchoedd ac atal aildroseddu. Mae cydweithio â chomisiynwyr i ddarparu ymyriadau ar sail tystiolaeth a gweithio gydag academyddion i ddeall yn well y ffactorau sy'n ysgogi newid mewn ymddygiad.

**Comisiynu cynaliadwy: dull system gyfan** – yn canolbwyntio ar optimeiddio asesiadau o anghenion, cynllunio strategol a chaffael er mwyn sicrhau cynaliadwyedd. Mae'n cynnwys adolygu a gwella canllawiau comisiynu presennol Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn gynhwysfawr ac yn gynhwysol, gan adeiladu ar Grŵp Comisiynu'r Cynghorwyr Cenedlaethol er mwyn sicrhau cysondeb ar draws gwasanaethau. Mae'r dull hefyd yn ystyried atebolrwydd cynllunio lleol a rhanbarthol i'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol, gan gydlynu cyllid i nodi dyblygu, bylchau, a chyfleoedd i gefnogi amcanion cyflenwol. Esblygodd y ffrwd waith hon o gomisiynu cynaliadwy i ganolbwyntio ar ddull systemau cyfan.

**Anghenion pobl hŷn** – yn cydnabod y cysylltiad rhwng gwahaniaethu ar sail oedran a cham-drin, gyda chamau gweithredu sy'n canolbwyntio ar wella argaeledd cymorth a gwasanaethau i bobl hŷn, gan gynnwys goroeswyr a chyflawnwyr cam-drin. Mae hyn hefyd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o anghenion amrywiol pobl hŷn a gwella dealltwriaeth o'r risgiau y mae'r unigolion hynny sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn eu hwynebu.

**Anghenion plant a phobl ifanc** – yn cefnogi'r broses o weithredu'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i hyrwyddo cydberthnasau iach ac yn sicrhau bod ymatebion i VAWDASV wedi'u teilwra i blant, pobl ifanc a phobl hŷn. Y nod yw hyrwyddo addysg am gydberthnasau iach, mynd i'r afael â chamdriniaeth ymysg cyfoedion, a sicrhau cydymffurfedd rhwng strategaethau diogelu a strategaethau VAWDASV.

**Llais y goroeswr** – yn creu panel craffu a chynnwys llais goroeswyr o unigolion sydd â phrofiad bywyd o VAWDASV. Ei nod yw integreiddio safbwyntiau goroeswyr yn y broses o wneud penderfyniadau a datblygu polisïau, gan roi cyngor ar bolisi i'r Bwrdd Cenedlaethol ar gynnwys defnyddwyr yn y broses o wneud penderfyniadau ac mewn gweithgarwch ymgysylltu. Y nod yw sicrhau bod lleisiau goroeswyr yn cael eu cynnwys yn gyson yn y cyngor a roddir i'r Bwrdd Cenedlaethol.

Sefydlwyd partneriaeth y glasbrint er mwyn sicrhau proses weithredu gydlynol a chyfrifoldeb a rennir am fynd i'r afael â VAWDASV ar draws gwahanol sectorau a lefelau llywodraeth, gan sicrhau bod y glasbrint yn cael ei roi ar waith. Mae'n ymgorffori cyfrifoldeb a rennir am fynd i'r afael â VAWDASV ar draws cyrff datganoledig a rhai heb eu datganoli, yn ogystal â'r sectorau cyhoeddus, preifat ac arbenigol. Ymhlith y prif gyfranogwyr y mae goroeswyr a'u rhwydweithiau cymorth ac eiriolaeth; endidau llywodraeth genedlaethol a lleol, fel Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol a byrddau iechyd; a'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys heddluoedd, Gwasanaeth Erlyn y Goron a chyrff atal troseddau. Yn ogystal, mae gwasanaethau cyhoeddus megis addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, tai a digartrefedd yn chwarae rhan hanfodol wrth nodi, atgyfeirio ac atal VAWDASV, ac yn aml ar flaen y gad o ran mynd i'r afael â'r materion hyn.

## Mynd i'r afael â VAWDASV

Mae strategaeth 2022–2026 wedi cael derbyniad cadarnhaol gan randdeiliaid allweddol am ei dull a'r meysydd mae'n canolbwyntio arnynt. Er enghraifft, mae Rhwydwaith Ymchwil VAWDASV yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed o ran ei lens groestoriadol, dwyn troseddwyr i gyfrif, a chynnwys llais goroeswyr, ochr yn ochr ag arferion da yn y glasbrint, y dull system gyfan, a fframweithiau cysylltiedig (Rhwydwaith Ymchwil VAWDASV, 2025). Mae Cymorth i Ferched Cymru yn croesawu'r gydnabyddiaeth o drais yn erbyn menywod fel mater i'r gymdeithas gyfan, rhoi'r cyfrifoldeb ar droseddwyr, pwyslais ar iechyd y cyhoedd, sylw i aflonyddu yn y gweithle, a'r ymrwymiad i ganolbwyntio ar lais y goroeswr.

Mae adroddiad blynyddol VAWDASV 2024 yn tynnu sylw at gynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â VAWDASV yng Nghymru ar draws pob un o'r chwe amcan. Mae mentrau'n cynnwys lansio'r ymgyrch Iawn ym mis Gorffennaf 2023, sy'n annog dynion ifanc i ddysgu am drais ar sail rhywedd, addysg cydberthynas a rhywioldeb fel rhan orfodol o'r cwricwlwm, a fframwaith i wella cymorth i'r sawl sydd eisoes yn y system cyfiawnder troseddol neu sydd mewn perygl o fynd i mewn iddi. Dechreuodd y peilot hyfforddi ar sut i ymyrryd mewn sefyllfaoedd niweidiol, Arwain y Newid, yn 2023 hefyd, a chafodd dros 55,000 o weithwyr proffesiynol hyfforddiant ar VAWDASV rhwng 2023 a 2024. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i ddiweddaru'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a'r canllawiau statudol cysylltiedig er mwyn sicrhau ei fod wedi'i deilwra'n ddigonol i'r dirwedd atal bresennol.

### Heriau

Roedd y strategaeth hefyd yn wynebu rhai heriau. Tynnodd Rhwydwaith Ymchwil VAWDASV sylw at y ffaith bod y rhain yn cynnwys y cymhlethdodau sy'n deillio o'r rhaniad rhwng polisïau datganoledig a pholisïau'r DU, a all greu anghysondebau wrth ddarparu gwasanaethau ac o ran cyllid (Rhwydwaith Ymchwil VAWDASV, 2025). Mae diffyg data penodol i Gymru, yn enwedig ar gyfer grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio, a bylchau yn yr adrodd, sy'n ei gwneud yn anodd deall profiadau dioddefwyr yn llawn (ibid.). Yn aml, mae gwasanaethau'n cael eu tan-ariannu, yn enwedig i'r bobl hynny sydd â hunaniaethau croestoriadol (e.e. pobl hŷn a phobl ag anableddau dysgu), ac mae diffyg hyfforddiant cyson ar gyfer gweithwyr proffesiynol, yn enwedig o fewn y system cyfiawnder troseddol (ibid.). Yn ogystal, gall y pwyslais ar gosbi yn hytrach nag atal, ynghyd â chyllid tymor byr, effeithio ar ba mor effeithiol yw'r gwasanaethau cymorth.

Mae Cynllun Blynyddol Cynghorwyr Cenedlaethol VAWDASV (Llywodraeth Cymru, 2025) hefyd yn tynnu sylw at yr heriau y mae goroeswyr yn parhau i'w hwynebu, gan gynnwys mynediad cyfyngedig at lety diogel, cymorth iechyd meddwl anghyson, dibyniaeth ariannol, anawsterau wrth geisio cyfiawnder am drais rhywiol, a rhwystrau ychwanegol i oroeswyr lleiafrifol neu oroeswyr sy'n fudwyr.

### Mesur cynnydd

O dan adran 12 o Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n manylu ar y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r amcanion a amlinellir yn y strategaeth genedlaethol a diben cyffredinol y Ddeddf.

O dan adran 11 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol hefyd. Mae'r dangosyddion hyn wedi'u cynllunio i fesur cynnydd tuag at gyflawni diben y Ddeddf, gan ddarparu fframwaith ar gyfer asesu ymdrechion parhaus yng Nghymru. Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddeg dangosydd drafft ochr yn ochr ag atodiad technegol. Mae'r dangosyddion fel a ganlyn:

1. cynyddu nifer yr achosion y rhoddir gwybod amdanynt o ran pob math o VAWDASV
2. cynyddu ymwybyddiaeth ar draws pob rhan o'r gymdeithas fod VAWDASV yn annerbyniol
3. cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach
4. cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc fod cam-drin yn anghywir bob amser
5. sicrhau bod mwy o achosion sy'n gysylltiedig â VAWDASV yn arwain at arestiadau, erlyniadau ac euogfarnau
6. sicrhau bod ymyrraeth briodol ar gael i gyflawnwyr
7. sicrhau bod ymyrraeth gynnar effeithiol ar sail tystiolaeth i ddioddefwyr a goroeswyr ar gael sy'n gyfartal i bawb a'u bod yn gallu manteisio'n gyfartal ar y ddarpariaeth
8. sicrhau bod y rhai mewn swyddi perthnasol yn cael hyfforddiant i adnabod achosion o VAWDASV ac ymateb yn briodol iddynt
9. sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth priodol
10. cynyddu hyder dioddefwyr a mynediad i gyfiawnder

Cynhwyswyd ymrwymiad i adolygu'r dangosyddion cenedlaethol hyn yn Strategaeth Genedlaethol VAWDASV 2022–2026.

Mae Strategaeth Genedlaethol VAWDASV 2022–2026 wedi ymrwymo i adolygu'r dangosyddion cenedlaethol hyn. Nododd Adroddiad Blynyddol VAWDASV (2023/24) fod grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu, a oedd yn cynnwys aelodau o dimau polisi Llywodraeth Cymru, gwasanaethau gwybodaeth a dadansoddol, a'r cynghorydd cenedlaethol ar gyfer VAWDASV, er mwyn adolygu'r dangosyddion ac atodiad technegol 2019. Cydnabu'r adolygiad, ers datblygiad cychwynnol y dangosyddion, fod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni'r Strategaeth Glasbrint, Strategaeth Genedlaethol VAWDASV 2022–26, a'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Cyflwynwyd canfyddiadau'r grŵp gorchwyl a gorffen i fwrdd y rhaglen VAWDASV.

Yn 2021, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) fap o dirwedd data trais yn erbyn menywod a merched yn y DU, gan nodi 231 o ffynonellau o ddata ar draws llywodraeth, y byd academaidd a'r sector gwirfoddol. Tynnodd yr astudiaeth sylw at sefydliadau ar lefel y DU a lefel Cymru sy'n casglu data sy'n gysylltiedig â VAWDASV, megis Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr a data troseddau a gedwir gan y Swyddfa

Ystadegau Gwladol a gofnodwyd gan yr heddlu. Fodd bynnag, nodwyd bylchau yn y sylw, yn enwedig mewn perthynas â data troseddau, sy'n aml yn seiliedig ar ystadegau a adroddwyd ac nad ydw'n adlewyrchu'r darlun llawn. Yn ogystal, canfu astudiaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod gan 20% o'r setiau data a nodwyd broblemau ansawdd, yn bennaf oherwydd cwmpas cyfyngedig neu wybodaeth sydd wedi mynd yn hen. Mae'r bylchau hyn yn dangos yr heriau o ran cael dealltwriaeth gyflawn a manwl gywir o VAWDASV, gan dynnu sylw at yr angen am ddata mwy cynhwysfawr a chyfoes i fynd i'r afael â'r mater yn effeithiol.

### Archwilio tirwedd data VAWDASV

Comisiynwyd Alma Economics gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o dirwedd data VAWDASV yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr adolygiad ar sail tystiolaeth mewn dau gam:

- Cam 1 (Mawrth 2025 i Awst 2025) – cyfnod cwmpasu, darganfod data, a mapio
- Cam 2 (Awst 2025 i Ragfyr 2025) – asesiad ansawdd, argymhellion, ac adrodd

## 2. Methodoleg

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil, gan gynnwys y camau cwmpasu, chwilio am ddata, ac adolygu.

### Cam 1

### Cam cwmpasu a datblygu

Yn y cam cyntaf, adolygodd y tîm ymchwil ddogfennau allweddol yn ymwneud â VAWDASV yng Nghymru er mwyn ymgyfarwyddo â'r polisïau a deddfwriaeth berthnasol. Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd yn cynnwys y canlynol:

- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- y Strategaeth Genedlaethol ar VAWDASV 2016 i 2021 a 2022 i 2026
- Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: adroddiad cynnydd blynyddol 2023 i 2024

Yn ogystal â dogfennau polisi a deddfwriaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, adolygodd y tîm sampl o lenyddiaeth academaidd a llenyddiaeth lwyd a gyhoeddwyd gan randdeiliaid allweddol, gan gynnwys Rhwydwaith Ymchwil VAWDASV, Cymorth i Fenywod Cymru, a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r adran cyflwyniad a chefndir yn rhoi crynodeb llawn o'r dogfennau a adolygwyd, ac mae rhestr lawn o ffynonellau wedi'i chynnwys yn y llyfryddiaeth.

Yn dilyn ein hadolygiad o'r ddogfennaeth gefndirol, cynhaliwyd adolygiad archwiliadol o setiau data allweddol Cymru a'r DU gyfan ar VAWDASV. Cafodd yr adolygiad hwn ei lywio gan yr adolygiad o dirwedd data trais yn erbyn menywod a merched a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a fapiodd ystod eang o setiau data ledled llywodraeth, y byd academaidd a'r trydydd sector.

## Cynnull y gweithgor

Er mwyn cynorthwyo ein proses ymchwil, cynullwyd gweithgor i roi canllawiau ar elfennau allweddol y fethodoleg ac i sicrhau bod yr ymchwil yn cyd-fynd ag anghenion a blaenoriaethau o fewn y sector. Cyfarfu'r gweithgor drwy gydol y prosiect ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

- Prifysgol Caerdydd
- Cwmpas
- Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig Gogledd Cymru
- Sir y Fflint
- Llwybrau Newydd
- Cyngor Dinas Casnewydd
- SafeLives
- Cymorth i Ferched Cymru
- Llywodraeth Cymru

## Datblygu'r alwad am dystiolaeth

Er mwyn casglu gwybodaeth ychwanegol am ddata neu setiau data a gedwir gan sefydliadau unigol lle mae'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd neu ar-lein yn gyfyngedig, datblygwyd galwad am dystiolaeth. Er mwyn cynyddu'r graddau yr ymgysylltir â'r alwad am dystiolaeth i'r eithaf, rhoddwyd dau opsiwn i'r ymatebwyr ddarparu gwybodaeth:

1. maes testun agored i ddisgrifio setiau data yn eu geiriau eu hunain
2. set strwythuredig o gwestiynau caeedig yn bennaf am ddangosyddion penodol a nodweddion set ddata

Yna rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr wneud sylwadau ar eu canfyddiadau o fylchau neu broblemau ansawdd yn y dirwedd data bresennol, yn ogystal ag unrhyw argymhellion i gryfhau'r amgylchedd data. Cyhoeddwyd yr alwad am dystiolaeth gan Alma Economics a Llywodraeth Cymru. Anogwyd cyfranogwyr ymchwil hefyd i rannu'r alwad am dystiolaeth â'u cydweithwyr yn ehangach.

## Cyfweliadau cwmpasu

Cynhaliodd y tîm ymchwil hefyd 11 cyfweliad cwmpasu â sefydliadau ac unigolion allweddol yn y sector sy'n gyfarwydd â'r dirwedd data. Ymhlith y rhain oedd unigolion o fewn Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o'r sectorau iechyd ac addysg, y trydydd sector, a heddluoedd ledled Cymru. Recriwtiwyd rhanddeiliaid drwy gysylltiadau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

Roedd y cyfweliadau'n wedi’u lled-strwythuro ac wedi'u teilwra i arbenigedd y cyfweleion penodol. Yn gyffredinol, ceisiodd y cyfweliadau nodi ffynonellau ychwanegol o ddata na chawsant eu nodi drwy'r chwiliad systematig, gan drafod unrhyw fylchau, cyfyngiadau neu ddyblygu yn y dirwedd data gyfredol. Dadansoddwyd mewnwelediadau ansoddol o gyfweliadau yn thematig, ac mae canfyddiadau allweddol wedi'u hymgorffori yng nghorff yr adroddiad.

### Cam chwilio ac adolygu data

Yn dilyn yr adolygiad cychwynnol o ddogfennau a data, datblygodd y tîm ymchwil brotocol chwilio systematig i nodi’r ffynonellau o ddata sydd ar gael yn gyhoeddus ar VAWDASV. Datblygwyd y protocol gydag adborth gan Lywodraeth Cymru a'r gweithgor a ffurfiwyd ar gyfer y prosiect hwn. Roedd y protocol chwilio yn cynnwys termau chwilio allweddol (yn deillio o amcanion a dangosyddion Llywodraeth Cymru a ffrydiau gwaith y glasbrint), cronfeydd data allweddol (gan gynnwys ffynonellau a gwefannau sefydliadau’r trydydd sector), a set o feini prawf cynnwys ac eithrio. Darperir y protocol chwilio llawn yn Atodiad A.

Er y chwiliwyd rhai cronfeydd data gan ddefnyddio'r allweddeiriau perthnasol, cafodd y mwyaf eu sgrinio â llaw oherwydd bod ganddynt swyddogaeth chwilio gyfyngedig. Lluniodd y tîm ymchwil restr hir o ffynonellau data a dangosyddion a allai fod yn berthnasol yn seiliedig ar y chwiliad systematig. Yna cafodd elfennau allweddol pob set ddata eu sgrinio yn seiliedig ar y set o feini prawf cynnwys er mwyn cael rhestr derfynol o setiau data perthnasol. Llenwyd rhai bylchau hefyd drwy “dull caseg eira” (e.e. cynnwys setiau data a grybwyllir mewn ffynonellau perthnasol), a thrwy gynnwys setiau data a nodwyd gan randdeiliaid mewn cyfweliadau cwmpasu neu mewn sesiynau gweithgor.

Er mwyn cofnodi pob set ddata berthnasol, datblygwyd taflen echdynnu data, a gofnododd yr wybodaeth ganlynol ar gyfer pob set ddata:

- teitl
- perchennog neu reolydd data
- dolen fynediad (os yw ar gael ar-lein)
- y data cynharaf a diweddaraf sydd ar gael
- argaeledd (megis a yw'r data ar gael i'r cyhoedd)
- math y data (megis data defnydd gwasanaeth, data hunan-adrodd o arolygon, data troseddau, ac ati)
- fformat y data (megis Excel, PDF neu Word, offeryn rhyngweithiol)
- pa mor aml mae’r data’n cael eu cofnodi
- daearyddiaeth neu’r rhanbarth sydd dan sylw
- y boblogaeth darged

Cafodd pob set ddata ei thagio hefyd gyda'r amcanion, dangosyddion cenedlaethol a ffrydiau gwaith glasbrint perthnasol, yn ogystal â baneri i nodi a ellid dadgyfuno’r data yn ôl rhywedd, ethnigrwydd neu statws anabledd. At ei gilydd, nodwyd 77 o setiau data neu gofnodion, gyda'r mwyafrif wedi'u nodi trwy chwiliad ar-lein ac ychydig trwy gyfweliadau cwmpasu. Cafodd rhai setiau data â nifer o newidynnau perthnasol (e.e. Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr) eu rhannu'n sawl cofnod. Cwblhawyd y chwiliad data ym mis Gorffennaf 2025, ac felly nid yw unrhyw ddata sydd ar gael i'r cyhoedd a gyhoeddwyd ar ôl yr adeg honno wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

**Cam 2**

Adeiladodd Cam 2 ar y gweithgareddau a gynhaliwyd yng Ngham 1, drwy ddadansoddi canfyddiadau'r alwad am dystiolaeth a chasglu'r dystiolaeth a nodwyd o'r holl weithgareddau ymchwil i lywio dadansoddiad cynhwysfawr o ble mae bylchau yn y dirwedd data, a datblygu set o argymhellion i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y sector. Darperir rhagor o fanylion am y gweithgareddau ymchwil isod.

**Dadansoddiad o'r alwad am dystiolaeth**

Roedd yr alwad am dystiolaeth yn cynnwys (i) adran i randdeiliaid ddarparu tystiolaeth ar setiau data sy'n gysylltiedig â VAWDASV yr oeddent yn eu dal neu yr oeddent yn ymwybodol ohonynt, (ii) set o gwestiynau graddfa Likert yn asesu ffactorau penodol, gan gynnwys pa mor aml mae’r data’n cael eu diweddaru, effeithiolrwydd y data sydd ar gael, a heriau allweddol, a (iii) cyfle i randdeiliaid rannu barn neu awgrymiadau ychwanegol trwy nifer fach o gwestiynau testun agored. Daeth cyfanswm o 27 o ymatebion i law.

Dadansoddwyd cwestiynau graddfa Likert a chwestiynau ansoddol, gan dynnu sylw at themâu allweddol o fewn cwestiynau ac ar eu traws. Nodwyd nifer o setiau data ychwanegol hefyd drwy'r alwad am dystiolaeth. Lle roedd rhanddeiliaid wedi darparu manylion setiau data ychwanegol, cysylltodd y tîm ymchwil â hwy i gael eu caniatâd penodol i gynnwys y deunydd yn yr adroddiad. Fe wnaethom hefyd gysylltu ag ymatebwyr gyda chwestiynau eglurhad penodol, neu gwestiynau dilynol, er mwyn sicrhau bod y data a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn gwbl gywir ac yn gynrychioliadol o'r hyn a oedd gan y rhanddeiliaid.

**Asesu ansawdd**

Er mwyn asesu ansawdd y setiau data a nodwyd drwy ein hadolygiad, fe wnaethom ddatblygu fframwaith asesu ansawdd data pwrpasol. Datblygwyd y fframwaith gan ddefnyddio canllawiau o Fframwaith Ansawdd Data'r Llywodraeth, pecyn cymorth sicrwydd ansawdd data gweinyddol y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, ac offer mwy targedig, megis fframwaith FAIR, a addaswyd i fod yn addas at y diben ar gyfer tirwedd data VAWDASV yng Nghymru. Mae'r fframwaith a ddatblygwyd ar gyfer yr ymchwil gyfredol yn asesu pa mor ddibynadwy yw’r data ar draws sawl dimensiwn:

- **amseroldeb** (e.e. pa mor aml y caiff y data eu diweddaru)
- **cysondeb** (e.e. a yw'r data'n cael eu casglu'n gyson ar draws blynyddoedd, rhanbarthau, personau, neu unedau eraill)

- **cyflawnrwydd** (e.e. a yw'r data yn cynnwys yr wybodaeth y dylai gynnwys, heb unrhyw wybodaeth ar goll)
- **strwythur/fformat** (e.e. a yw'r data wedi'u cofnodi mewn ffordd sy'n eu gwneud yn hawdd eu defnyddio ar gyfer gwybodaeth neu ddadansoddiad)
- **perthnasedd** (e.e. a yw'r data'n cynnwys gwybodaeth a dadansoddiadau perthnasol ar gyfer Cymru, neu ranbarthau Cymru, ac yn berthnasol i ddangosyddion VAWDASV a ffrydiau gwaith y glasbrint)
- **dibynadwyedd** (e.e. a yw'r data'n cael eu gwirio neu eu harchwilio'n rheolaidd, ac a yw'n adlewyrchu realiti)

Cafodd pob set ddata sgôr o 0 i 2 yn erbyn pob maen prawf, gyda 0 yn cynrychioli'r sgôr isaf a 2 yr uchaf, a dyfarnwyd sgôr grynodeb gyffredinol iddi, o 0 i 12. Mae'r sgôr ansawdd yn caniatáu modd o asesu ansawdd cyffredinol y setiau data ar VAWDASV yng Nghymru, yn ogystal â ffordd o feincnodi setiau data yn erbyn ei gilydd. Ystyrir bod setiau data sydd â sgoriau o 0 i 4 yn rhai o ansawdd isel, ystyrir bod y rhai sydd â sgoriau o 5 i 9 o ansawdd canolig, ac ystyrir bod unrhyw ddata sydd â sgôr o 10, neu uwch, yn ddata o ansawdd uchel.

Er nad yw sgoriau ansawdd penodol ar gyfer pob set ddata yn cael eu trafod yn yr adolygiad, darperir gwybodaeth am ansawdd cyffredinol y data a nodwyd ar gyfer pob ffrwd waith y glasbrint mewn pennod ddilynol.

## Dadansoddiad o'r prif ganfyddiadau

Yna dadansoddwyd a threfnwyd canfyddiadau'r adolygiad yn ôl chwe ffrwd waith y glasbrint, gan gynnwys crynodeb o wybodaeth allweddol ar setiau data perthnasol a chanfyddiadau allweddol o'r cyfweliadau ac o'r alwad am dystiolaeth.

Yn seiliedig ar ein dadansoddiad o'r canfyddiadau, fe wnaethom ddatblygu map cynhwysfawr o fylchau, gan roi cipolwg ar le mae bylchau data allweddol ar gyfer pob ffrwd waith yn y glasbrint.

### Datblygu argymhellion

Cam olaf ein hymchwil oedd datblygu set o argymhellion i gryfhau'r dirwedd VAWDASV yng Nghymru. Cafodd ein hargymhellion eu llywio gan bob gweithgaredd ymchwil blaenorol, gan gynnwys yr adolygiad systematig, yr alwad am dystiolaeth, ac adborth gan y gweithgor a rhanddeiliaid eraill.

Cyflwynwyd set ddrafft o argymhellion i randdeiliaid allweddol o'r sector VAWDASV a roddodd adborth ar ba mor ddefnyddiol a pherthnasol ydyn nhw i'r sector, a'u barn ar sut y gellid eu gwella.

### Cyfyngiadau'r ymchwil

Mae'r adolygiad hwn yn cynnig cipolwg ar y dirwedd data ar gyfer y cyfnod y cynhaliwyd yr ymchwil ynddo. Roedd yr ymchwil yn cynnwys sawl gweithgaredd ac yn defnyddio data o

sawl ffynhonnell. Dechreuodd y cam casglu data ar gyfer yr adolygiad ym mis Gorffennaf 2025 a daeth i ben ym mis Tachwedd 2025. Felly roedd cwmpas yr ymchwil wedi'i gyfyngu gan yr amserlen gymharol fyr. Er bod yr ymchwil yn cynnig trosolwg defnyddiol o dirwedd data VAWDASV yng Nghymru, nid yw'n darparu dadansoddiad cynhwysfawr, ac efallai fod rhai setiau data ar goll.

# 3. Canfyddiadau

## Canfyddiadau ar lefel Cymru

**Rhannu data ac argaeledd data**

Cododd bron pob rhanddeiliad yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod yr ymchwil bryderon ynghylch peidio â rhannu data ar draws y sector VAWDASV. Ymhlith y rhwystrau i rannu data y mae systemau technegol amrywiol a diffyg gallu technegol o fewn rhai sefydliadau, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a chyfyngiadau preifatrwydd, a rhywfaint o bryder y gallai rhannu data â sefydliadau eraill sy'n gwneud cais am yr un ffrydiau ariannu gyfyngu ar fynediad at adnoddau neu gyllid yn y dyfodol. Rhybuddiodd nifer fach o randdeiliaid yn erbyn defnyddio data gweinyddol fel mesur o gyffredinrwydd, oherwydd y gallai dioddefwyr adrodd i wasanaethau lluosog, neu geisio cymorth ganddynt, ac felly gallant gael eu cyfrif ddwywaith gan wasanaethau. Yn yr un modd, mae hyn hefyd yn ei gwneud yn anodd adnabod dioddefwyr neu droseddwyr dro ar ôl tro. Er bod y broses o rannu data wedi'i chrybwyll yn bennaf mewn perthynas â'r sector cymorth ar gyfer VAWDASV yn benodol, fe soniodd nifer fach o randdeiliaid hefyd fod heriau hefyd o ran rhannu data ym maes iechyd a phlismona, yn ogystal â rhwng sefydliadau'r trydydd sector a chyrff cyhoeddus.

**Tirwedd data ddarniog**

Roedd rhai rhanddeiliaid hefyd o'r farn bod data o ansawdd da yn cael eu casglu ar draws sefydliadau a sectorau, ond eu bod yn aml wedi'u gwahanu a heb eu rhaeadru'n ddigonol drwy'r system. Mae'r darnio hwn yn llesteirio'r gallu i asesu pa mor gyffredin yw VAWDASV, cynllunio gwasanaethau, a dyrannu cyllid yn briodol. Roedd y mwyaf o'r data a nodwyd drwy'r adolygiad yn ymwneud â Chymru gyfan, ond roedd rhai o ddata ar y defnydd o wasanaethau a ddarparwyd gan yr Uned Lleihau Trais, y trydydd sector, a'r heddluoedd yn amrywio yn ôl rhanbarth neu'n gwbl ar goll yn achos rhai ardaloedd.

Er gwaethaf tirwedd data sydd wedi'i thameidio'n gyffredinol, fe wnaeth yr adolygiad nodi rhai enghreifftiau o arferion gorau a chynnydd mewn data sy'n berthnasol i VAWDASV. Soniodd sawl rhanddeiliad am borth yr Uned Atal Trais fel adnodd amhrisiadwy. Mae'r porth yn casglu data gweinyddol ar gam-drin domestig o sawl ffynhonnell, gan gynnwys data ysbytai, data'r heddlu, data ambiwlansys, data gan bartneriaid yn y trydydd sector, a data addysgol. Mae'r data hefyd yn darparu dadansoddiadau yn ôl oedran, rhywedd ac ethnigrwydd. Soniwyd hefyd am gronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL). Mae SAIL yn caniatáu i ymchwilwyr gael mynediad at nifer o setiau data unigol cysylltiedig ar lefel unigol, gan gynnwys o setiau data allweddol sy'n berthnasol i VAWDASV, megis y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) a data practisau cyffredinol. Er ei fod yn darparu adnodd gwerthfawr, soniodd rhanddeiliaid ei fod yn gostus ac yn cymryd llawer o amser i gael mynediad iddo, ac efallai fod data ar goll o hyd neu wedi'u cofnodi'n anghyson. Nid yw SAIL yn cyhoeddi'r union gostau sy'n gysylltiedig â chael mynediad at y data, gan nodi eu bod yn amrywio yn seiliedig ar gymhlethdodau'r prosiect, y math o gymorth y mae ei angen, a'r math o gyllid. Nododd un rhanddeiliad yn benodol, er bod rhai practisau cyffredinol yn cael hyfforddiant arbennig i gofnodi data perthnasol yn gywir, y rhoddwyd

gorau i'r hyfforddiant hwn, a'r cyllid cysylltiedig, yn aml, gan greu anghysondebau wrth gasglu data ar draws ardaloedd.

**Dadgyfuniadau ystyrlon a data penodol i Gymru**

Her allweddol arall a nodwyd gan randdeiliaid oedd diffyg mesurau penodol i Gymru o gyffredinrwydd a diffyg dadgyfuniadau credadwy. Soniodd bron pob rhanddeiliad am Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr fel y mesur allweddol o gyffredinrwydd ymhlith y boblogaeth o brofiad o ddioddef trais. Mae'r arolwg yn set ddata gyfoethog sy'n cynnwys mesurau o gyffredinrwydd dioddef sawl math o drosedd, gan gynnwys stelcio, aflonyddu rhywiol a thrais, a cham-drin domestig, ochr yn ochr â gwybodaeth ddemograffig allweddol. Mae'r set ddata hefyd yn darparu gwybodaeth allweddol am droseddwyr, gan gynnwys y berthynas rhwng troseddwyr a dioddefwyr, a ble digwyddodd digwyddiadau. Fodd bynnag, dim ond dadansoddiadau cyfyngedig o Gymru sy'n cael eu cyhoeddi, ac nid yw manylion demograffig pellach ar gyfer ymatebwyr Cymru (megis ethnigrwydd, oedran a rhywedd) ar gael yn gyhoeddus fel mater o drefn, ac mae angen caniatâd arbennig a phrosesau cymeradwyo i'w cyrchu.

Ar hyn o bryd, un cyfyngiad mawr ar yr arolwg yw mai dim ond ar lefel Cymru a Lloegr gyfun y cyhoeddir y data, gan ei gwneud yn anodd cael mewnwelediadau penodol o Gymru. Mae hyn yn seiliedig i raddau helaeth ar y ffaith bod meintiau samplau ar gyfer Cymru yn rhy fach i greu amcangyfrifon penodol i Gymru. Tynnodd rhanddeiliaid o Iechyd Cyhoeddus Cymru sylw at adroddiad diweddar a oedd yn archwilio dichonoldeb dadgyfuno data'r arolwg yn benodol ar gyfer Cymru drwy (i) gyfuno dangosyddion lluosog o fewn yr arolwg er mwyn creu metrig cryfach ar gyfer trais, a (ii) uno data o flynyddoedd lluosog i gynyddu maint y sampl. Nod y gwaith hwn oedd dangos bod amcangyfrif arferol o fewnwelediadau ar lefel Cymru o'r arolwg troseddu yn ymarferol, er gwaethaf y cyfyngiadau presennol.

Y tu hwnt i'r arolwg, fe gadarnhaodd rhanddeiliaid nad oes unrhyw ffynonellau data cenedlaethol ar raddfa fawr eraill sy'n darparu golwg gadarn, wedi'i dadgyfuno o dueddiadau trais yng Nghymru. Mae'r mwyaf o'r setiau data yn parhau i ganolbwyntio ar y DU neu Loegr, ac yn aml nid oes gan y rhai sy'n cynnwys Cymru feintiau sampl digon mawr na digon o fanylion i ddod i gasgliadau ystyrlon. Yn fyr, mae diffyg data digonol ar gyffredinrwydd yn broblem strwythurol ehangach ar draws llawer o ffynonellau data allweddol.

**Amlder cyhoeddi a chasglu data**

Er bod nifer o setiau data perthnasol ar gael, dim ond unwaith, neu'n anaml, y casglwyd llawer o'r ffynonellau a nodwyd. Ar ben hynny, mewn llawer o setiau data, nid yw cwestiynau VAWDASV yn cael eu cynnwys yn rheolaidd, neu dim ond mewn tonnau arolwg diweddar y cawsant eu cyflwyno, gan ei gwneud yn anodd asesu sut mae tueddiadau wedi newid dros amser neu'r cynnydd a wnaed yn erbyn dangosyddion allweddol.

**Ansawdd y data a nodwyd**

Aseswyd ansawdd pob set ddata a nodwyd o ran amseroldeb, cysondeb, cyflawnrwydd, strwythur a fformat, perthnasedd, a dibynadwyedd. Yna, neilltuwyd sgôr o 0 i 12 i bob set ddata. Caiff ansawdd y data yn yr adroddiad ei asesu ar lefel ffrwd waith y glasbrint, ac nid yw'n ystyried bylchau ar lefel ffrwd waith. Yn gyffredinol, ychydig iawn o amrywiad oedd ar

draws ffrydiau gwaith y glasbrint, gyda'r sgôr gyfartalog isaf ar 7.2 a'r uchaf ar 9.8. Mae hyn i ryw raddau yn seiliedig ar y ffaith bod setiau data yn berthnasol i nifer o ffrydiau gwaith, a bod setiau data â sgoriau o ansawdd isel iawn yn debygol o fod y tu allan i gwmpas yr adolygiad, ac wedi'u heithrio yn ystod ein hadolygiad systematig.

## Canfyddiadau yn ôl ffrwd waith y glasbrint

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu canfyddiadau allweddol yn ôl ffrwd waith y glasbrint, yn seiliedig ar gyfweliadau â rhanddeiliaid a data a nodwyd trwy ein hadolygiad systematig. Mae'r tablau ym mhob adran yn crynhoi gwybodaeth allweddol ar bob set ddata sydd ar gael, gan gynnwys y teitl a pherchennog y data, argaeledd y data, ac amlder cyhoeddi neu gofnodi. Oni nodir yn wahanol, mae'r holl ddata ar gael ar lefel Cymru, neu ar ffurf dadgyfuniad daearyddol mwy manwl (e.e. ardal heddlu neu awdurdod lleol). Cafodd data a oedd ar gael ar lefel Cymru a Lloegr yn unig eu heithrio o'r adolygiad.

### Aflonyddu ar sail rhywedd ym mhob man cyhoeddus

At ei gilydd, nodwyd wyth set ddata ynghylch aflonyddu ar sail rhywedd ym mhob man cyhoeddus. Er bod nifer o setiau data wedi'u nodi, cyhoeddwyd rhai yn anaml neu ar adegau afreolaidd. Er enghraifft, mae data ar gael ar gyfer 2024 a 2025 ar gyfer arolwg YouGov End Violence Against Women, ond nid yw'n glir a yw'r data hyn yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd ac a yw'n cynnwys yr un cwestiynau ym mhob ton. Yn yr un modd, er bod arolwg Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus yn cael ei gyhoeddi bob tri mis, dim ond yn ysbeidiol y cynhwysir cwestiynau am drais, ac nid oes amserlen gyhoeddedig ar gyfer pryd y cânt eu cynnwys nesaf.Roedd y mwyaf o'r setiau data yn ymwneud ag aflonyddu ar sail rhywedd mewn mannau cyhoeddus ar gael ar lefel Cymru gyfan, gyda dadgyfuniadau mwy manwl wedi'u darparu ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru (awdurdod lleol), Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru), a data'r heddlu (lleoliad penodol ac ardal heddlu).

Roedd y mwyafrif o’r data a nodwyd o arolygon hunan-adrodd ac yn ymwneud â theimladau o ddiogelwch mewn mannau cyhoeddus, pryder am droseddu, ac ymddiriedaeth yn yr heddlu i ymateb i drais yn erbyn menywod. Mae'r dangosyddion hyn yn cael eu cofnodi gan arolygon fel Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru), yr Arolwg Barn a Ffordd o Fyw, ac arolwg a gynlluniwyd gan End Violence Against Women (a gyhoeddwyd gan YouGov). Dylid nodi y bydd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cael ei ddosbarthu'n bennaf ar-lein (yn hytrach na dros y ffôn) o 2026 ymlaen er mwyn goresgyn meintiau sampl isel yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr hefyd yn cofnodi gwybodaeth am ddioddefwyr, gan gynnwys profiad o drais lle'r oedd y troseddwr yn ddieithryn, a phrofiad o aflonyddu rhywiol neu ymosodiad, tra bod Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus (Iechyd Cyhoeddus Cymru) yn cofnodi a yw unigolion wedi bod yn wyliedydd neu'n dyst i drais yn gyhoeddus, ac a ydynt yn teimlo'n ddigon hyderus i wneud unrhyw beth fel gwylwyr. Mae Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus yn arolwg cenedlaethol cynrychioliadol a ddosberthir yn fisol ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys ymwybyddiaeth o wasanaethau iechyd, stigmâu, COVID-19, a chostau byw. Mae'r panel yn cynnwys cyfanswm o 2,500 o ymatebwyr i gyflawni maint sampl o 1,000 fesul arolwg misol, trwy ymatebion dros y ffôn ac ar-lein.

Mae data troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu hefyd yn rhoi cipolwg ychwanegol ar aflonyddu ar sail rhywedd mewn mannau cyhoeddus, ac yn cofnodi data lefel stryd ar droseddau treisgar a rhywiol, yn ogystal â disgrifiad o ble digwyddodd y digwyddiad. Mae gwefan a reolir gan y Tîm Digidol Cenedlaethol Cartref Ar-lein Sengl yn darparu data agored ar droseddu a phlismona yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, wedi'u casglu o 43 o heddluoedd daearyddol, Heddlu Trafnidiaeth Prydain, a Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon. Er bod rhywfaint o ddata ar gael i'r cyhoedd ac yn cael ei gyhoeddi'n fisol, nid yw'r data cyhoeddus yn cynnwys dangosydd ar gyfer y drosedd benodol na rhywedd y dioddefwr, a dim ond fel "trais a throseddau rhywiol" y mae wedi'u tagio. Mae hyn yn golygu nad yw rhai o'r wybodaeth a geir gan y data hyn yn ymwneud yn benodol â VAWDASV. Mae rhyw dioddefwyr troseddau, yn ôl mis, yn ddangosydd a gofnodir ym Mhorth Atal Trais Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cynnwys data dienw ar drais yng Nghymru o ffynonellau, gan gynnwys y system iechyd a'r heddlu. Fodd bynnag, nid yw'r data cyfanredol yn darparu gwybodaeth am leoliad y drosedd. Mae heddluoedd yn cadw data manwl ar lefel digwyddiad, gan gynnwys gwybodaeth am y dioddefwr, y troseddwr, a lleoliad y drosedd, o fewn eu system rheoli data, Niche. System rheoli cofnodion heddlu yw Niche a ddefnyddir gan sawl heddlu yn y DU. Roedd dau heddlu yng Nghymru yn rhan o'r ymchwil, a defnyddiodd y ddau ohonynt Niche. Fodd bynnag, at ddefnydd mewnol yr heddlu yn unig y mae'r wybodaeth sydd ar gael.

**Tabl 1. Data ar aflonyddu ar sail rhywedd ym mhob man cyhoeddus**

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd y data | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus (Iechyd Cyhoeddus Cymru)** | P'un a yw unigolion wedi bod yn wylwyr i aflonyddu rhywiol tuag at fenywod a merched, trais rhywiol tuag at fenywod a merched, neu gam-drin domestig.<br><br>Pa gamau y byddai unigolion yn eu cymryd pe byddent yn gweld unigolyn ifanc yn cael ei ymosod yn gorfforol gan unigolyn ifanc arall.<br><br>Pe bai unigolyn yn dyst i aflonyddu rhywiol ar fenywod neu gam-drin domestig, byddai ganddyn nhw'r hyder i wneud rhywbeth yn ei gylch. | Ar gael yn gyhoeddus | Untro (mis Mehefin 2023)<br><br>Cyhoeddir arolwg Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus yn aml, ond nid yw cwestiynau am VAWDASV yn cael eu cynnwys ym mhob ton arolwg. |
| **Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru)** | Canran yr oedolion sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2012/13 – 2021/22) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd y data | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Arolwg Barn a Ffordd o Fyw (Swyddfa Ystadegau Gwladol)** | Canran yr unigolion sy'n teimlo'n ddiogel yn cerdded ar eu pennau eu hunain mewn stryd dawel yn agos at eu cartref, mewn lle prysur (stryd fawr neu orsaf drenau), mewn parc neu fan agored, ac wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, yn ystod y dydd ac yn y nos.<br><br>Canran yr unigolion sydd wedi rhoi'r gorau i wneud pethau penodol o ganlyniad i deimlo'n anniogel.<br><br>Canran yr unigolion sydd wedi cael eu gweiddi arnyn nhw gan ddieithriaid yn gyhoeddus, wedi profi heclo, chwibanau neu sylwadau digroeso mewn man cyhoeddus, wedi teimlo eu bod nhw'n cael eu dilyn, neu wedi teimlo dan fygythiad corfforol gan ddieithryn mewn man cyhoeddus. | Mae rhywfaint o ddata ar gael i'r cyhoedd, ond mae angen i ymchwilwyr wneud cais i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol am ddata mwy manwl. | Bob blwyddyn (2021–2022)<br><br>Mae'r Arolwg Barn a Ffordd o Fyw wedi bod yn rhedeg bob blwyddyn ers 1997, ond dim ond ar gyfer 2021 a 2022 y cyhoeddir data ar ganfyddiadau o ddiogelwch ymhlith y cyhoedd. |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd y data | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr: Cyffredinrwydd trais gydag anaf a heb anaf (Swyddfa Ystadegau Gwladol)** | Gan feddwl am eich diogelwch personol, pa mor ddiogel neu anniogel fyddech chi'n teimlo wrth gerdded ar eich pen eich hun yn ystod y dydd mewn stryd dawel yn agos at eich cartref?<br><br>Cyffredinrwydd trais (gydag anaf, a heb anaf) lle'r oedd y troseddwr yn ddieithryn neu'n gydnabod.<br><br>Profiad o aflonyddu rhywiol a di-rywiol.<br><br>Profiad o drais gydag anaf a chlwyfo, a heb anaf na chlwyfo. | Mae rhywfaint o ddata ar gael i'r cyhoedd, ond mae angen i ymchwilwyr wneud cais i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol am ddata mwy manwl. | Bob blwyddyn (2017–2024) |
| **Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr: Pryder am droseddu (Swyddfa Ystadegau Gwladol)** | Canran yr unigolion sydd â lefel uchel o bryder ynghylch troseddu. | Mae rhywfaint o ddata ar gael i'r cyhoedd, ond mae angen i ymchwilwyr wneud cais i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol am ddata mwy manwl. | Bob blwyddyn (2016–2024) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd y data | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Data heddlu (heddluoedd Cymru)** | Troseddau treisgar a rhywiol yn ôl lleoliad (ar gael i'r cyhoedd).<br><br>Rhyw'r dioddefwr (gwybodaeth gyfanredol a gyhoeddwyd drwy Iechyd Cyhoeddus Cymru).<br><br>Gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol ynghylch y drosedd neu'r digwyddiad. | Mae rhywfaint o ddata ar gael yn gyhoeddus. | Bob mis (2018–2025)<br><br>Mae dyddiadau'n cynrychioli'r data sydd ar gael ym mhorth yr Uned Atal Trais. |
| **Arolwg End Violence Against Women (End Violence Against Women / YouGov)** | A yw ymatebwyr yn teimlo bod y DU wedi dod yn fwy diogel neu'n fwy peryglus i fenywod a merched yn ystod y pum mlynedd diwethaf.<br><br>Pa mor gyfrifol y mae menywod am gadw eu hunain yn ddiogel rhag trais rhywiol ym marn unigolion.<br><br>Pa mor debygol neu annhebygol fyddai unigolion o’i adrodd i'r heddlu pe byddent yn gweld achos o drais yn erbyn menywod. | Ar gael yn gyhoeddus | Amlder anhysbys (2024–2025)<br><br>Efallai y bydd data arolwg ar gael mewn blynyddoedd ychwanegol, ond nid yw'n glir o wefan YouGov nac End Violence Against Women. Nid oes unrhyw wybodaeth chwaith am ba mor aml caiff y data eu cyhoeddi. |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd y data | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Rhaglen ar Aflonyddu Rhywiol Cyhoeddus yng Nghymru: Data canlyniadau (Our Streets Now)** | Ymatebion i: Rwy'n deall beth yw aflonyddu rhywiol cyhoeddus a'r ymddygiadau y mae'n eu cynnwys; rwy'n teimlo fy mod yn gallu adrodd am brofiad o aflonyddu rhywiol yr wyf i, neu rywun arall, wedi'i brofi; rwy'n ymwybodol o rai ffyrdd y gallaf helpu os gwelaf aflonyddu rhywiol cyhoeddus yn digwydd; rwy'n deall yr effeithiau y gall aflonyddu rhywiol cyhoeddus eu cael ar rywun; rwy'n teimlo'n gyfforddus yn ymdrin ag aflonyddu rhywiol cyhoeddus yn yr ysgol. | Ddim ar gael yn gyhoeddus | Untro (2024–25) |

### Mewnwelediadau o gyfweliadau â rhanddeiliaid

Ni soniodd rhanddeiliaid am unrhyw setiau data ychwanegol ar aflonyddu ar sail rhywedd ym mhob man cyhoeddus nad oeddent eisoes wedi'u cynnwys yn ein hadolygiad. Ar ben hynny, roedd ganddynt sylwadau cyfyngedig am ddata yn y maes hwn, gan awgrymu eu bod yn cael eu casglu'n fwy trylwyr o'u cymharu â ffrydiau gwaith eraill y glasbrint. Nododd un rhanddeiliad fod mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fater â blaenoriaeth, gan gyfrannu at deimlad ymhlith menywod a merched eu bod yn ddiogel mewn mannau cyhoeddus. Ychwanegodd rhai eraill mai un gwendid cyffredinol yn y dirwedd data yw nad yw'n casglu achosion o VAWDASV risg is, neu niwed is, yn rheolaidd (e.e. heclo, sylwadau digroeso, neu syllu), oherwydd efallai na fydd unigolion yn ceisio cymorth ar gyfer y profiadau hyn neu efallai y byddant yn teimlo nad ydynt yn werth chweil adrodd amdanynt. Nododd rhanddeiliad arall fod cryfhau'r broses o gasglu data ar agweddau cymdeithasol cyffredinol ynghylch trais, normau rhywedd, a chredoau cymdeithasol cysylltiedig yn hanfodol i fesur risgiau ac ymddygiadau.

### Niwed ar-lein

Roedd chwe set ddata yn cynnwys dangosyddion yn ymwneud â diogelwch menywod a merched ar-lein, neu eu profiad o niwed ar-lein. Roedd pedwar o'r rhain yn ymwneud yn benodol â phrofiad plant o niwed ar-lein. Daeth pum set ddata o arolygon hunan-adrodd, gydag un yn unig yn dod o ddata gweinyddol neu ddata ynghylch defnyddio gwasanaeth.

Soniodd nifer o'r cyfweleion am brofiad o niwed ar-lein fel bwlch sy'n dod i'r amlwg, yn enwedig o ran natur esblygol cam-drin. Gall llawer o droseddau, fel stelcio, aflonyddu neu gam-drin, ddigwydd nawr naill ai ar-lein neu yn y byd go iawn, ond nid yw'r mwyaf o'r systemau data cyfredol yn gwahaniaethu rhwng y ddau oni bai fod y drosedd wedi'i diffinio'n benodol fel un ar-lein. Nododd un rhanddeiliad fod y diffyg eglurder hwn yn cyfyngu ar y gallu i fonitro patrymau troseddu newydd. Byddai diweddaru systemau cofnodi i nodi dull neu gyd-destun (megis ar-lein yn erbyn all-lein) yn caniatáu mewnwelediadau mwy ystyrlon ac yn helpu i alinio polisïau â mathau cyfredol o niwed. Nododd cyfwelai arall hefyd fod hwn yn faes y mae'n arbennig o anodd casglu data ynddo. Yn aml, nid oes gan ddioddefwyr hyder y bydd adrodd am niwed ar-lein (megis twyll rhamant neu gam-drin arall a hwylusir yn ddigidol) yn arwain at unrhyw gamau gweithredu, yn enwedig os digwyddodd y drosedd yn gyfan gwbl ar-lein. Mae hyn yn rhwystro'r broses o adrodd ac yn cyfyngu ar weledidd.

Yn olaf, soniodd un rhanddeiliad yn benodol am rôl cyfryngau cymdeithasol a chynnwys ar-lein wrth lunio agweddau a barn ynghylch VAWDASV, yn enwedig ymhlith pobl ifanc.

**Tabl 2. Data ar niwed ar-lein**

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Prif faterion cyflwyno wrth atgyfeirio ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael cwnsela (Llywodraeth Cymru)** | Nifer y bobl ifanc sy'n cyflwyno gyda seiberddiogelwch (gan gynnwys seiberfwlio a secstio). | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2013/14) |
| **Troseddau cam-drin plant yn rhywiol (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Swyddfa Gartref)** | Cyfanswm nifer y delweddau anweddus o blant. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2023–2025) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Astudiaeth Carfan y Mileniwm – ysgubiadau 6 a 7 (Coleg Prifysgol Llundain)** | P'un a yw unigolyn ifanc wedi cael llun ohonynt, neu sïon amdanynt, wedi'u hanfon dros y ffôn, y cyfryngau cymdeithasol neu ar-lein, neu a yw unrhyw un wedi'u haflonyddu neu wedi'u poeni trwy'r cyfryngau cymdeithasol. | Ddim ar gael yn gyhoeddus | Untro (2016/17) |
| **Astudiaeth Carfan y Mileniwm – Ysgubiad 6 (Coleg Prifysgol Llundain)** | A yw plant eraill wedi anfon negeseuon e-bost, negeseuon testun neu negeseuon digroeso neu gas atoch, neu wedi postio rhywbeth cas ar wefan? | Ddim ar gael yn gyhoeddus | Untro (2013/14) |
| **Astudiaeth ar Blant, Trais a Bregusrwydd (Cronfa Waddol Ieuenctid)** | P'un a yw pobl ifanc wedi gweld cynnwys treisgar neu dreisgar yn rhywiol ar-lein, neu a ydynt wedi gweld deunydd ar gyfryngau cymdeithasol sy'n annog trais yn erbyn menywod a merched. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2022–2024) |
| **Arolwg End Violence Against Women (End Violence Against Women / YouGov)** | A yw cwmnïau technoleg yn gwneud digon i fynd i'r afael â diogelwch menywod a merched ar-lein. | Ar gael yn gyhoeddus | Amlder anhysbys (2024–2025) |
| **Arolwg End Violence Against Women (End Violence Against Women / YouGov)** | A yw'r rhyngrwyd wedi dod yn fwy peryglus i fenywod a merched yn ystod y 12 mis diwethaf. | Ar gael yn gyhoeddus | Amlder anhysbys (2024–2025) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Rhwystrau i brofi oedran ar wefannau oedolion (Ofcom)** | A yw defnyddwyr y rhyngrwyd wedi gorfod profi eu hoedran i gael mynediad at gynnwys pornograffig. | Ar gael yn gyhoeddus | Untro (2023) |
| **Deall cyfathrebu ar-lein ymhlith plant (Ofcom)** | Os gofynnwyd i bobl ifanc rannu lluniau noeth neu hanner noeth ar-lein.<br><br>Os yw pobl ifanc wedi cael lluniau neu fideos o bobl noeth neu hanner noeth.<br><br>Pa mor aml mae pobl ifanc wedi profi'r pethau hyn. | Ar gael yn gyhoeddus | Untro (2024) |

**Asesu ansawdd data**

Y sgôr ansawdd cyfartalog a neilltuwyd i setiau data yn ymwneud ag aflonyddu ar sail rhywedd a diogelwch ym mhob man cyhoeddus oedd 8.8. Roedd gwendidau'r setiau data a nodwyd yn cynnwys (i) diffyg amseroldeb – e.e. dim ond am flwyddyn yr oedd llawer o setiau data ar gael, neu nid oedd ganddynt amserlenni rheolaidd na hygyrch i'r cyhoedd, a (ii) perthnasedd cyfyngedig, oherwydd bod gan lawer o setiau data ffocws ehangach, gyda dim ond nifer gyfyngedig o gwestiynau'n ymwneud yn benodol â VAWDASV. Ymhlith cryfderau allweddol y setiau data a nodwyd roedd eu (i) cyflawnrwydd, gyda llawer o setiau data yn cynnwys lefelau da o wybodaeth ar gael am ddiffygion, a (ii) eu dibynadwyedd, gyda llawer o ddangosyddion yn deillio o ystadegau cenedlaethol neu sefydliadau ag enw da.

**Aflonyddu yn y gweithle**

Dim ond pum set ddata benodol a nodwyd oedd yn canolbwyntio ar brofiadau o aflonyddu yn y gweithle, yn seiliedig yn bennaf ar fesurau hunan-adrodd arolygon. Mae ton 2024 o'r Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth yn cynnwys modiwl ar brofiad aflonyddu yn y gweithle (gan gynnwys aflonyddu rhywiol), bwlio a thrais, gan ddarparu mesur o gyffredinrwydd. Fodd bynnag, dim ond ton 2024 o'r Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth sy'n cynnwys cwestiynau penodol ar aflonyddu yn y gweithle, gan ei gwneud yn anodd amcangyfrif tueddiadau dros amser. Yn yr un modd, nododd ein hadolygiad arolygon untro a gynhaliwyd gan Cymorth i Ferched Cymru a TUC Cymru, yn y drefn honno, a oedd yn darparu gwybodaeth am brofiad aflonyddu neu ymosodiad rhywiol yn y gweithle. Roedd pob set ddata ar gael ar lefel Cymru, heb unrhyw ddadansoddiadau manwl pellach wedi'u cyhoeddi.

Ar ben hynny, er nad ydynt yn gynrychioliadol o'r gweithlu cyfan, mae arolygon staff y GIG yn darparu amcangyfrif arall o ba mor gyffredin yw aflonyddu yn y gweithle. Caiff arolygon staff eu dosbarthu'n flynyddol, ac maent yn cynnwys cwestiynau ar brofiad bwlio neu aflonyddu, aflonyddu rhywiol, a thrais corfforol gan gydweithwyr neu ddefnyddwyr gwasanaethau a chleifion. Er bod yr arolygon yn casglu gwybodaeth am gydraddoldeb, fel rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd, nid yw ymatebion i gwestiynau wedi'u rhannu yn ôl y categorïau hyn, ac nid yw'n glir a ellir eu cysylltu ag ymatebion penodol o'r data sydd ar gael yn gyhoeddus. Er nad yw'n gysylltiedig yn benodol ag aflonyddu yn y gweithle, mae arolwg Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi cynnwys cwestiynau ynghylch a fyddai unigolion yn ymgymryd â hyfforddiant ar sgiliau i sefyll yn erbyn trais fel gwylwyr.

**Tabl 3. Data ar aflonyddu yn y gweithle**

| Ffynhonnell y data (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth (Data Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd Cymru)** | Pa mor gyffredin yw trais corfforol yn y gweithle, aflonyddu rhywiol, bwlio yn y gweithle, neu gam-drin. | Mae rhywfaint o ddata ar gael i'r cyhoedd, ond mae angen i ymchwilwyr wneud cais i UK Data Service am ddata mwy manwl. | Untro (2024)<br><br>Cyhoeddir yr Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth yn rheolaidd, ond dim ond ton 2024 sy'n cynnwys cwestiynau ar brofiad o drais. |
| **Profiadau o aflonyddu rhywiol yn y gweithle (Cymorth i Ferched Cymru)** | Profiadau o aflonyddu rhywiol yn y gweithle.<br><br>Pwy a gyflawnodd aflonyddu rhywiol yn y gweithle.<br><br>Pam nad oedd menywod yn adrodd am aflonyddu rhywiol yn y gweithle. | Ar gael yn gyhoeddus | Untro (2020/21) |

| Ffynhonnell y data (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus (Iechyd Cyhoeddus Cymru)** | Pa mor debygol fyddai unigolion o ymgymryd â hyfforddiant wyneb yn wyneb ar ddatblygu sgiliau a hyder i ymateb wrth wylio trais. | Ar gael yn gyhoeddus | Untro (2023)<br><br>Cyhoeddir arolwg Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus yn aml, ond nid yw cwestiynau am VAWDASV yn cael eu cynnwys ym mhob ton arolwg. |
| **Arolwg Aflonyddu Rhywiol yn y Gweithle (TUC Cymru)** | Profiadau o aflonyddu rhywiol yn y gweithle.<br><br>P'un a oes gan y gweithle bolisi aflonyddu rhywiol ffurfiol, neu a yw'r unigolyn wedi cael hyfforddiant ar aflonyddu rhywiol. | Anhysbys: er bod rhai ffigurau pennawd wedi'u cyhoeddi, nid yw'n glir a fydd adroddiad llawn neu a fydd data mwy penodol ar gael ar y canfyddiadau. | Untro (2025) |
| **Arolygon o staff (GIG Cymru)** | Profiad o aflonyddu neu fwlio gan reolwyr, arweinwyr tîm, neu gydweithwyr eraill.<br><br>Profiad o fod yn darged ymddygiad digroeso, neu o natur rywiol, yn y gweithle gan gleifion neu ddefnyddwyr gwasanaethau, neu staff neu gydweithwyr.<br><br>Profiad o drais corfforol yn y gweithle gan gleifion neu ddefnyddwyr gwasanaethau, cydweithwyr, rheolwyr, neu arweinwyr tîm. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2018–2024) |

**Canfyddiadau o gyfweliadau â rhanddeiliaid**

Cafwyd mewnwelediadau cyfyngedig gan randdeiliaid ar y dirwedd data o ran aflonyddu yn y gweithle. Nododd un rhanddeiliad fod gweithleoedd yn dda, ar y cyfan, am gasglu data ar aflonyddu, o'u cymharu â lleoliadau eraill fel ysgolion neu leoliadau gofal iechyd. Fodd bynnag, nodwyd ganddynt hefyd y gall y data hyn fod yn anghyson neu'n dameidiog, oherwydd y gall gwahanol sefydliadau fesur neu gofnodi data mewn gwahanol ffyrdd. Cefnogir y canfyddiad hwn gan y data a nodwyd drwy ein hadolygiad. Er bod arolygon yn cael eu cynnal ar draws sawl sector, mae'r canfyddiadau'n aml yn cael eu hadrodd mewn gwahanol ffyrdd, ac mae cwestiynau'n cael eu geirio'n wahanol, gan wneud cymariaethau'n heriol.

Ychwanegodd cyfwelai arall y gall casglu data mwy cadarn mewn gweithleoedd ategu'r gwaith o gryfhau'r dirwedd yn ehangach, gan nodi, er bod data presennol yn dod yn bennaf o ffynonellau ffurfiol, megis adroddiadau heddlu, awdurdodau lleol, a gwasanaethau arbenigol, y gallai gweithgarwch casglu data eang mewn amgylcheddau bob dydd (megis gweithleoedd) ychwanegu at amcangyfrifon o gyffredinrwydd.

**Asesu ansawdd**

Mewn cyferbyniad â sylwadau a wnaed gan randdeiliaid, 7.2 oedd y sgôr gyfartalog a roddwyd i setiau data yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol yn y gweithle. Ar y cyfan, gostyngwyd y sgoriau oherwydd diffyg amseroldeb. Dim ond un o'r setiau data a nodwyd (Arolygon Staff GIG Cymru) a gyhoeddwyd yn rheolaidd, gyda phob set ddata arall a nodwyd ar gael am un flwyddyn yn unig. Roedd y sgoriau ansawdd hefyd wedi'u cyfyngu gan strwythur neu fformat y setiau data. Roedd llawer o'r wybodaeth a oedd ar gael wedi'i hymgorffori mewn adroddiadau PDF neu Word, gan ei gwneud yn heriol i'w hatgynhyrchu, ei hechdynnu neu ei dadansoddi.

**Mynd i'r afael â throseddu**

Yn gyffredinol, nodwyd data cadarn o ansawdd uchel ar droseddwyr fel bwlch allweddol yn ein hadolygiad. Er bod 20 set ddata yn ymwneud â mynd i'r afael â chyflawni troseddau, roedd y mwyafrif helaeth o'r rhain yn seiliedig ar ddata plismona a throseddu, nad ydynt yn dal y mwyafrif helaeth o achosion o gyflawni troseddau nad ydynt yn arwain at arestiad nac euogfarn. Mae'r diffyg data ynghylch troseddu hefyd yn ei gwneud yn anodd asesu pa mor effeithiol yw gwasanaethau a rhaglenni ymyrryd yn gynnar ac atal. Daw gweddill y pum set ddata a nodwyd o wasanaethau arbenigol, gyda diffyg nodedig o ddata hunan-adrodd o arolygon gan gyflawnwyr VAWDASV.

**Mynd i'r afael â throseddu: data o wasanaethau ac arolygon arbenigol**

Roedd data gan wasanaethau arbenigol yn ffynhonnell allweddol o ddata ar gyflawnwyr. Fodd bynnag, roedd tair allan o'r pedair set ddata a nodwyd yn ymwneud â gwasanaethau cynghori neu alwyr i linellau cymorth, gan gynnwys llinell ffôn Respect a llinell gymorth Byw Heb Ofn, a mynediad at wasanaethau Cyngor ar Bopeth. Mae Respect, sy'n sefydliad sy'n canolbwyntio ar gyflawnwyr cam-drin domestig, yn cynnal gwasanaeth ffôn i droseddwyr a gwasanaeth cyngor i ddynion sydd wedi dioddef cam-drin domestig. Mae llinell gymorth Byw Heb Ofn yn cael ei chynnal gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n darparu cymorth a chefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae Cymru Ddiogelach a

ManKind Initiative hefyd yn cynnig cymorth i ddynion sydd wedi dioddef cam-drin domestig. Er bod y data hyn yn rhoi cipolwg diddorol, nid yw llinellau cymorth ar y cyfan yn casglu, nac yn cyhoeddi, data demograffig ychwanegol ar yr unigolion hynny sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn cyhoeddi data ar nifer y goroeswyr sy'n defnyddio llochesi, gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau camfanteisio'n rhywiol, a gwasanaethau trais rhywiol yn seiliedig ar ryw'r troseddwr, ond ni nodwyd unrhyw ddata demograffig arall ynghylch cyflawnwyr mewn gwasanaethau arbenigol. Roedd yr holl ddata ar gael ar lefel Cymru gyfan, ac eithrio Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, a oedd hefyd wedi cyhoeddi dadgyfuniadau ar gyfer gwahanol gwintelau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr hefyd yn cyhoeddi rhywfaint o ddata arolwg ar gydberthnasau rhwng dioddefwyr a throseddwyr mewn digwyddiadau o drais, ond nid yw data ar gydberthnasau rhwng dioddefwyr a throseddwyr ar gyfer aflonyddu rhywiol neu ymosodiadau, yn ogystal â dadansoddiadau mwy manwl eraill, yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd ar gyfer Cymru yn benodol. Mae yna hefyd rai arolygon sy'n cofnodi cyflawniad trais gan blant a phobl ifanc yn benodol, a drafodir yn fanylach yn yr adran ar anghenion plant a phobl ifanc.

**Tabl 4. Data ar fynd i'r afael â throseddu o ddata defnyddio gwasanaethau**

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Nodweddion y rheini sy'n ffonio llinell gyngor Respect Men a llinell ffôn Respect ar gyfer cyflawnwyr cam-drin domestig (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Respect)** | Nifer yr unigolion o Gymru sy'n ffonio llinell ffôn Respect ar gyfer cyflawnwyr. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2023) |

| **Set ddata (perchennog y data)** | **Newidyn(nau) allweddol** | **Argaeledd** | **Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael)** |
|---|---|---|---|
| **Proffil goroeswyr cam-drin sy'n defnyddio llochesi, gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau camfanteisio'n rhywiol, a gwasanaethau cymorth ar gyfer trais rhywiol (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Cymorth i Ferched Cymru)** | Cyfrif y goroeswyr â chyflawnwyr cynradd gwrywaidd, benywaidd a rhyngrywiol yn ôl math o wasanaeth. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2017/18 – 2022/23)<br>Er bod Cymorth i Ferched Cymru yn cyhoeddi data bob blwyddyn, maent yn adrodd ar fetrigau allweddol i'w haelodau bob chwarter, a gall ymchwilwyr wneud ceisiadau am ddata ychwanegol.<br>Dim ond ar gyfer 2022/23 y mae data ar gael ar ddefnyddwyr gwasanaethau camfanteisio'n rhywiol. |
| **Galwadau i'r llinell gymorth Byw Heb Ofn yn ôl math o alwad (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Cymorth i Fenywod Cymru)** | Cyfrif o alwadau gan gyflawnwyr. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2018/19 – 2022/23) |
| **Tueddiadau Cyngor ar Bopeth (Cyngor ar Bopeth)** | Nifer y bobl sy'n ceisio cyngor yn ymwneud â cham-drin domestig – cyflawni troseddau. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob chwarter (2016–2025) |
| **Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (Swyddfa Ystadegau Gwladol)** | Cyffredinrwydd trais yn ôl perthynas rhwng y dioddefwr a'r troseddwr (domestig, cydnabod, dieithryn). | Mae rhywfaint o ddata ar gael i'r cyhoedd, ond rhaid i ymchwilwyr wneud cais am wybodaeth fanylach. | Bob blwyddyn (2017–2024) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Proses casglu data’r Panel Cyflawnwyr (Cranstoun)** | Achosion: nifer y troseddwyr a glywyd gerbron y panel, yn y 12 mis diwethaf, gyda ffurflen atgyfeirio newydd, a chyda'r un prif ddioddefwr.<br><br>Camau gweithredu ac atgyfeiriadau: nifer yr achosion a gedwir i'w goruchwylio gan y panel, camau gweithredu y cytunwyd arnynt i reoli risg, atgyfeiriadau i ymyrryd (gan gynnwys Drive).<br><br>Dioddefwyr: cyfanswm y dioddefwyr sy'n gysylltiedig â chyflawnwyr. | Ddim ar gael yn gyhoeddus | Anhysbys |

**Mewnwelediadau o gyfweliadau â rhanddeiliaid**

Trafododd nifer o randdeiliaid y bylchau yn y data sy'n ymwneud â chyflawnwyr. Nododd un rhanddeiliad o fewn y trydydd sector fod hyn yn rhannol oherwydd natur ddarniog y sector gwasanaethau i gyflawnwyr. Mae llawer o asiantaethau ledled Cymru yn cynnal cronfeydd data lleol heb unrhyw offer rheoli achosion a rennir a safonau rheoli data gwahanol. Soniwyd hefyd fod y system (y tu allan i ddata cyfiawnder troseddol) wedi'i phwysoli tuag at ddioddefwyr a goroeswyr. Mae hyn yn gadael bylchau mawr o ran deall ymddygiad, nodweddion neu dueddiadau troseddwyr. Nid yw mathau o gam-drin, fel cam-drin sy'n seiliedig ar dechnoleg, gorfodaeth ariannol, neu olrhain, wedi'u gwahanu, a hyd yn oed pan fydd achosion yn cael eu huwchgyfeirio i'r system cyfiawnder troseddol, mae gwybodaeth ddemograffig sylfaenol, fel oedran y troseddwr neu batrwm y drosedd, yn aml ar goll. Mae'r data sydd ar gael (fel yr hyn a gyhoeddir mewn asesiadau anghenion lleol neu yn Arolwg

Troseddu Cymru a Lloegr) yn aml yn rhy syml, neu nid yw'n cynnwys dadansoddiadau penodol i ardal neu grŵp demograffig.

**Canfyddiadau o ddata troseddau a chyfiawnder ar gyflawni troseddau**

At ei gilydd, nodwyd 14 o ddangosyddion o ddata troseddu a chyfiawnder fel rhai sy'n gysylltiedig â chyflawnwyr. Gellir rhannu'r rhain yn fras yn ddata troseddau ac arestiadau (a gesglir yn bennaf gan y Swyddfa Gartref) a data canlyniadau (a gesglir yn bennaf gan Wasanaeth Erlyn y Goron).

Roedd y digwyddiadau a'r troseddau a gynhwyswyd yn data'r Swyddfa Gartref (a gasglwyd yn ôl ardal heddlu) yn cynnwys troseddau a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, troseddau stelcio ac aflonyddu sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, troseddau a digwyddiadau rheolaeth drwy orfodaeth, troseddau rhywiol a gofnodwyd, a throseddau treisio a adroddwyd, troseddau treisio a gofnodwyd gan yr heddlu, a throseddau treisio a drosglwyddwyd. Yn ogystal â'r data sydd ar gael i'r cyhoedd a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae heddluoedd Cymru yn casglu data lefel digwyddiad ychwanegol ar Niche, gan gynnwys baneri ar gyfer achosion sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. Nododd un swyddog heddlu eu bod wedi dechrau cofnodi mathau newydd o droseddau megis tagu nad yw'n angheuol, oherwydd y gall hyn, ynghyd â dangosyddion eraill megis rheolaeth drwy orfodaeth, stelcio ac aflonyddu, fod yn arwydd o rybudd o niwed mwy difrifol. Mae data arestiadau ar gyfer troseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, gan gynnwys arestio, presenoldeb gwirfoddol, ac atgyfeiriadau amddiffyn plant, yn cael eu cofnodi gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi ar lefel ardal heddlu.

Mae’r arolygiaeth hon hefyd yn cofnodi data ar orchmynion a hysbysiadau amddiffyn rhag trais domestig, yn ogystal â nifer y ceisiadau a datgeliadau hawl i ofyn a hawl i wybod, a all roi cipolwg ar fesurau amgen o gyffredinrwydd neu ddigwyddedd nad ydynt yn cael eu cofnodi trwy ddata troseddau neu ddata arestiadau. O dan gais “hawl i ofyn”, gall unigolyn, neu drydydd parti, ofyn i’r heddlu wirio a oes gan bartner presennol neu gyn-bartner hanes treisgar neu gamdriniol. O dan yr “hawl i wybod”, gall yr heddlu wneud datgeliad os ydynt yn cael gwybodaeth am ymddygiad treisgar neu gamdriniol unigolyn a allai roi eu partner neu gyn-bartner mewn perygl. Mae gorchmynion cam-drin domestig a gyhoeddir drwy lysoedd teulu hefyd yn cael eu cofnodi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar lefel Cymru. Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn rhybuddio y dylid dehongli data gorchmynion a hysbysiadau amddiffyn rhag trais domestig yn ofalus. Mae hyn oherwydd nad yw rhai heddluoedd yn cofnodi defnydd gorchmynion a hysbysiadau amddiffyn rhag trais domestig yn gynhwysfawr, sy'n golygu nad oes modd cymharu, o reidrwydd, gyfrifon mewn un ardal â chyfrifon mewn ardal arall.

Cyhoeddir data canlyniadau ar droseddau sy'n gysylltiedig â VAWDASV gan Wasanaeth Erlyn y Goron hefyd. Mae hyn yn cynnwys data ar benderfyniadau cyn cyhuddo ar gyfer troseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, canlyniadau ar gyfer troseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, euogfarnau ac erlyniadau ar gyfer troseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, a chanlyniadau cyn cyhuddo ac erlyn ar gyfer achosion a nodwyd fel rhai sy'n gysylltiedig â threisio, troseddau rhywiol, treisio oedolion, a cham-drin plant yn rhywiol. Yn arbennig, er bod data ar gam-drin domestig ar draws y system

cyfiawnder troseddol yn eithaf cadarn, mae data'n parhau i fod yn gyfyngedig ar ganlyniadau trais yn erbyn menywod nad yw'n cael ei ddosbarthu fel cam-drin domestig, yn ogystal â thrais rhywiol a chamfanteisio.

**Tabl 5. Data troseddau a chyfiawnder ar gyflawni troseddau**

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Troseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a gofnodwyd yn ôl ardal heddlu (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Swyddfa Gartref)** | Cyfanswm nifer y troseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.<br><br>Canran o'r holl droseddau yn erbyn yr unigolyn a oedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2015/16 – 2023/24) |
| **Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a gofnodwyd yn ôl ardal heddlu (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Swyddfa Gartref)** | Cyfanswm nifer y digwyddiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2015/16 – 2023/24) |
| **Nifer y troseddau stelcio ac aflonyddu sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Swyddfa Gartref)** | Nifer y troseddau stelcio ac aflonyddu sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2018/19 – 2023/24) |
| **Nifer y troseddau rheolaeth drwy orfodaeth a gofnodwyd gan yr heddlu yn ôl ardal heddlu (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Swyddfa Gartref)** | Nifer y digwyddiadau a throseddau rheolaeth drwy orfodaeth a gofnodwyd gan yr heddlu. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2018/19 – 2023/24) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Troseddau llofruddiaeth (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Swyddfa Gartref)** | Nifer y lladdiadau domestig gyda dioddefwyr benywaidd 16 oed a hŷn, pob dioddefwr lladdiad benywaidd o dan 16 oed. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2019 – 2023/24) |
| **Troseddau rhywiol a gofnodwyd gan yr heddlu yn ôl ardal heddlu (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Swyddfa Gartref)** | Cyfanswm nifer y troseddau rhywiol a gofnodwyd, digwyddiadau o dreisio yr adroddwyd amdanynt, troseddau treisio a gofnodwyd gan yr heddlu, a throseddau treisio a drosglwyddwyd. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2015/16 – 2024/25) |
| **Arestiadau, cyfradd arestiadau, a phresenoldeb gwirfoddol ar gyfer troseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi)** | Arestiadau, presenoldeb gwirfoddol, ac atgyfeiriadau amddiffyn plant. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2019–2024) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Nifer yr hysbysiadau amddiffyn rhag trais domestig, gorchmynion amddiffyn rhag trais domestig, a chynlluniau datgelu trais domestig y gwnaed cais amdanynt (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi)** | Hysbysiadau diogelu rhag trais domestig sydd wedi'u rhoi ac y gwnaed cais amdanynt.<br><br>Nifer y ceisiadau a datgeliadau hawl i wybod a hawl i ofyn. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2019–2024) |
| **Penderfyniadau cyn cyhuddo sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn ôl ardal Gwasanaeth Erlyn y Goron ac ardal heddlu (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Gwasanaeth Erlyn y Goron)** | Penderfyniad i gyhuddo (cyhuddo, dim erlyniad, datrysiad y tu allan i'r llys); nifer cyfartalog y dyddiau i gyhuddo achosion sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2014/15 – 2023/24) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Canlyniadau a neilltuwyd i droseddau a nodwyd fel rhai sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, a gofnodwyd yn ôl grŵp canlyniad ac ardal heddlu (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Gwasanaeth Erlyn y Goron)** | Canran y troseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a gyhuddwyd neu a wysiwyd, a ystyriwyd, a ddatryswyd y tu allan i'r llys, lle ataliwyd erlyniad er budd y cyhoedd, lle roedd anawsterau tystiolaethol, roeddent yn destun camau a gymerwyd gan gorff neu asiantaeth arall, a lle roedd gweithgaredd dargyfeirio, addysgol neu ymyrryd. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2019–2024) |
| **Euogfarnau ac erlyniadau'n ymwnued â cham-drin domestig (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Gwasanaeth Erlyn y Goron)** | Nifer yr euogfarnau a'r erlyniadau a oedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2019–2024) |
| **Nifer y gorchmynion trais domestig mewn llysoedd teulu yn ôl rhanbarth (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Y Weinyddiaeth Gyfiawnder)** | Nifer y galwedigaethau a gorchmynion peidio ag ymyrryd. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2011/12 – 2023/24) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Tablau data ar lefel ardal Gwasanaeth Erlyn y Goron** | Canlyniadau cyn cyhuddo ac erlyn wedi'u hamlygu ar gyfer cam-drin domestig, canlyniadau cyn cyhuddo ac erlyn wedi'u hamlygu ar gyfer treisio, canlyniadau cyn cyhuddo ac erlyn wedi'u hamlygu ar gyfer treisio oedolion, canlyniadau cyn cyhuddo ac erlyn ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol, a chanlyniadau cyn cyhuddo ac erlyn ar gyfer troseddau rhywiol. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob chwarter (2019/20 – 2024/25) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Model adnabod, asesu a rheoli'r risg o gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu, a thrais ar sail anrhydedd (heddluoedd yng Nghymru)** | Sefyllfa bresennol: a yw'r dioddefwr yn teimlo'n ofnus, beth mae'n ei ofni, a yw wedi gadael, neu wedi ceisio gadael, y cyflawnwr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a yw'r cyflawnwr yn stelcio neu'n aflonyddu ar y dioddefwr.<br><br>Plant/dibynyddion: statws beichiogrwydd y dioddefwr, a yw'r cyflawnwr erioed wedi brifo plant.<br><br>Hanes trais domestig: a yw'r cam-drin yn gwaethygu, a yw'r troseddwr yn rheolaethol neu'n or-genfigennus, a yw'r troseddwr wedi bygwth lladd y dioddefwr neu rywun arall, a yw'r troseddwr wedi ceisio eu tagu / eu mygu, a yw'r troseddwr yn dweud pethau o natur rywiol sy'n gwneud i'r dioddefwr deimlo'n ddrwg neu'n eu brifo'n gorfforol neu rywun arall, a oes unrhyw bobl eraill y mae'r dioddefwyr yn eu hofni, a yw'r troseddwr erioed wedi cam-drin anifail neu anifail anwes y teulu. | Ddim ar gael yn gyhoeddus | Anhysbys (mae'r data diweddaraf sydd ar gael o 2025) |

**Mewnwelediadau o gyfweliadau â rhanddeiliaid**

Er bod rhanddeiliaid wedi nodi data heddlu a throseddu fel ffynhonnell bwysig o ddata ar droseddwyr, roeddent hefyd yn cydnabod ei gyfyngiadau a'r problemau ansawdd sy'n bodoli eisoes. Ystyriwyd bod data'r heddlu, yn enwedig yr hyn a gedwir yn Niche gan heddluoedd unigol, yn ffynhonnell gyfoethog o ddata, ond mynegodd rhanddeiliaid bryder ynghylch cyflawnrwydd. Soniodd un unigolyn sy'n gyfarwydd â data plismona am faes mewnbwn data ar gyfer y berthynas rhwng y dioddefwr a'r troseddwr, sy'n rhoi cyd-destun ychwanegol ar natur y drosedd a gwybodaeth bellach am y cyflawnwr. Fodd bynnag, nid yw'r data hyn bob

amser wedi’u cwblhau'n llawn nac yn gywir, yn rhannol oherwydd y pwysau ar swyddogion ar adeg adrodd.

Nododd sawl rhanddeiliad fod cofnodi ethnigrwydd yn fanwl cywir yn fwlch amlwg. Maent yn nodi bod hyn oherwydd y gall ethnigrwydd gael ei hunan-adrodd, neu ei gofnodi yn seiliedig ar ganfyddiad staff y ddalfa, gan arwain at fylchau ac anghywirdebau. Er bod llawer o setiau data cyfiawnder troseddol yn cynnwys meysydd ar gyfer nodweddion dioddefwyr a phobl dan amheuaeth (megis oedran, ethnigrwydd a rhyw), mae'r meysydd hyn yn aml yn cael eu gadael yn wag neu eu cwblhau'n anghywir. Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i ddeall sut mae gwahanol grwpiau poblogaeth yn cael eu heffeithio arnynt gan wahanol fathau o niwed ac yn lleihau effeithiolrwydd ymatebion polisi wedi'u targedu.

Bwlch allweddol arall sy'n gysylltiedig â data cyfiawnder troseddol yw codau troseddau a mathau o droseddau. Er bod systemau data yn caniatáu i droseddau gael eu nodi fel rhai sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, neu sy'n gysylltiedig â mathau eraill o gam-drin, fel trais ar sail anrhydedd neu droseddau casineb, mae'r data yn parhau i fethu ag adlewyrchu maint llawn y problemau hyn, ac nid yw bob amser yn cael ei gofnodi'n llawn. Mae llawer o ffurfiau o gam-drin, fel rheolaeth drwy orfodaeth neu dorri gorchmynion amddiffyn, yn anodd eu mesur yn gywir, er gwaethaf cael codau trosedd cysylltiedig, oherwydd nid adroddir amdanynt yn aml.

Nododd un rhanddeiliad mewn perthynas â chanlyniadau cyfiawnder troseddol, er bod data troseddau a chyfiawnder yn seiliedig ar ddiffynyddion, nad yw'n bosibl cysylltu diffynyddion â throseddau penodol mewn ffordd sy'n caniatáu i achosion gael eu holrhain drwy'r system gyfiawnder. O ganlyniad, mae'n anodd mesur cyfran y cyflawnwyr cam-drin domestig sy'n cael eu dedfrydu neu eu carcharu.

**Asesu ansawdd**

Er gwaethaf bylchau sylweddol, 9.3 oedd sgôr ansawdd gyfartalog y data y nodwyd eu bod yn ymwneud â mynd i'r afael â chyflawni troseddau. Ymhlith cryfderau'r data oedd y strwythur a'r fformat, gyda'r rhan fwyaf o'r wybodaeth wedi'i chofnodi mewn offeryn penodol, platfform cofnodi data pwrpasol, neu yn Microsoft Excel. Ystyriwyd bod data hefyd yn berthnasol iawn, gyda llawer o ddangosyddion yn ymwneud yn benodol â ffrwd waith y glasbrint. Mae’r prif wendidau yn gysylltiedig â chysondeb y data. Mae hyn oherwydd y ffaith bod y data’n dod yn bennaf o sefydliadau'r trydydd sector, neu o’r maes blismona a throseddu, sy’n golygu bod problemau posibl ynghylch data yn cael eu cofnodi'n wahanol ar draws gwasanaethau neu ardaloedd lleol, gan gyfyngu ar gysondeb y data.

### Comisiynu cynaliadwy:dull system gyfan

Roedd data a oedd yn llywio’r broses comisiynu cynaliadwy yn gymysg, o ran y defnydd o wasanaethau a’r galw amdanynt, a darparu gwasanaethau a sut roeddent yn ymateb. At ei gilydd, nododd ein hadolygiad bedwar dangosydd yn ymwneud â defnyddio gwasanaethau, a saith dangosydd yn ymwneud â darparu gwasanaethau. Yn gyffredinol, prin oedd y dangosyddion â “lens system gyfan”, gyda’r rhan fwyaf o’r data yn ymwneud â gwasanaeth neu sector penodol. Mae lens system gyfan yn fodd o ddeall system neu broses drwy ystyried pob rhan gydrannol, yn hytrach nag unrhyw ran ar ei phen ei hun.

**Y defnydd o wasanaethau a’r galw amdanynt**

O ran y galw am wasanaethau, nododd ein hadolygiad ddata o ansawdd uchel o'r sector gofal iechyd ar alwadau ambiwlans a derbyniadau i ysbytai ac ystafelloedd brys, wedi'u dadansoddi yn ôl mathau penodol o ymosodiad a rhywedd. Mae'r ddwy set ddata hyn wedi'u cynnwys ym mhorth data'r Uned Atal Trais, gan ei gwneud yn hawdd eu cyrchu a'u cymharu dros amser. Fodd bynnag, gall gwahanol fyrddau iechyd ddefnyddio systemau ac arferion cofnodi amrywiol, sy'n cymhlethu’r broses o gymharu data ar draws rhanbarthau. Roedd data defnyddiol hefyd o'r sector digartrefedd, gan gynnwys nifer yr aelwydydd oedd dan fygythiad o fod yn ddigartref a’r nifer a aseswyd i fod yn ddigartref a lle roedd dyletswydd i’w helpu i sicrhau llety yn ystod y flwyddyn. Roedd y data hefyd yn cofnodi’r nifer a oedd yn gymwys ac yn ddigartref ond oedd naill ai heb fod ag angen blaenoriaethol neu ag angen blaenoriaethol ond yn fwriadol ddigartref. Dadansoddwyd y ffigurau hyn ymhellach yn ôl ffactorau megis chwalfa perthynas, cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd.

Mae data ar ddefnydd gwasanaethau gan wasanaethau arbenigol hefyd yn cyfrannu at ddull system gyfan a gall gefnogi comisiynu cynaliadwy. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn casglu data o sawl gwasanaeth, gan gynnwys Gwasanaeth Cam-drin Domestig Aberconwy, BAWSO, Atal y Fro, Gwasanaeth Calan DVS, Cymorth i Ferched Caerdydd, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, Cymorth i Ferched ClwydAlyn, Cymorth i Ferched Cyfannol, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Cymru, Gorwel, Canolfan Argyfwng Teulu Sir Drefaldwyn, Canolfan Gefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru, Cymorth i Ferched Rhondda Cynon Taf, Safer Merthyr Tydfil, Cymru Ddiogelach, Cam wrth Gam Gogledd Cymru, Cymorth i Ferched Abertawe, Threshold DAS, Thrive Women’s Aid, a Chymorth i Ferched Gorllewin Cymru. Mae Cymorth i Ferched Caerdydd bellach wedi cau, felly ni fydd yn darparu data o hyn ymlaen.

Mae'r data a gesglir gan Cymorth i Ferched Cymru yn darparu gwybodaeth hanfodol am ddefnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys manylion ynghylch demograffig, y mathau o gam-drin a brofwyd, y mathau o wasanaethau y maent yn eu cyrchu, a hyd eu harhosiad. Er bod cryfder allweddol y data hyn yw’r ffaith eu bod wedi’u casglu mewn un adroddiad, fe rybuddiodd cynrychiolydd o Gymorth i Ferched Cymru, oherwydd problemau o ran capasiti ac ariannu o fewn llawer o'r gwasanaethau, efallai na fydd data'n cael eu casglu'n rheolaidd ac yn gyson, gan ei gwneud yn heriol eu cymharu ar draws gwasanaethau. Ar ben hynny, oherwydd y gallai fod gan rai sefydliadau llai bartneriaethau ar brosiectau penodol, gall ffurflenni data hefyd ddyblygu gwybodaeth.

Mae data o wasanaethau cynghori a llinellau cymorth hefyd yn rhoi syniad o'r galw am wasanaethau. Mae Cyngor ar Bopeth yn cyhoeddi data ar nifer y bobl sy'n ceisio cyngor ar faterion sy'n gysylltiedig â VAWDASV, tra bod Cymorth i Ferched Cymru yn cyhoeddi data ar nodweddion unigolion sy'n ceisio cymorth drwy'r llinell gymorth Byw Heb Ofn.

**Tabl 6. Y defnydd o wasanaethau a'r galw amdanynt**

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Ystadegau blynyddol cleifion a dderbyniwyd (Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'r Uned Lleihau Trais)** | Derbyniadau i'r ysbyty yn ôl rhywedd, oedran, ethnigrwydd, a chategori ymosodiad. | Mae rhywfaint o ddata ar gael i'r cyhoedd, ond mae angen i ymchwilwyr wneud cais am ddata mwy manwl. | Bob blwyddyn (2014/15 – 2023/24) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Galwadau ambiwlans ar gyfer ymosodiad (Uned Atal Trais)** | Niferodd yn ôl ymosodiad, ymosodiad ag arf tanio, ymosodiad rhywiol, a thrywanu/cyllell.<br><br>Nifer yn ôl rhyw, ethnigrwydd ac oedran. | Mae rhywfaint o ddata ar gael i'r cyhoedd, ond mae angen i ymchwilwyr wneud cais am ddata mwy manwl. | Bob mis (2018–2025) |
| **Galwadau i'r llinell gymorth Byw Heb Ofn yn ôl math o alwad (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Cymorth i Fenywod Cymru)** | Nifer y galwadau, sgyrsiau gwe, negeseuon e-bost a negeseuon testun.<br><br>Nifer y galwadau yn ôl cymorth a gwrando, gwybodaeth asiantaethau eraill, lloches frys uniongyrchol ac anuniongyrchol, galwadau argyfwng.<br><br>Nifer y galwadau yn ôl galwadau a ddargyfeiriwyd, a alwyd o'r blaen, Cymorth i Ferched, yr heddlu, ac iechyd.<br><br>Nifer y galwadau yn ôl hunaniaeth y galwr.<br><br>Nifer y galwyr yn ôl math o gam-drin.<br><br>Nifer y galwyr yn ôl anghenion cymhleth. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2018/19 – 2022/23) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Tueddiadau Cyngor ar Bopeth (Cyngor ar Bopeth)** | Nifer y bobl sy'n ceisio cyngor ar gam-drin domestig yn ôl math o berthynas, cyngor ar stelcio, a chyngor ar dreisio / ymosodiad rhywiol. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob chwarter (2016–2025) |
| **Adroddiad Aelodaeth Blynyddol: Data o wasanaethau arbenigol yng Nghymru (Cymorth i Ferched Cymru)** | Nifer y defnyddwyr gwasanaethau yn ôl y mathau o gam-drin a brofwyd a'r berthynas â'r partner, anghenion cymorth ychwanegol goroeswyr, a hyd arhosiad goroeswyr a adawodd y gwasanaeth.<br><br>Data demograffig ar ddefnyddwyr gwasanaethau arbenigol. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2016/17 – 2022/23)<br><br>Cesglir data gan wasanaethau arbenigol ddwywaith y flwyddyn, ond cyhoeddir adroddiadau aelodaeth bob blwyddyn. |
| **Aelwydydd a ganfuwyd eu bod dan fygythiad o ddigartrefedd – y prif reswm dros gael eu bygwth (Llywodraeth Cymru)** | Nifer yr aelwydydd sydd dan fygythiad o ddigartrefedd oherwydd chwalfa'r berthynas â phartner (treisgar a di-drais), trais ac aflonyddu oherwydd ailbennu rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2015/16 – 2023/24) |

### Darpariaeth ac ymateb gwasanaethau

Nodwyd saith dangosydd â gwybodaeth am ddarpariaeth ac ymateb gwasanaethau VAWDASV. Nodwyd bod data ar staffio a chostau yn fwlch yn y dirwedd data. Dim ond dwy set ddata a nodwyd yn ymwneud â staffio neu gostau darparu gwasanaethau (yn benodol nifer y gweithwyr cymdeithasol cyfwerth ag amser llawn a gwariant y GIG ar drawma ac anafiadau), ac mae gan y ddwy ohonynt gyfyngiadau sylweddol. Er bod y ddwy set ddata yn darparu gwybodaeth am sectorau cyfagos, nid yw'r naill na'r llall yn rhoi cipolwg ar

gomisiynu na darparu gwasanaethau sy'n benodol i VAWDASV. At hynny, dim ond ar gyfer 2015/16 y cyhoeddwyd data ar ddarpariaeth gweithwyr cymdeithasol.

Daeth gweddill y data a nodwyd yn ymwneud â darpariaeth ac ymatebion gwasanaethau gan wasanaethau arbenigol. Roedd hyn yn cynnwys nifer yr atgyfeiriadau at wasanaethau arbenigol, o ble y gwnaed atgyfeiriadau, i ble y cyfeiriwyd goroeswyr o linell gymorth Byw Heb Ofn, a nifer y gwasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr gwrywaidd. Yn ogystal â data ynghylch a oedd goroeswyr/dioddefwyr yn cael eu cefnogi'n ddigonol, roedd gwasanaethau arbenigol hefyd yn darparu data i nodi pryd nad oedd modd i oroeswyr/dioddefwyr gael eu cefnogi gan wasanaethau, gan gynnwys a oedd hyn yn seiliedig ar eu hanghenion eu hunain neu oherwydd nad oedd gan y gwasanaeth gapasiti. Mae hyn yn rhoi cipolwg ar ble y gallai bylchau fod yn y ddarpariaeth, yn enwedig ar gyfer mathau penodol o wasanaethau, neu wrth gefnogi unigolion ag anghenion risg uchel neu gymhleth.

Hefyd, nododd rhai rhanddeiliaid asesiadau o anghenion y boblogaeth leol a strategaethau VAWDASV rhanbarthol fel ffynonellau data allweddol ar VAWDASV, ac fel ffynonellau a oedd yn llywio comisiynu a chyllido. Fodd bynnag, nid yw'r rhain ar gael yn rhwydd ar gyfer pob ardal, cânt eu cyhoeddi mewn gwahanol fformatau ac ar wahanol adegau, ac nid ydynt yn cynnwys data meintiol manwl. Canfuwyd hefyd fod yr eitemau data penodol a gynhwyswyd yn amrywio o ardal i ardal.

**Tabl 7. Darpariaeth ac ymateb gwasanaethau**

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion plentyndod (Iechyd Cyhoeddus Cymru)** | Gweithwyr cymdeithasol cyfwerth ag amser llawn fesul 1,000 o blant 0–17 oed. | Ar gael yn gyhoeddus | Untro (2015/16 yn unig) |
| **Gwariant y GIG yn ôl categori cyllideb a blwyddyn (Llywodraeth Cymru)** | Gwariant y GIG ar drawma ac anafiadau. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2020/21 – 2022/23) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Atgyfeiriadau at wasanaethau arbenigol yn ôl rhywedd (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Cymorth i Ferched Cymru)** | Nifer yr atgyfeiriadau i lochesi, gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau trais rhywiol a gwasanaethau camfanteisio'n rhywiol, a chyfanswm y sefydliadau sy'n cefnogi goroeswyr. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2014/15 – 2022/23) |
| **Rheswm pam y gwrthodwyd atgyfeiriadau i lochesi (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Cymorth i Ferched Cymru)** | Nifer yr achosion lle nad oedd gwasanaethau'n gallu diwallu anghenion cymorth, lle nad oedd gan y gwasanaeth le na chapasiti, lle roedd gan y sawl a atgyfeiriwyd euogfarnau blaenorol, lle'r oedd y sawl a atgyfeiriwyd yn risg uchel, lle nad oedd cyfleusterau cam-drin domestig addas, lle'r oedd y gwasanaethau heb ragor o gapasiti i gefnogi anghenion cymhleth, lle'r oedd yr achos yn ymwneud â dyn dros 16 oed, a lle cafodd yr achos ei atgyfeirio at wasanaeth arall. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2014/15 – 2022/23) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Lle cafodd goroeswyr eu cyfeirio gan linell gymorth Byw Heb Ofn (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Cymorth i Ferched Cymru)** | Nifer y goroeswyr a gyfeiriwyd at asiantaethau eraill, tai, yr heddlu, gwasanaethau cyfreithiol, cwnsela, cymorth treisio a cham-drin rhywiol, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau cymorth i deuluoedd a phlant. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2018/19 – 2022/23) |
| **Ffynhonnell atgyfeiriadau i lochesi, gwasanaethau cymunedol, a gwasanaethau cymorth ar gyfer trais rhywiol (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Cymorth i Ferched Cymru)** | Nifer yr atgyfeiriadau gan wasanaeth cam-drin domestig arall, asiantaethau statudol, ffrindiau neu deulu, ffynhonnell anhysbys, a hunanatgyfeiriadau. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2015/16 – 2022/23) |
| **Nifer y gwasanaethau cam-drin domestig sy'n cynnig cymorth i ddioddefwyr gwrywaidd (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Cymorth i Ferched Cymru)** | Nifer y llochesi a thai diogel, gwasanaethau galw heibio, gwasanaethau gwybodaeth/cymorth, gwasanaethau allgymorth, cynghorwyr trais domestig annibynnol, gwasanaethau galw heibio, grwpiau cymorth, a gwasanaethau cwnsela. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2021–2023) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad Aelodaeth Blynyddol: Data o wasanaethau arbenigol yng Nghymru (Cymorth i Ferched Cymru)** | Nifer y goroeswyr a gafodd gymorth, ac atgyfeiriadau newydd na ellid rhoi cymorth iddynt, na chafodd gymorth, ac sydd ar y rhestr aros. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2016/17 – 2022/23) |
| **Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg yn ôl ardal heddlu (Swyddfa Ystadegau Gwladol / SafeLives)** | Nifer yr achosion ac achosion ailadroddus a drafodwyd, cyfran yr achosion gyda dioddefwyr benywaidd, dioddefwyr Du, Asiaidd neu o gymunedau hil leiafrifiedig, dioddefwyr LHDTC+, neu ddioddefwyr anabl.<br><br>Nifer y Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg yn ôl ffynhonnell atgyfeirio. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2019–2023) |
| **Data Model Caerdydd (Byrddau Iechyd Cymru)** | Nifer y dioddefwyr sy'n mynd i'r ysbyty ag anafiadau sy'n gysylltiedig â thrais a gafodd ymyrraeth arbenigol a natur y bregusrwydd. | Ddim ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2019–2025) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **National Audit of Asking and Telling ([Dr Jane Meyrick])** | Pa ddata sydd gan ysbytai, a oedd yr ymatebwyr yn ymwybodol o lwybrau atgyfeirio ymlaen ar gyfer cam-drin domestig, a yw'r gwasanaeth yn cael hyfforddiant penodol ar gam-drin domestig, ac a yw'r gwasanaeth yn gofyn yn rheolaidd am drais rhywiol. | Mae rhywfaint o ddata ar gael i'r cyhoedd, ond mae angen i ymchwilwyr gysylltu â'r awdur i gael data ychwanegol. | Untro (2023) |

**Mewnwelediadau o gyfweliadau â rhanddeiliaid**

Yn gyffredinol, priodolwyd heriau data yn ymwneud â chomisiynu cynaliadwy gan randdeiliaid i (i) y sefyllfa gymhleth o ran partneriaethau a darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru, a (ii) diffyg rhannu data rheolaidd, gan ei gwneud yn anodd cael golwg lawn ar ddefnydd a darpariaeth gwasanaethau. Nododd un rhanddeiliad fod nifer o gynlluniau strategol sy'n gorgyffwrdd yng Nghymru a allai fod yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau VAWDASV. Ar ben hynny, gall sefydliadau gael cyllid o sawl ffynhonnell. Nododd rhanddeiliaid fod y dull dameidiog hwn yn cael ei waethygu gan y ffaith bod llawer o ddarparwyr yn cael eu hariannu gan sefydliadau lluosog, pob un yn gofyn am wahanol fformatau adrodd a chanlyniadau. Gall y Loteri Genedlaethol, yr Uned Atal Trais, comisiynwyr heddlu a throseddu, Llywodraeth Cymru, a chyllidwyr dyngarol i gyd ofyn am fetrigau gwahanol, gan wneud i ddarparwyr deimlo fel pe baent wedi'u llethu ac yn gorfod gwneud gormod wrth geisio cyflawni eu holl rwymedigaethau adrodd.

Her allweddol arall sy'n gysylltiedig â chomisiynu a darparu gwasanaethau cynaliadwy yw rhannu data. Nododd rhanddeiliaid y gallai gwasanaethau gasglu data mewn gwahanol fformatau neu fod y data'n gorgyffwrdd, heb wybod beth sydd gan sefydliadau eraill neu beth maen nhw'n ei gasglu. Ymhlith y rhwystrau allweddol i rannu data y mae cyfyngiadau o ran ariannu, blaenoriaethau sefydliadol, a phryderon ynghylch cyfrinachedd. Nododd un rhanddeiliad, hyd yn oed o fewn awdurdodau lleol, nad yw adrannau'n aml yn rhannu gwybodaeth, ac mae hyn yn cael ei gymhlethu ymhellach gan bryderon ynghylch GDPR a pherchnogaeth data, yn enwedig pan fydd sefydliadau'n cystadlu am yr un ffrydiau cyllido.

Er bod sawl her wedi'u nodi, tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw hefyd at feysydd lle mae Cymru ar flaen y gad neu lle mae ganddi gryfderau unigryw. Mae'r rhain yn cynnwys ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â VAWDASV, maint y genedl, gan ganiatáu ar gyfer

ymatebolrwydd uwch a phroses symlach o wneud penderfyniadau mewn polisi ac ymchwil, strwythurau arweinyddiaeth lle mae gweinidogion yn gyfrifol am feysydd perthnasol, a chynghorydd cenedlaethol, gan ddarparu atebolrwydd wedi'i ffocysu.

**Asesu ansawdd**

Y sgôr ansawdd gyfartalog ar gyfer setiau data yn ymwneud â chomisiynu cynaliadwy oedd 8.2. Un o gryfderau allweddol y data oedd eu perthnasedd i ffrydiau gwaith y glasbrint a'r dangosyddion cenedlaethol, gyda'r mwyafrif o'r data yn canolbwyntio'n benodol ar brofiad o VAWDASV neu ei gyffredinrwydd. Mae un gwendid a nodwyd am y data'n ymwneud â chysondeb. Oherwydd bod llawer o'r data wedi deillio o wasanaethau statudol neu drydydd sector rhanbarthol penodol, roedd pryderon y gallai data gael eu cofnodi neu eu dehongli'n wahanol ar draws ardaloedd.

**Anghenion pobl hŷn**

Nodwyd anghenion pobl hŷn fel bwlch allweddol. Roedd chwe set ddata yn cynnwys dangosyddion ar gyfer pobl 65 oed a throsodd yng Nghymru o arolygon hunan-adrodd a data ynghylch y defnydd o wasanaethau gan wasanaethau arbenigol a statudol. Mae Porth Atal Trais Cymru, sy'n darparu data ar dderbyniadau i ystafelloedd brys, galwadau ambiwlans, a dioddefwyr troseddau yn ôl oedran a rhywedd, yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth sy'n ymwneud â phobl hŷn.

Er bod mesurau cyffredinrwydd, fel Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, yn cynnwys arsylwadau ar gyfer pobl 65 oed neu hŷn, nid yw dadgyfuniadau ar gyfer Cymru ar sail rhywedd ac oedran ar gael i'r cyhoedd. Ar ben hynny, yn wahanol i fesurau ar gyfer plant a phobl ifanc, ni nodwyd unrhyw arolygon hydredol penodol, gan gynnwys mesurau ar gyfer dioddefwyr troseddu neu gyflawni trais wedi'i anelu'n benodol at bobl hŷn.

**Tabl 8. Anghenion pobl hŷn**

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Mathau o gam-drin honedig yn ôl awdurdod lleol, mesur, ac oedran y dioddefwr honedig (Llywodraeth Cymru)** | Menywod dros 65 oed sy'n cyflwyno â cham-drin corfforol, cam-drin rhywiol, cam-drin emosiynol/seicolegol, cam-drin ariannol ac esgeulustod. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2015/16 – 2018/19) |
| **Ystadegau blynyddol cleifion a dderbyniwyd (Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'r Uned Lleihau Trais)** | Derbyniadau i'r ysbyty yn ôl oedran, rhywedd ac ethnigrwydd yn ôl math o ymosodiad. | Mae rhywfaint o ddata ar gael i'r cyhoedd, ond mae angen i ymchwilwyr wneud cais am ddata mwy manwl. | Bob blwyddyn (2014/15 – 2023/24) |
| **Galwadau Ambiwlans (Uned Lleihau Trais)** | Galwadau ambiwlans am ymosodiad yn ôl oedran. | Ddim ar gael yn gyhoeddus | Bob mis (2018–2025) |
| **Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru)** | Pobl sy'n teimlo'n ddiogel yn ôl band oedran a rhywedd. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2018/19 – 2022/23) |
| **Data'r heddlu (Uned Lleihau Trais)** | Ymosodiad yn ôl oedran y dioddefwr. | Ddim ar gael yn gyhoeddus | Bob mis (2018–2025) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Nodweddion goroeswyr sy'n defnyddio llochesi, gwasanaethau cymunedol, a gwasanaethau trais rhywiol (Cymorth i Ferched Cymru)** | Goroeswyr sy'n defnyddio llochesi, gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau trais rhywiol, a gwasanaethau camfanteisio rhywiol yn ôl oedran. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2017/18 – 2022/23) |
| **Log diogelu (Age Cymru)** | Achosion o gam-drin a brofir gan bobl hŷn; sut mae'r dioddefwr yn adnabod y cyflawnwr (teulu neu bartner/cyn-bartner). | Ddim ar gael yn gyhoeddus | Bob mis (2023–2025) |

**Asesu ansawdd**

Er bod setiau data cyfyngedig wedi'u nodi ar anghenion pobl hŷn, y sgôr ansawdd gyfartalog oedd 9.8. Ymhlith cryfderau allweddol y data oedd y strwythur a'r fformat, gyda'r holl setiau data a nodwyd yn cael eu cofnodi yn Microsoft Excel neu ar blatfform neu offeryn data penodol. Mae hyn yn dangos bod y data yn haws eu hechdynnu a'u dadansoddi ac yn fwy tebygol o gael eu cofnodi'n systematig. Fodd bynnag, roedd cysondeb y data yn fân wendid. Oherwydd bod rhywfaint o'r data a nodwyd yn seiliedig ar ddata gweinyddol gan wasanaethau, mae tebygolrwydd uwch y gallai gael eu cofnodi'n anghyson neu na ellir eu cymharu ar draws rhanbarthau neu wasanaethau.

### Anghenion plant a phobl ifanc

**Cyffredinrwydd a dioddef trais**

Roedd y mwyafrif o'r deg dangosydd data yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn ymwneud â chyffredinrwydd dioddef trais. Roedd hyn yn cynnwys data gweinyddol a data defnydd gwasanaethau megis data Iechyd Cyhoeddus Cymru ar dderbyniadau brys i'r ysbyty, data'r Swyddfa Gartref ar gam-drin plant, a'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol. Mae'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn fframwaith ar gyfer nodi'r rheini a allai fod wedi dioddef caethwasiaeth fodern. Gall staff mewn sefydliadau ymatebwyr cyntaf dynodedig gwblhau atgyfeiriad i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol os ydynt yn amau bod oedolyn neu unigolyn ifanc mewn perygl. Daeth mwyafrif y data hunan-adrodd arolygon o arolygon a

anelwyd yn benodol at blant a phobl ifanc. Nodwyd bod un dangosydd o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am brofiad pobl ifanc o ddioddef trais. Roedd y rhan fwyaf o ddata arolygon yn ymwneud â phobl ifanc yn dioddef trais gan bobl ifanc eraill, yn hytrach nag oedolion eraill, ac roedd data cyfyngedig ar gydberthnasau pobl ifanc â throseddwyr.

Ar ben hynny, dim ond arolwg Plant, Trais a Bregusrwydd y Gronfa Waddol Ieuenctid a ganolbwyntiodd yn benodol ar brofiad trais, tra oedd arolygon eraill (megis Astudiaeth Carfan y Mileniwm a chasglu data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion) yn cynnwys cwestiynau ar ddioddef troseddu o fewn astudiaeth ehangach o brofiadau myfyrwyr. O ganlyniad, mae'r mesurau trais yn gyfyngedig. Mae Astudiaeth Carfan y Mileniwm yn astudiaeth hydredol ar raddfa fawr ar bobl ifanc a anwyd yn y flwyddyn 2000 ledled y DU, tra bod y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn casglu data o ysgolion cynradd ac uwchradd ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yng Nghymru i gynhyrchu a defnyddio tystiolaeth o ansawdd da ar gyfer gwella iechyd. Yn ogystal, nododd rhanddeiliad sy'n gyfarwydd â set ddata'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion na fydd cwestiynau penodol ar VAWDASV o bosibl yn cael eu cynnwys ym mhob ton, ac yn lle hynny byddent yn cael eu cylchdroi â dangosyddion eraill.

Roedd ychydig o ddangosyddion yn canolbwyntio ar brofiad plant o gam-drin domestig gan rieni. Roedd hyn yn cynnwys data ar alwyr i'r llinell gymorth Byw Heb Ofn a ddatgelodd fod ganddynt blant, a data ar brofiad plant o gam-drin domestig gan rieni sydd ar y gofrestr amddiffyn plant. Yn olaf, mesurodd un dangosydd a oedd wedi'i gynnwys yn Astudiaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2015 nifer yr achosion o gam-drin yn ystod plentyndod ymhlith oedolion. Dosbarthwyd yr arolwg hwn i oddeutu 2,000 o oedolion rhwng 18 a 69 oed yng Nghymru i amcangyfrif pa mor gyffredin yw profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gan gynnwys trais domestig, camddefnyddio alcohol, a rhieni'n gwahanu. Cafodd yr arolwg gyfradd ymateb o tua 50%. Fodd bynnag, dim ond unwaith y cafodd yr arolwg hwn ei ledaenu.

**Tabl 8. Data ar gyffredinrwydd a dioddef trais**

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion plentyndod (Iechyd Cyhoeddus Cymru)** | Derbyniadau brys i'r ysbyty oherwydd anafiadau i blant 0–4 oed. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2006/07 – 2015/16) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Prif faterion cyflwyno wrth atgyfeirio ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael cwnsela (Llywodraeth Cymru) [1]** | Nifer y bobl ifanc sy'n cyflwyno gyda cham-drin (gan gynnwys cam-drin rhywiol), nifer y bobl ifanc sy'n cyflwyno gyda pherthynas (cariad neu eraill). | Ar gael yn gyhoeddus. Cesglir data fel rhan o gasgliad gwasanaethau cwnsela ysgolion awdurdodau lleol. | Bob blwyddyn (2013/14 – 2023/24) |
| **Nodweddion galwyr i'r llinell gymorth Byw Heb Ofn (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Cymorth i Ferched Cymru)** | Nifer y galwyr yn ôl nifer y plant a ddatgelwyd. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2016/17 – 2022/23) |
| **Adroddiad Aelodaeth Blynyddol (Cymorth i Ferched Cymru)** | Oedran gyfartalog plant goroeswyr mewn cymorth sy'n seiliedig ar loches.<br><br>Nifer y plant a gefnogir drwy sesiynau codi ymwybyddiaeth, sesiynau un-i-un, neu sesiynau teulu. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2016/17 – 2022/23) |
| **Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (Swyddfa Ystadegau Gwladol)** | Cyfran y plant 10 i 15 oed a brofodd drosedd a ddosbarthwyd fel trosedd yn erbyn yr unigolyn. | Mae rhywfaint o ddata ar gael i'r cyhoedd, ond mae angen i ymchwilwyr wneud cais am ddata mwy manwl. | Bob blwyddyn (2019–2024) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Troseddau Cam-drin Plant yn Rhywiol (Swyddfa Ystadegau Gwladol / Swyddfa Gartref)** | Cyfanswm nifer y troseddau rhywiol a nodwyd fel troseddau cam-drin plant yn rhywiol, cyfanswm nifer y troseddau cam-drin rhywiol plant (a nodwyd fel cam-drin plant yn rhywiol a delweddau anweddus o blant), cyfanswm nifer y troseddau a nodwyd fel cam-drin plant yn rhywiol. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2023–2025) |
| **Plant sy'n cael gofal a chymorth ar y gofrestr amddiffyn plant yn ôl awdurdod lleol, categori cam-drin, a rhywedd (Llywodraeth Cymru)** | Plant sy'n profi esgeulustod, cam-drin corfforol, cam-drin rhywiol, cam-drin ariannol, cam-drin emosiynol a seicolegol yn ôl grŵp oedran a rhywedd. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2016/17 – 2022/23) |
| **Plant sy'n dechrau cael gofal gan awdurdod lleol ac angen gofal (Llywodraeth Cymru)** | Plant yn dechrau cael gofal oherwydd cam-drin neu esgeulustod neu gamweithrediad teulu. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2003–2024) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Caethwasiaeth fodern: Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol a dyletswydd i hysbysu ystadegau (Swyddfa Gartref)** | Atgyfeiriadau'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn ôl lleoliad camfanteisio, rhywedd, y math o gamfanteisio, cenedligrwydd, ac oedran wrth atgyfeirio.<br><br>Atgyfeiriadau'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol gan ymatebwyr cyntaf. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2019–2025) |
| **Astudiaeth Carfan y Mileniwm – Ysgubiad 7, 17 oed (Coleg Prifysgol Llundain)** | P'un a yw'r unigolyn ifanc wedi cael ei sarhau, ei alw'n enwau, neu ei weiddi arno'n gyhoeddus, wedi profi cam-drin emosiynol, wedi profi trais corfforol, wedi cael arf wedi'i ddefnyddio yn ei erbyn, neu wedi cael cysylltiad rhywiol digroeso. | Rhaid i ymchwilwyr wneud cais drwy UK Data Service i gael mynediad. | Bob tair blynedd (2017/18)<br><br>Mae Astudiaeth Carfan y Mileniwm yn astudiaeth garfan eni hydredol ar gyfer y sawl a anwyd yn y flwyddyn 2000 a gyhoeddir bob tair blynedd. Fodd bynnag, mae'r cwestiynau'n amrywio ym mhob ysgubiad, gyda chwestiynau'n ymwneud â thrais wedi'u cynnwys gyntaf yn 2013/14. |
| **Astudiaeth Carfan y Mileniwm – Ysgubiad 6 (Coleg Prifysgol Llundain)** | Pa mor aml mae brodyr a chwiorydd yn eu pigo arnyn nhw'n fwriadol, pa mor aml mae plant eraill yn eu pigo arnyn nhw. | Ddim ar gael yn gyhoeddus | Bob tair blynedd (2013/14) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion)** | Pa mor aml y mae pobl ifanc wedi cael eu bwlio, a yw partner wedi gwneud sylwadau niweidiol tuag atynt, wedi'u gwthio, neu eu slapio, eu dyrnu, eu cicio, neu eu curo, a ydynt wedi cael eu galw'n enwau rhywiol sarhaus digroeso, neu wedi profi cyffyrddiad corfforol neu gyffyrddiad rhywiol digroeso. | Ddim ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2017–2024) |
| **Ymddygiadau Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol (Prifysgol Bergen)** | P'un a yw plant wedi cael eu bwlio neu eu seiberfwlio. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob pedair blynedd (2002–2018) |
| **Astudiaeth o Blant, Trais a Bregusrwydd (Cronfa Waddol Ieuenctid)** | A yw unigolyn ifanc wedi bod yn ddioddefwr trosedd dreisgar yn ystod y 12 mis diwethaf neu'n dyst i drosedd dreisgar, p'un a ydynt wedi bod yn dyst i aflonyddu rhywiol neu ymosodiad, neu'n ddioddefwr aflonyddu rhywiol neu ymosodiad.<br><br>P'un a yw'r partner wedi dangos ymddygiadau cam-drin emosiynol, corfforol neu rywiol. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2022–2024) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Arolwg o gamdriniaeth ymysg cyfoedion mewn colegau yng Nghymru (DECIPHer)** | Nifer y digwyddiadau camdriniaeth ymysg cyfoedion a brofwyd, profiad o gam-drin yn seiliedig ar ryw neu rywedd, a'r cymorth a gafwyd ar ôl rhannu profiad o gamdriniaeth ymysg cyfoedion â chydweithwyr. | Ar gael yn gyhoeddus | Untro (2023 yn unig) |
| **Arolwg o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru)** | Pa mor gyffredin yw profiad o gam-drin geiriol neu gorfforol, trais domestig, a cham-drin rhywiol. | Mae rhywfaint o ddata ar gael i'r cyhoedd, ond ni ddarperir unrhyw wybodaeth ynghylch a oes modd cyrchu data mwy manwl. | Untro (2015 yn unig) |

[1] Cesglir data fel rhan o gasgliad gwasanaethau cwnsela ysgolion awdurdodau lleol.

**Cyflawni trais**

Yn ogystal â data ar ddioddefwyr trais, roedd pum set ddata yn cynnwys dangosyddion ar gyflawni trais. Daeth yr holl ddata a nodwyd ar droseddwyr o arolygon hunan-adrodd, ac roeddent i gyd yn canolbwyntio'n benodol ar blant a phobl ifanc (yn hytrach na'r boblogaeth gyffredinol). Yn debyg i ddata ar ddioddefwyr, mae'r mwyaf o’r mesurau wedi'u hymgorffori mewn arolygon mwy am brofiadau pobl ifanc, sy'n golygu mai dim ond cwestiynau cyfyngedig sydd am drais, ac efallai na fydd cwestiynau'n ymddangos ym mhob ton arolwg.

**Tabl 9. Data ar achosion o gyflawni trais gan blant a phobl ifanc**

| Set ddata<br><br>(perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Astudiaeth Carfan y Mileniwm – Ysgubiad 7 (Coleg Prifysgol Llundain)** | A yw unigolyn ifanc wedi gwneud cynigion rhywiol digroeso i rywun. | Ddim ar gael yn gyhoeddus | Untro (2017/18)<br><br>Cyhoeddir Astudiaeth Carfan y Mileniwm bob tair blynedd, gan ddechrau yn y flwyddyn 2000. Fodd bynnag, mae'r cwestiynau'n amrywio ym mhob ysgubiad, gyda chwestiynau'n ymwneud â thrais wedi'u cynnwys gyntaf yn 2013/14. |
| **Astudiaeth Carfan y Mileniwm – Ysgubiad 6, 14 oed (Coleg Prifysgol Llundain)** | Pa mor aml mae unigolyn ifanc yn pigo ar ei frawd neu ei chwaer yn fwriadol, pa mor aml maen nhw'n brifo neu'n pigo ar blant eraill yn fwriadol. | Ddim ar gael yn gyhoeddus | Untro (2013/14) |
| **Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion)** | A yw'r unigolyn ifanc wedi bwlio plant eraill, boed wedi gwneud sylwadau niweidiol tuag at bartner, wedi gwthio partner, neu wedi dyrnu, cicio neu guro partner. | Ddim ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2017–2024) |
| **Plant, Trais a Bregusrwydd (Cronfa Waddol Ieuenctid)** | P'un a yw unigolyn ifanc wedi cyffwrdd â rhywun yn fwriadol mewn ffordd rywiol, fel cyffwrdd, gafael neu gusanu, heb eu cydsyniad (caniatâd). | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2022–2024) |

| Set ddata<br><br>(perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Arolwg o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru)** | Cyffredinrwydd profiad o gyflawni. | Mae rhywfaint o ddata ar gael i'r cyhoedd, ond ni ddarperir unrhyw wybodaeth ynghylch a oes modd cyrchu data mwy manwl. | Untro (2015 yn unig) |

**Agweddau ac addysg**

Nodwyd dwy set ddata i gynnwys dangosyddion yn ymwneud ag agweddau ac addysg plant a phobl ifanc ar VAWDASV. Dim ond un dangosydd o gasgliad data’r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion a ofynnodd i bobl ifanc am addysg cydberthynas mewn ysgolion, gan awgrymu bod bwlch sylweddol. Mae’r rhwydwaith hefyd yn arolygu pobl ifanc oedran ysgol gynradd (blynyddoedd 3–6), ond nid yw cwestiynau sy'n ymwneud â VAWDASV wedi'u cynnwys ar gyfer y grŵp oedran hwn. Gallai hyn rwystro'r gallu i fesur cynnydd yn erbyn dangosyddion y strategaeth VAWDASV sy'n gysylltiedig ag ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o gydberthnasau a’u hymwybyddiaeth o gam-drin.

**Tabl 10. Setiau data sy'n gysylltiedig ag agweddau ac addysg plant a phobl ifanc tuag at VAWDASV**

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Arolwg o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion)** | P'un a wnaethon nhw adrodd am ddigwyddiadau, p'un a ydyn nhw'n cael eu dysgu ble i fynd i gael cymorth os ydyn nhw'n profi trais mewn perthynas, ac a yw athrawon yn cymryd camau gweithredu pan fyddan nhw'n clywed iaith sy'n dramgwyddus yn rhywiol. | Ddim ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2017–2024) |
| **Astudiaeth Plant, Trais a Bregusrwydd (Cronfa Waddol Ieuenctid)** | Pa mor bryderus yw'r unigolyn ifanc ynglŷn â bod yn ddioddefwr trais gan bobl ifanc eraill. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2022–2024) |
| **Arolwg o gamdriniaeth ymysg cyfoedion mewn colegau yng Nghymru (DECIPHer)** | Ymwybyddiaeth o gymorth gan golegau ar gyfer y profiad o gamdriniaeth ymysg cyfoedion. | Ar gael yn gyhoeddus | Untro (2023) |
| **Arolwg HAPPEN (Prifysgol Abertawe)** | Canran y bobl ifanc sy'n teimlo'n ddiogel yn yr ysgol neu wrth chwarae yn eu hardal. | Mae rhywfaint o ddata ar gael i'r cyhoedd, ond mae angen i ymchwilwyr wneud cais am ddata mwy manwl. | Bob blwyddyn (2021/22 – 2023/24). Cynhwyswyd cwestiynau sy'n ymwneud â VAWDASV gyntaf yn 2021/22. |

## Canfyddiadau o gyfweliadau â rhanddeiliaid

Nododd rhanddeiliaid gryfderau a heriau yn y dirwedd data sy'n gysylltiedig ag anghenion plant a phobl ifanc. Cafodd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ei grybwyll fel cryfder allweddol gan sawl rhanddeiliad, yn seiliedig ar gadernid a graddfa'r arolwg, a oedd yn cwmpasu 90% o ysgolion a 75% o blant a phobl ifanc yng Nghymru. Gellir cysylltu'r rhwydwaith â setiau data gweinyddol eraill drwy Gyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL). Fodd bynnag, oherwydd bod SAIL yn canolbwyntio'n ehangach, dim ond nifer gyfyngedig o gwestiynau sy'n ymwneud â VAWDASV ac nid ydynt wedi'u cynnwys ym mhob ton. Nododd rhanddeiliad arall y gall hyd yn oed datblygu cwestiynau i fesur nifer yr achosion ymhlith pobl ifanc fod yn heriol, oherwydd efallai na fyddant yn gallu deall profiadau o fynd ar ddêt, trais neu gam-drin yn llawn, gan ei gwneud yn heriol cymharu data.

Felly, roedd rhanddeiliaid, ar y cyfan, o'r farn y gellid cryfhau'r broses o gasglu data mewn ysgolion, a chan blant a phobl ifanc. Nododd rhanddeiliaid nad yw nifer yr achosion o drais ymhlith pobl ifanc yn aml yn cael ei chofnodi'n fanwl gywir. Er enghraifft, dim ond pobl 16 oed a hŷn sy'n cael eu cynnwys yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, sy'n golygu nad oes mesur cenedlaethol dibynadwy o gyffredinrwydd cam-drin neu drais ymhlith unigolion dan 16 oed. Mae hyn yn cael ei waethygu ymhellach gan y diffiniad cyfreithiol o gam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr, sy'n eithrio unigolion o dan 16 oed, hyd yn oed os ydynt yn arddangos yr un ymddygiadau ag oedolion. Mae'r Swyddfa Gartref yn archwilio cynlluniau i adolygu Deddf Cam-drin Domestig 2021 i ystyried gostwng yr oedran i gynnwys pobl ifanc dan 16 oed, os ydyn nhw'n profi cam-drin domestig fel rhan o gydberthnasau rhwng pobl ifanc yn eu harddegau.

Y tu hwnt i fesurau o gyffredinrwydd, nododd ychydig o randdeiliaid fod ymdrechion casglu data presennol mewn ysgolion yn fan cychwyn da, gydag un rhanddeiliad yn sôn am y gwaith sy'n mynd rhagddo sy'n gysylltiedig ag ysgogwyr amrywiad o ran adrodd mewn ysgolion (e.e. presenoldeb swyddogion diogelu neu fesurau ataliol eraill). Soniodd un arall fod llawer o ysgolion yn cofnodi honiadau o drais rhywiol, hyd yn oed pan nad yw'r honiadau hynny'n arwain at yr heddlu. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n rheolaidd ag awdurdodau lleol na chyrff mwy eraill mwyach. Ni ddarparodd rhanddeiliaid y rhesymau dros y newid hwn.

Yn olaf, ychwanegodd rhai rhanddeiliaid y gallai casglu data yn ymwneud ag atal ac adnabod niwed yn gynnar, yn enwedig o ran profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ymhlith pobl ifanc, helpu i wella'r broses o gyflenwi gwasanaethau.

## Asesu ansawdd

Y sgôr ansawdd gyfartalog ar gyfer data a nodwyd ar anghenion plant a phobl ifanc oedd 9.1. Un gwendid penodol yn y data oedd amseroldeb, gyda nifer o ddangosyddion perthnasol yn cael eu cyhoeddi ar sail untro neu anghyson, gan gyfyngu ar y gallu i gynnal dadansoddiad hydredol a deall cyffredinrwydd a thueddiadau dros amser. Un o gryfderau allweddol y data oedd ei ddibynadwyedd neu ei hygrededd, gyda llawer o'r data yn dod gan sefydliadau ag enw da, gyda gwybodaeth ar gael yn rhwydd am eu prosesau sicrhau ansawdd ac unrhyw gyfyngiadau allweddol ar y data.

## Llais y goroeswr

Nodwyd nifer gyfyngedig o setiau data a oedd yn ymwneud yn benodol â llais y goroeswr. I ryw raddau, mae llais y goroeswr yn bresennol yn yr holl ddata lle mae goroeswyr a dioddefwyr yn adrodd ar eu profiadau, ac felly mae wedi'i fanylu drwy gydol yr adroddiad hwn. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar (i) arolwg lle mae goroeswyr yn adrodd ar ddioddef trais neu gam-drin, a (ii) agweddau ynghylch VAWDASV gan oroeswyr a'r cyhoedd yn gyffredinol.

### Cyffredinrwydd ac adrodd

Roedd dwy set ddata a nodwyd yn cynnwys dangosyddion lle'r oedd goroeswyr yn hunan-adrodd am ddioddef trais. Nid yw'r adran hon yn cynnwys data gweinyddol na data defnydd gwasanaeth (a ddisgrifir yn fanwl yn y bennod “Comisiynu cynaliadwy”). Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn darparu amcangyfrifon o'r profiad o gam-drin domestig ac ymosodiad, ond nid yw dadgyfuniadau pellach (e.e. yn ôl oedran neu ethnigrwydd) ar gael yn gyhoeddus ar gyfer Cymru.

Nodwyd bod y casgliad o ddata croestoriadol a chadarn sy'n cofnodi profiad grwpiau lleiafrifiedig, pobl anabl, ac unigolion o'r gymuned LHDTC+ yn wendid allweddol. Er bod modd dadgyfuno rhai setiau data yn ôl rhywedd, yn anaml y gellid dadgrynhoi data sy’n benodol i Gymru yn ôl nodweddion demograffig lluosog (e.e. rhywedd a statws anabledd). Ni nodwyd unrhyw arolygon na mesurau hunan-adrodd wedi'u targedu'n benodol at gymunedau lleiafrifiedig, y gymuned LHDTC+, na phobl anabl ar y cam hwn yn yr adolygiad. Ymhellach, soniodd rhai rhanddeiliaid hefyd, hyd yn oed o fewn data gweinyddol neu ddata defnydd gwasanaethau, nad yw nodweddion demograffig yn aml yn cael eu cofnodi'n gyson nac yn gywir, gan gyfyngu ar allu gwasanaethau i amcangyfrif anghenion o gymunedau amrywiol.

**Tabl 11. Data ar adrodd a chyffredinrwydd goroeswyr**

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (Swyddfa Ystadegau Gwladol)** | Menywod sy'n 16 oed a hŷn sydd wedi profi unrhyw achos o gam-drin domestig, neu gam-drin gan bartner, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.<br><br>Profiad o gam-drin domestig yn ôl cenedligrwydd (DU yn erbyn UE).<br><br>Menywod a brofodd unrhyw ymosodiad rhywiol (gan gynnwys ymgeisiau) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. | Mae rhywfaint o ddata ar gael i'r cyhoedd, ond mae angen i ymchwilwyr wneud cais am ddata mwy manwl. | Bob blwyddyn (2019/20 – 2023/24)<br><br>Nid yw dadansoddiadau Cymru'n cael eu cyhoeddi bob blwyddyn fel mater o drefn, ac mae rhywfaint o ddata cyhoeddus yn seiliedig ar geisiadau penodol gan ddefnyddwyr. |
| **Arolwg o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru)** | Pa mor gyffredin yw profiad o gam-drin geiriol neu gorfforol, trais domestig, neu gam-drin rhywiol. | Mae rhywfaint o ddata ar gael i'r cyhoedd, ond ni ddarperir unrhyw wybodaeth ynghylch a oes modd cyrchu data mwy manwl. | Untro (2015 yn unig) |

**Agweddau a barn**

Roedd tair set ddata a nodwyd yn cynnwys dangosyddion ar agweddau a barn tuag at VAWDASV, ymhlith goroeswyr a'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau ynghylch a fyddai goroeswyr yn adrodd i'r heddlu neu drwy sianeli swyddogol eraill, a ffactorau sy'n achosi peidio â datgelu trais neu gam-drin. Nododd un arolwg gan End Violence Against Women a oedd unigolion o'r cyhoedd yn teimlo bod y llywodraeth yn gwneud digon i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched. Mae End Violence

Against Women yn glymblaid o sefydliadau ledled y DU sy'n gweithio i ddod â thrais yn erbyn menywod a merched i ben a gwella cydraddoldeb rhywedd.

Er bod yr arolygon a nodwyd yn rhoi cipolwg diddorol ar agweddau a barn ynghylch VAWDASV, ni chafodd yr un ohonynt eu lledaenu'n rheolaidd, gyda llawer ohonynt yn brosiectau ymchwil untro. Felly, mae data sy'n olrhain barn ac agweddau goroeswyr a'r cyhoedd dros amser yn fwlch allweddol.

**Tabl 12. Data ar agweddau a barn**

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Arolwg o gamdriniaeth ymysg cyfoedion mewn colegau yng Nghymru (DECIPHer)** | I bwy y byddai dysgwyr sy'n profi camdriniaeth ymysg cyfoedion yn adrodd, y dull a wnaethant ddefnyddio i adrodd neu drafod, a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar beidio â datgelu profiad. | Ar gael yn gyhoeddus | Untro (2023) |
| **Arolwg End Violence Against Women (End Violence Against Women / YouGov)** | A yw'r llywodraeth yn gwneud digon i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched. | Ar gael yn gyhoeddus | Untro (2024–2025) |

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Arolwg Refuge (Refuge/YouGov)** | A fyddai unigolion yn rhoi gwybod i'r heddlu a pham neu pam lai. Ymddiriedaeth yn yr heddlu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â VAWDASV.<br><br>A yw ymddiriedaeth yn yr heddlu wedi lleihau a pham, ac a yw'r heddlu wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â VAWDASV. | Ar gael yn gyhoeddus | Amlder anhysbys (2021–2025) |

**Mewnwelediadau o gyfweliadau â rhanddeiliaid**

Roedd tan-adrodd yn fater allweddol sy'n gysylltiedig â llais y goroeswr a godwyd gan randdeiliaid. Nododd ychydig o randdeiliaid fod tan-adrodd yn arbennig o gyffredin mewn data heddlu a data eraill gan wasanaethau statudol. Nododd un rhanddeiliad sy'n gweithio yn y sector cyfiawnder troseddol fod y mwyaf o'r goroeswyr sy'n cysylltu â'r heddlu eisoes yn ddioddefwyr dro ar ôl tro, a dim ond pan fydd sefyllfa'n dod yn fwy risg uchel y byddant yn adrodd. Ymddengys fod hyn yn seiliedig ar ddiffyg hyder yng nghefnogaeth yr heddlu, bod ymddygiad cam-drin cynnil neu reolaeth drwy orfodaeth yn anos ei hadnabod yn gynnar, a'r gred gan oroeswyr y gallant ddatrys y mater eu hunain.

Nododd un cyfwelai fod troseddau fel cam-drin domestig, trais rhywiol, a mathau eraill o VAWDASV yn aml yn bersonol ac yn sensitif iawn, gan wneud unigolion yn llai tebygol o adrodd. Gwnaethant bwysleisio nad dim ond gweithred gyfreithiol neu weithdrefnol yw adrodd i lawer o bobl, yn enwedig goroeswyr; mae'n gymhleth yn emosiynol, a rhaid meithrin ymddiriedaeth yn ofalus cyn iddynt deimlo'n ddiogel i ymgysylltu.

Nododd cyfwelai arall fod tan-adrodd hefyd yn fwy cyffredin ymhlith grwpiau lleiafrifiedig a phoblogaethau agored i niwed eraill, oherwydd tan-adrodd a rhwystrau systemig. Er na wnaethant gyfeirio at broffiliau nac ystadegau penodol, nodwyd bod bylchau hysbys o ran ymgysylltu â chymunedau penodol. Gall y rhain gynnwys grwpiau nad ydynt yn ymddiried yn yr heddlu yn hanesyddol neu gymunedau sy'n anos eu cyrraedd, naill ai'n ddaearyddol neu'n gymdeithasol. Mae hyn yn arwain at fwlch sylweddol yn y ddealltwriaeth o bwy sy'n profi pa fathau o gam-drin, ym mhle mae cymorth yn cael ei geisio, a sut mae'r patrymau

hyn yn amrywio ar draws gwahanol grwpiau. Mae diffyg data croestoriadol manwl yn ei gwneud yn anodd cael darlun clir o anghenion ac ymatebion, gan gyfyngu ar ba mor effeithiol yw strategaethau cymorth ac ymyrraeth.

**Asesu ansawdd**

Y sgôr ansawdd gyfartalog ar gyfer setiau data a nodwyd ar lais y goroeswr oedd 8.4. Roedd cryfderau'r setiau data ar lais y goroeswr yn gysylltiedig â strwythur a fformat, a'u perthnasedd, gyda sawl dangosydd wedi'u nodi fel rhai sy'n berthnasol yn benodol i VAWDASV (yn hytrach na chanolbwyntio ar bynciau ehangach). Cofnodwyd y mwyaf o’r setiau data hefyd gan ddefnyddio Microsoft Excel neu offeryn cofnodi data penodol. Roedd gwendidau data a nodwyd ar lais y goroeswr yn ymwneud ag amseroldeb a chysondeb, gyda llawer o ddangosyddion yn cael eu cofnodi'n wahanol ar draws ardaloedd neu heb eu diweddaru'n rheolaidd, gan gyfyngu ar ba mor ddibynadwy ydynt a'u gallu i gymharu data dros amser.

## Themâu ychwanegol

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu setiau data ychwanegol a nodwyd mewn perthynas ag (i) cam-drin ar sail anrhydedd, anffurfio organau cenhedlu benywod, a phriodas dan orfod, a (ii) niwed ar-lein. Nodwyd setiau data drwy'r adolygiad o fewn y categorïau hyn, ond nid ydynt yn cael eu cwmpasu o fewn unrhyw un o ffrydiau gwaith y glasbrint.

**Cam-drin ar sail anrhydedd, anffurfio organau cenhedlu benywod, a phriodas dan orfod**

Nodwyd tair set ddata â dangosyddion yn ymwneud â cham-drin ar sail anrhydedd, anffurfio organau cenhedlu benywod, a phriodas dan orfod. Daeth dwy o'r tair set ddata o'r Swyddfa Gartref, ynghylch troseddau a gofnodwyd fel rhai sy'n gysylltiedig â cham-drin ar sail anrhydedd ac achosion lle rhoddodd yr Uned Priodasau dan Orfod gyngor, yn y drefn honno. Mae'r Uned Priodasau dan Orfod yn gyd-uned rhwng y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu a'r Swyddfa Gartref sy'n llywio polisïau a gwaith achosion yn ymwneud â phriodasau dan orfod y llywodraeth. Er bod y setiau data hyn yn darparu amcangyfrifon penodol ar gyfer Cymru, roedd y samplau'n aml yn rhy fach, ac felly ni chawsant eu cyhoeddi na’u gwneud ar gael i'r cyhoedd. Hefyd, dim ond dadgyfyngiadau cyfyngedig oedd ar gyfer carfannau demograffig eraill. Mae Cyngor ar Bopeth hefyd yn cyhoeddi ystadegau am nifer y galwyr sy'n ceisio cyngor ar anffurfio organau cenhedlu benywod, trais sy'n ymwneud â chywilydd a gwarth, a phriodas dan orfod. Yn nodedig, nid oedd unrhyw ddata o leoliadau gofal iechyd na gwasanaethau arbenigol a nodwyd yn yr adolygiad yn cynnwys dangosyddion sy'n berthnasol i anffurfio organau cenhedlu benywod, cam-drin ar sail anrhydedd, na phriodas dan orfod.

Soniodd dau randdeiliad yn benodol am anffurfio organau cenhedlu benywod, cam-drin ar sail anrhydedd, neu briodas dan orfod, gydag un yn ei nodi fel bwlch allweddol. Ychwanegodd rhanddeiliad arall, er bod anffurfio organau cenhedlu benywod yn cael ei ystyried yn broblem fawr ledled y DU, bod diffyg data sy’n benodol i Gymru. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd asesu maint y broblem yn lleol, gyda rhanddeiliaid yn nodi nad yw anffurfio organau cenhedlu benywod mor gyffredin yng Nghymru ag y mae yn Lloegr.

**Tabl 12. Data ar gam-drin ar sail anrhydedd, anffurfio organau cenhedlu benywod, a phriodas dan orfod**

| Set ddata (perchennog y data) | Newidyn(nau) allweddol | Argaeledd | Amlder dangosyddion sy'n gysylltiedig â VAWDASV (y dyddiadau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|
| **Tueddiadau Cyngor ar Bopeth (Cyngor ar Bopeth)** | Nifer y bobl sy'n ceisio cyngor ar anffurfio organau cenhedlu benywod, nifer y bobl sy'n ceisio cyngor ar drais a cham-drin sy'n ymwneud â chywilydd a gwarth, nifer y bobl sy'n ceisio cyngor ar briodas dan orfod. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob chwarter (2016–2025) |
| **Ystadegau ar gam-drin ar sail anrhydedd a gofnodwyd gan yr heddlu (Swyddfa Gartref)** | Nifer y troseddau a'r digwyddiadau sy'n ymwneud â cham-drin ar sail anrhydedd. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2019–2024) |
| **Ystadegau'r Uned Priodasau dan Orfod (Swyddfa Gartref)** | Nifer yr achosion lle rhoddodd yr Uned Priodasau dan Orfod gyngor neu gymorth, nifer yr achosion yn ymwneud â phryderon ynghylch galluedd meddyliol lle rhoddodd yr uned gymorth, a nifer yr achosion sy'n gysylltiedig ag Affganistan a Phacistan. | Ar gael yn gyhoeddus | Bob blwyddyn (2012–2024) |


# 4. Canfyddiadau o'r alwad am dystiolaeth

Yn ogystal â gofyn i randdeiliaid am wybodaeth am setiau data penodol nad ydynt yn y parth cyhoeddus, roedd yr alwad am dystiolaeth hefyd yn cynnwys cwestiynau mwy cyffredinol am dirwedd data VAWDASV yng Nghymru. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r prif ganfyddiadau o'r cwestiynau hyn.

## Heriau a phroblemau sy'n gysylltiedig â gweithio gyda data VAWDASV

Gofynnwyd i randdeiliaid pa heriau a wynebwyd wrth weithio gyda data VAWDASV yn y gorffennol.

**Ffigur 1. Heriau a wynebir wrth weithio gyda data VAWDASV**




Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth gan Alma Economics (N=26).


Noder: Gallai ymatebwyr ddewis sawl ateb, felly bydd y cyfansymiau'n fwy na 26.

Yr heriau y soniwyd amdanynt amlaf oedd casglu data anghyson neu anghyflawn (N=20) a diffyg data sy'n benodol i Gymru (N=19). Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â'r safbwyntiau a rannwyd drwy'r cyfweliadau cwmpasu, lle nododd rhanddeiliaid y materion hyn fel rhwystrau mawr yn y sector. Nododd mwyafrif yr ymatebwyr hefyd heriau yn gysylltiedig â rhannu data cyfyngedig rhwng sefydliadau (N=18), bylchau mewn rhai grwpiau demograffig (N=17), a diffyg metrigau perfformiad er mwyn gwerthuso effaith gwasanaethau (N=14). Dewisodd y mwyaf o'r rhanddeiliaid a gwblhaodd yr alwad am dystiolaeth sawl opsiwn, gyda dim ond un rhanddeiliad yn nodi nad oeddent wedi profi unrhyw un o'r problemau hyn, gan awgrymu bod heriau'n aml yn gysylltiedig â'i gilydd, ac mae'r mwyaf o'r sefydliadau'n wynebu sawl her wrth weithio gyda data VAWDASV.

## Effeithiolrwydd data VAWDASV

Gofynnwyd i randdeiliaid hefyd am ba mor effeithiol yw data yn ymwneud â VAWDASV.

**Ffigur 2. Pa mor effeithiol yw data VAWDASV**




Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth gan Alma Economics (N=26).


Roedd mwyafrif llethol o randdeiliaid o'r farn fod data VAWDASV yn aneffeithiol, gyda 15 yn ymateb eu bod yn aneffeithiol i raddau, a chwe ymatebydd yn ateb eu bod yn aneffeithiol iawn. Nid oedd yr un o'r 26 ymatebydd o'r farn bod y data yn “effeithiol iawn” neu'n “ddim yn effeithiol nac yn aneffeithiol”, er bod pump o'r farn eu bod yn effeithiol i raddau. Pan ofynnwyd iddynt ddarparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch pam eu bod yn credu bod y data yn effeithiol neu'n aneffeithiol, tynnodd sawl rhanddeiliad sylw at natur dameidiog y dirwedd data, gan ei gwneud yn anodd deall cysylltiadau rhwng systemau a sefydliadau, pa sectorau sy'n cael eu heffeithio arnynt fwyaf, a chanlyniadau hirdymor o ran dioddefwyr a throseddwyr. Mae hyn hefyd yn ei gwneud yn anodd deall pan fydd dioddefwyr wedi defnyddio nifer o wasanaethau. Nododd y rheini a ymatebodd i’r alwad am dystiolaeth fod hyn yn cael ei yrru gan systemau technegol anghydnaws a heriau logistaidd a moesegol mewn sefydliadau sy'n rhannu gwybodaeth gyfrinachol a sensitif iawn.

Roedd rhanddeiliaid hefyd o'r farn bod aneffeithiolrwydd data yn ymwneud â VAWDASV yn cael ei yrru gan gyfyngiadau hysbys mewn data plismona a throseddu – y brif ffynhonnell ddata ar gyffredinrwydd VAWDASV yng Nghymru. Nid yw'r data hyn yn darparu gwybodaeth am raddfa lawn VAWDASV, ond yn cofnodi'r hyn a adroddir i'r heddlu yn unig. Tynnodd un rhanddeiliad sylw hefyd at newidiadau a wnaed o dan “Reol y Brif Drosedd”, sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r heddlu gofnodi’r drosedd fwyaf difrifol yn unig pan adroddir am droseddau lluosog. Gwelwyd bod hyn yn cyfyngu ymhellach ar ba mor effeithiol yw data plismona. O ganlyniad, efallai na fydd troseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn cael eu cofnodi, hyd yn oed os cânt eu hadrodd i'r heddlu. Yn olaf, soniodd sawl rhanddeiliad hefyd am y diffyg amcangyfrifon sy'n benodol i Gymru fel cyfyngiad allweddol o ran effeithiolrwydd y data.

### Amlder rhyddhau data VAWDASV

Oherwydd bod diweddariadau rheolaidd ac amserol o'r data wedi'u nodi fel cyfyngiad allweddol, gofynnwyd i randdeiliaid hefyd am ffactorau sy'n cyfyngu ar eu gallu i ddiweddaru'r data sydd ganddynt yn amlach.

**Ffigur 3. Ffactorau sy'n cyfyngu ar amlder diweddariadau i setiau data sy'n gysylltiedig â VAWDASV**




Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth gan Alma Economics (N=27).

Noder: Gallai ymatebwyr ddewis sawl ateb, sy'n golygu na fydd y cyfansymiau'n hafal i 100%.

Y ffactor a nodwyd amlaf a oedd yn dylanwadu ar amlder diweddariadau i ddata sy'n gysylltiedig â VAWDASV oedd prosesau rhannu neu ddatgelu data, gan wneud diweddariadau rheolaidd yn anos (N=15). Mae hyn yn gyson ag ymatebion eraill i'r alwad am dystiolaeth a meysydd eraill o'r ymchwil, a oedd hefyd yn tynnu sylw at heriau o ran rhannu data. Fodd bynnag, nodwyd yn gyffredin hefyd ddiffyg cyllid i ddiweddaru data yn rheolaidd (N=12) a data yn cael eu cysylltu â set ddata neu ystadegyn gweinyddol (N=12).

Nododd rhanddeiliaid eraill broblemau gyda chapasiti o fewn sefydliadau bach, gan gyfyngu ar eu gallu i gyfrannu at ddiweddariadau mynych, a diffyg gallu i ddatgelu neu gofnodi ymddygiadau perthnasol yn ehangach.

## 5. Dadansoddiad o’r bylchau

Yn ein canfyddiadau yn ôl ffrwd waith y glasbrint, rydym yn trafod ble mae bylchau allweddol yn bodoli o fewn pob ffrwd waith a pha ffrydiau gwaith sydd ag argaeledd data cyfyngedig iawn. Mae'r bennod hon yn trafod bylchau mewn perthynas â'r dangosyddion cenedlaethol, gan roi cipolwg ar ba ganlyniadau sydd â data cyfyngedig ar gyfer gwerthuso neu i feincnodi cynnydd. Mae hyn yn defnyddio’n canfyddiadau o'r alwad am dystiolaeth, yr adolygiad systematig o ddata, cyfweliadau â rhanddeiliaid, ac ymgysylltiadau â'r gweithgor, ac yn darparu sgôr coch, melyn, gwyrdd ar gyfer pob dangosydd. Mae statws coch yn dangos bod data cyfyngedig iawn ar gael gyda nifer uchel o fylchau, mae sgôr melyn yn

dangos bod lefel gymedrol o ddata ar gael gyda rhai bylchau, ac mae sgôr gwyrdd yn dangos bod lefel dda ar gael, gydag ychydig o fylchau. Mae'r sgoriau coch, melyn, gwyrdd yn cael eu neilltuo i'r dangosyddion, gan ystyried y dirwedd data ehangach. Er enghraifft, er bod sgôr gwyrdd yn dangos bod lefel dda o ddata ar gael o ystyried y dirwedd ehangach, nid yw hyn yn awgrymu bod y dangosydd hwn wedi'i gwmpasu'n llawn.

## AMCAN 1: Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau at VAWDASV ar draws poblogaeth Cymru

**Sgôr melyn** - Cynyddu nifer yr achosion y rhoddir gwybod amdanynt ar gyfer pob math o VAWDASV.

**Sgôr coch** - Cynyddu ymwybyddiaeth ar draws pob rhan o'r gymdeithas fod VAWDASV yn annerbyniol.

O ran adrodd am VAWDASV, roedd tua hanner yr ymatebwyr (44%) i'r alwad am dystiolaeth yn teimlo bod data sy'n gysylltiedig â'r canlyniad hwn yn gyfyngedig. Nododd ein hadolygiad systematig fod data cadarn wedi'u cyhoeddi ar lefel yr heddlu ar ddigwyddiadau o gam-drin domestig, rheolaeth drwy orfodaeth, a thrais rhywiol. Fodd bynnag, mae'n debyg bod y data hyn wedi'u hystumio gan y ffaith bod rhai grwpiau'n llai tebygol o roi gwybod i'r heddlu, ac efallai nad yw'r heddluoedd yn cofnodi'n llawn yr holl achosion a adroddir yn seiliedig ar Reol y Brif Drosedd. Felly, gellir cofnodi adrodd yn fwy cyflawn trwy ddefnyddio data'r heddlu ar y cyd â data gan wasanaethau arbenigol (megis Cymorth i Ferched Cymru, Lloches, neu Gyngor ar Bopeth).

O ran ymwybyddiaeth gymdeithasol bod VAWDASV yn anghywir, roedd 78% o'r ymatebwyr yn teimlo bod data yn ymwneud â'r canlyniad hwn yn gyfyngedig. Yn wir, nododd ein hadolygiad nifer gyfyngedig o setiau data sy'n ymdrin ag ymwybyddiaeth gymdeithasol. Nid oedd y rhai a nodwyd gennym – er enghraifft, yr arolwg End Violence Against Women a'r arolwg Refuge – yn cael eu rhyddhau yn rheolaidd, ac roeddent yn gofyn cwestiynau yn ymwneud ag ymddiriedaeth yn yr heddlu a theimladau tuag atynt, ac a yw menywod yn gyfrifol am gadw eu hunain yn ddiogel, yn hytrach na gofyn yn benodol a yw VAWDASV yn anghywir.

## AMCAN 2: Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach a bod ymddygiad camdriniol bob amser yn anghywir

**Sgôr coch** - Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach.

**Sgôr coch** - Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc fod cam-drin yn anghywir bob amser.

Roedd dros hanner (63%) o'r rheini a atebodd yr alwad am dystiolaeth o'r farn bod data cyfyngedig ar wybodaeth plant a phobl ifanc am gydberthnasau diogel, cyfartal ac iach ac ar ddealltwriaeth bod cam-drin bob amser yn anghywir. Er bod ein hadolygiad o ddata wedi nodi sawl set ddata yn ymwneud â chyffredinrwydd cyflawni neu ddioddef trais ymhlith plant

a phobl ifanc, roedd llawer llai o ddata yn ymwneud ag agweddau a barn. Ymhellach, mae llawer o'r cwestiynau hyn (e.e. y rhai yng nghasgliad data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion neu'r astudiaeth Plant, Trais a Bregusrwydd) yn ymwneud â phrofiad plant a phobl ifanc o addysg cydberthynas a rhywioldeb (sy'n ceisio rhoi dealltwriaeth gadarnhaol i ddysgwyr o gydberthnasau a rhywioldeb, ac offer i adnabod camsyniadau) neu eu teimladau o ddiogelwch, yn hytrach na gofyn yn benodol am eu hymwybyddiaeth fel y'i mynegir yn y dangosyddion.

### AMCAN 3: Cynyddu pwyslais ar ddwyn troseddwyr i gyfrif a darparu cyfleoedd i newid eu hymddygiad yn seiliedig ar ddiogelwch dioddefwyr

**Sgôr gwyrdd** - Sicrhau bod mwy o achosion sy'n gysylltiedig â VAWDASV yn arwain at arestiadau, erlyniadau ac euogfarnau.

**Sgôr coch** - Sicrhau bod ymyrraeth briodol ar gael i'r rhai sy'n cyflawni troseddau.

Roedd ychydig dros un o bob tri (37%) o'r ymatebwyr i'r alwad am dystiolaeth o'r farn bod data cyfyngedig ar ganlyniadau cyfreithiol ar gyfer digwyddiadau sy'n gysylltiedig â VAWDASV. Nododd ein hadolygiad ddata da ar y gyfradd o arestiadau ar gyfer troseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig ar lefel ardal heddlu, canlyniadau a neilltuwyd i droseddau a nodwyd fel cam-drin domestig yn ôl ardal heddlu, ac erlyniadau ac euogfarnau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron hefyd yn cyhoeddi data cyn cyhuddo a chanlyniadau erlyn yn ôl ardal ar gyfer cam-drin domestig, treisio, troseddau rhywiol, a cham-drin plant.

Mewn cyferbyniad, roedd 52% o'r ymatebwyr i'r alwad am dystiolaeth o'r farn bod data cyfyngedig ar gyffredinrwydd rhaglenni ymyrraeth ar gyfer cyflawnwyr troseddau. Er gwnaethom nodi rhai data yn ymwneud ag argaeledd rhaglenni ymyrraeth ar gyfer gyflawnwyr troseddau gan Respect a Cranstoun, yn ogystal â data ar ffynonellau atgyfeiriadau i Gynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg gan SafeLives, ni nodwyd unrhyw ddata ar brif ganlyniadau'r rhaglenni ymyrraeth. Mae angen data ychwanegol ar aildroseddu neu gyflawni troseddau dro ar ôl tro, yn ogystal ag agweddau a barn troseddwyr, er mwyn deall pa mor effeithiol yw'r rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

### AMCAN 4: Gwneud ymyrraeth gynnar ac atal yn flaenoriaeth

**Sgôr coch** - Sicrhau bod ymyrraeth gynnar effeithiol ar sail tystiolaeth ar gael i ddioddefwyr a goroeswyr sy'n gyfartal i bawb, a'u bod yn gallu manteisio'n gyfartal ar y ddarpariaeth.

Roedd dros hanner (56%) yr ymatebwyr i'r alwad am dystiolaeth o'r farn bod data cyfyngedig ar argaeledd gwasanaethau ymyrraeth gynnar. Hefyd, nododd ein hadolygiad nifer gyfyngedig o ffynonellau ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth gynnar yn unig, gan gynnwys data ar Gynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg yn ôl ardal heddlu. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r ffynonellau data ar ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer achosion risg uwch o VAWDASV. Y tu hwnt i ddiffyg data ar gyffredinrwydd gwasanaethau, nodwyd ychydig iawn o ddata, os unrhyw ddata o gwbl, ar effeithiolrwydd gwasanaethau ymyrraeth gynnar.

## AMCAN 5: Mae proffesiynau perthnasol wedi'u hyfforddi i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr

**Sgôr coch** - Mae’r rhai mewn swyddi perthnasol yn cael hyfforddiant i adnabod achosion o VAWDASV ac ymateb yn briodol iddynt.

Roedd tua dau o bob pump (41%) o'r ymatebwyr i'r alwad am dystiolaeth o'r farn bod data cyfyngedig ar gyfran y gweithwyr proffesiynol a hyfforddwyd i ymateb i VAWDASV. Er bod llai o’r rheini a ymatebodd i’r alwad am dystiolaeth wedi tynnu sylw at hyn, dim ond un set ddata a nodwyd gennym a oedd yn gysylltiedig yn benodol â hyfforddi gweithwyr proffesiynol. Yn benodol, roedd hyn yn cynnwys data arolwg o astudiaeth ledled Cymru a Lloegr o “Gofyn a Dweud”, a oedd (ymysg pethau eraill) yn holi gweithwyr proffesiynol mewn meddygfeydd teulu ac ysbytai ynghylch a oeddent wedi cael hyfforddiant penodol ar adnabod cam-drin domestig. Mae hyn yn dangos y gellid cryfhau'r broses o gasglu data ynghylch hyfforddiant a sgiliau ymarferwyr yn sylweddol.

## AMCAN 6: Darparu mynediad cyfartal i bob dioddefwr at wasanaethau croestoriadol ac ymatebol o ansawdd uchel ledled Cymru sydd ag adnoddau priodol ac sy'n gweithredu ar sail anghenion a chryfderau

**Sgôr gwyrdd** - Sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth priodol.

**Sgôr melyn** - Cynyddu hyder dioddefwyr a mynediad i gyfiawnder.

Roedd traean (33%) o'r ymatebwyr i'r alwad am dystiolaeth o'r farn bod swm cyfyngedig o ddata ar fynediad dioddefwyr at wasanaethau cymorth. Roedd ein hadolygiad o'r dirwedd data, yn fras, yn unol â'r canfyddiadau hyn, gyda sawl set ddata wedi'u nodi ar gymorth i ddioddefwyr gan Cymorth i Ferched Cymru, SafeLives, Respect, Mankind a Llwybrau Newydd. Hefyd, casglodd rhai gwasanaethau arbenigol ddata demograffig a chroestoriadol ar ddioddefwyr a oedd yn defnyddio gwasanaethau, gan gynnwys y math o gam-drin a brofwyd, y math o berthynas â'u partner, ethnigrwydd, rhywedd, a statws anabledd. Er bod y gweithgarwch casglu data yn y maes hwn yn addawol, nododd sawl rhanddeiliad fod gwasanaethau llai yn cael trafferth gyda chapasiti pwrpasol i gasglu data ar adegau rheolaidd, sy'n golygu nad yw pob gwasanaeth yn cael ei gynrychioli yn y data bob blwyddyn.

Teimlai cyfran fwy o ymatebwyr fod data cyfyngedig ar ymgysylltiad dioddefwyr â'r system gyfiawnder, gyda 59% o’r rheini a ymatebodd i’r alwad am dystiolaeth yn ateb bod data cyfyngedig ar ymddiriedaeth dioddefwyr yn y broses farnwrol, a 52% o ymatebwyr yn teimlo bod data cyfyngedig ar ymgysylltiad dioddefwyr â'r broses farnwrol. Yn wir, er y gwnaethom ganfod rhai data ar agweddau cyffredinol tuag at yr heddlu, neu ymateb y llywodraeth i VAWDASV, ni chanfuom unrhyw ffynonellau data ar ymddiriedaeth dioddefwyr yn y system gyfiawnder yn benodol. Roedd rhai data ar ymgysylltiad dioddefwyr â'r system gyfiawnder, gan gynnwys data ar ganlyniadau cyn cyhuddo ac erlyn ar gyfer troseddau sy'n gysylltiedig â VAWDASV, yn ogystal â data ar ganlyniadau ar gyfer troseddau a nodwyd fel achosion o dreisio gan Wasanaeth Erlyn y Goron.

### Bylchau eraill

Yn ogystal â bylchau yn ymwneud â'r dangosyddion cenedlaethol, tynnodd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru sylw hefyd at y ffaith bod bylchau yn gysylltiedig â data a gasglwyd gan awdurdodau penodol, yn enwedig ysgolion a byrddau iechyd. Er bod y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau perthnasol i gasglu data sy'n ymwneud â VAWDASV, nododd ein hadolygiad dystiolaeth gyfyngedig o'r sectorau hyn. Mae'n parhau i fod yn aneglur a yw hyn yn adlewyrchu diffyg gweithgarwch casglu data neu ymgysylltu cyfyngedig gan randdeiliaid perthnasol yn yr ymchwil hon.

## 6. Casgliadau ac argymhellion

### Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Mae'r adolygiad hwn yn archwilio tirwedd data VAWDASV yng Nghymru.Er bod yr adolygiad wedi tynnu sylw at enghreifftiau o arferion da sy'n gysylltiedig â chasglu data a setiau data gwerthfawr, mae wedi dangos bod y dirwedd data gyffredinol yn dameidiog, yn anghyson, ac yn annigonol o gadarn er mwyn cefnogi ymateb cwbl wybodus, teg a strategol i VAWDASV yng Nghymru. Mae hyn yn arwain at oblygiadau sylweddol ar gyfer cynllunio, comisiynu ac atal, yn ogystal â darparu gwasanaethau cymorth a chyfiawnder i ddioddefwyr a goroeswyr. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r bylchau a'r cyfyngiadau allweddol a ddatgelwyd yn ystod yr adolygiad.

**Amgylchedd data darniog ac anhygyrch**

Tynnodd rhanddeiliaid sylw'n eang at natur dameidiog data VAWDASV a'r diffyg prosesau rhannu data systematig. Mae setiau data wedi'u harwahanu, boed oherwydd cyfyngiadau technegol, rheoliadau preifatrwydd, neu gystadleuaeth sefydliadol sy'n gysylltiedig â chyllid, yn tanseilio ymdrechion i greu darlun cydlynol o gyffredinrwydd, galw am wasanaethau, neu ganlyniadau. Er gwaethaf hyn, nodwyd rhai enghreifftiau o arferion gorau, gan gynnwys cronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) a phorth data'r Uned Atal Trais, y gall y sector ddysgu ohonynt. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o'r fath yn brin ar draws y sector, oherwydd y ffaith bod cyfathrebu annigonol ar draws asiantaethau yn cynyddu'r risg o gyfrif ddwywaith, tan-gyfrif, a dyblygu ymdrechion.

**Bylchau mewn data dadgyfunedig a data sy'n benodol i Gymru**

Bwlch allweddol arall yw diffyg data cyffredinrwydd cadarn sy'n benodol i Gymru. Nid yw Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, er gwaethaf ei ehangder, yn cyhoeddi dadansoddiadau ar gyfer Cymru â manylder digonol fel mater o drefn. Mae'r mwyaf o'r setiau data cenedlaethol yn canolbwyntio ar Loegr neu nid oes ganddynt ddigon o feintiau samplau yng Nghymru i ganiatáu dadansoddiad ystyrlon yn ôl oedran, rhywedd, ethnigrwydd neu anabledd. Mae'r bwlch hwn yn arbennig o amlwg o ran deall profiadau croestoriadol grwpiau lleiafrifiedig, pobl anabl, a chymunedau LHDTC+, sy'n cyfyngu ar y gwaith o ddatblygu polisïau ac arferion.

Mae ymdrechion fel y rhai a arweinir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i archwilio dadgrynhoi data Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn addawol, ond mae angen eu graddio a chymorth

ymchwil sefydliadol i ddarparu mewnwelediadau cyson sy'n berthnasol i Gymru a gyhoeddir yn rheolaidd.

**Data cyfyngedig ar droseddwyr**

Mae pwyslais ar droseddwyr yn parhau i fod yn un o'r mannau dall mwyaf arwyddocaol yn y dirwedd data gyfredol. Er bod ffynonellau'r heddlu a chyfiawnder troseddol yn darparu rhywfaint o wybodaeth am droseddwyr, dim ond is-set o ddigwyddiadau sy'n mynd at asiantaethau gorfodi'r gyfraith y maent yn eu cofnodi. Y tu hwnt i hyn, mae'r sector gwasanaethau i droseddwyr yn dioddef o ddarnio a diffyg systemau rheoli achosion a rennir a safonau data cyson. Prin fod data hunan-adrodd sy'n seiliedig ar arolygon ar droseddwyr, yn enwedig o'r boblogaeth gyffredinol neu gan blant a phobl ifanc, yn bodoli. Hyd yn oed pan fo data gweinyddol ar droseddwyr yn bodoli, mae gwybodaeth ddemograffig yn aml yn anghyflawn neu'n anghywir, ac nid yw codio troseddau yn gwahaniaethu'n ddibynadwy rhwng mathau o gam-drin (megis rheolaeth drwy orfodaeth, cam-drin sy'n seiliedig ar dechnoleg, neu gam-drin ariannol).

**Mesurau anghyson ar gyfer agweddau a gwasanaethau dros amser**

Mae comisiynu cynaliadwy yn cael ei rwystro gan ddiffyg data cydlynus a chynhwysfawr ar y ddarpariaeth o wasanaethau a'r galw amdanynt. Er bod rhai sectorau (er enghraifft, iechyd a digartrefedd) yn darparu rhai data gweinyddol strwythuredig, nid yw'r rhain yn cael eu cymhwyso'n unffurf ar draws rhanbarthau na darparwyr. Mae'r ansawdd yn dibynnu ar ddarparwyr gwasanaeth sydd wedi'u hyfforddi'n ddigonol a bod ganddynt ddigon o gapasiti i gofnodi data manwl. Mae gwasanaethau arbenigol yn cynnig data gwerthfawr, ond mae'n cael ei gasglu'n anghyson ac yn feichus i'w adrodd, o ystyried nifer y cyllidwyr y mae angen gwahanol fetrigau a fformatau arnynt. Mae'r darnio hwn yn ei gwneud yn anodd asesu a yw gwasanaethau'n diwallu anghenion y boblogaeth neu lle mae prinder capasiti yn bodoli. Mae data ar y gweithlu, costau ac adnoddau yn arbennig o brin ac wedi dyddio neu'n rhy eang i fod yn ddefnyddiol ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n benodol i VAWDASV.

Yn yr un modd, er bod agweddau a chanfyddiadau'r cyhoedd yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio ymddygiadau ac ymatebion i drais, mae'r mwyaf o'r arolygon sy'n casglu'r rhain yn rhai ar sail ad hoc, ac nid ydynt wedi'u cynllunio i olrhain tueddiadau dros amser. Mae'r absenoldeb hwn yn cyfyngu ar ddealltwriaeth o sut mae normau a chredoau cymdeithasol yn esblygu a sut y gellir dylanwadu arnynt trwy bolisi neu addysg.

**Tan-gynrychiolaeth o rai grwpiau a lleoliadau**

Mae plant a phobl ifanc wedi'u cynrychioli'n rhannol yn y data, yn enwedig drwy gasgliad data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, sy'n cwmpasu pob ysgol uwchradd brif ffrwd, hanner yr holl ysgolion cynradd, a nifer dethol o Unedau Cyfeirio Disgyblion. Fodd bynnag, mae hyd yn oed y set ddata werthfawr hon yn cynnwys cwestiynau cyfyngedig sy'n benodol i VAWDASV, ac nid yw'n cynnwys y rhain yn gyson ym mhob ton arolwg. Nid oes mesur cyffredinrwydd cenedlaethol ar gyfer plant dan 16 oed, ac mae'r mwyaf o'r canolfannau data hunan-adrodd presennol yn canolbwyntio'n fwy helaeth ar drais ymhlith cyfoedion yn hytrach na cham-drin gan oedolion.

I'r gwrthwyneb, mae pobl hŷn wedi'u tangynrychioli'n drawiadol, gyda dim ond chwe set ddata yn canolbwyntio'n benodol ar eu hanghenion. Er bod rhywfaint o ddata gweinyddol yn cofnodi oedran, ni nodwyd unrhyw astudiaethau hydredol, arolygon penodol, na mesurau cyffredinrwydd a anelir at unigolion 65 oed neu hŷn, sy'n fan dall mawr.

**Mathau o niwed sy'n dod i'r amlwg a mecanweithiau olrhain annigonol**

Mae niwed ar-lein yn cynrychioli maes cam-drin sy'n esblygu'n gyflym sydd wedi'i gofnodi'n wael yn y data cyfredol. Nid yw systemau data gweinyddol presennol yn gwahaniaethu'n ddibynadwy rhwng cam-drin ar-lein ac yn y byd go iawn, oni bai fod y drosedd wedi'i diffinio'n benodol fel un ar-lein. O ganlyniad, nid yw patrymau sy'n dod i'r amlwg o gam-drin digidol yn cael eu holrhain na'u dadansoddi'n ddigonol, ac nid oes ymateb digonol iddynt, er gwaethaf rhanddeiliaid yn eu nodi fel pryderon dybryd.

Yn yr un modd, mae data ar fathau o gam-drin fel trais ar sail anrhydedd, anffurfio organau cenhedlu benywod, a phriodas dan orfod yn gyfyngedig ac wedi'u dadgyfuno'n anghyson. Mae data'r sector iechyd ar y materion hyn yn arbennig o brin, gan ei gwneud yn anodd deall cyd-destun Cymru neu ddarparu ymyriadau wedi'u targedu.

# 7. Argymhellion

Yn seiliedig ar brif ganfyddiadau'r ymchwil, fe wnaethom ddatblygu set o argymhellion i helpu i gryfhau'r dirwedd VAWDASV yng Nghymru. Datblygwyd yr argymhellion gan y tîm ymchwil, gyda mewnbwn gan randdeiliaid allweddol drwy weithdy Centrepiece, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2025. Roedd gweithdy Centrepiece yn sesiwn awr o hyd lle gwahoddwyd rhanddeiliaid yn y sector i drafod yr argymhellion drafft, gan roi adborth a'u hawgrymiadau ar sut y gellid eu teilwra i fod yn fwy perthnasol i'r sector.

## 1. Gwella amcangyfrifon sy'n seiliedig ar arolygon o gyffredinrwydd VAWDASV yng Nghymru dros amser

Drwy gydol yr ymchwil, un mater allweddol a nodwyd gan randdeiliaid oedd diffyg amcangyfrifon penodol yn seiliedig ar arolygon o gyffredinrwydd VAWDASV. Mae mesurau cywir o gyffredinrwydd VAWDASV yn allweddol i ddeall maint y broblem yn llawn a chynllunio gwasanaethau'n ddigonol. Nid yw'r prif fesur cenedlaethol o gyffredinrwydd, Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, yn cyhoeddi amcangyfrifon penodol i Gymru ar gyfer prif ddangosyddion VAWDASV fel mater o drefn. Ar ben hynny, nid oes modd dadansoddi'r dangosyddion a gyhoeddir ar gyfer Cymru ar draws gwahanol nodweddion demograffig (megis oedran, rhyw/rhywedd, neu ethnigrwydd). Er bod rhai arolygon penodol i Gymru (er enghraifft, Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus ac Arolwg Cenedlaethol Cymru) yn cynnwys rhai mesurau o ddioddefwyr trais neu deimladau o ddiogelwch, nid yw cwestiynau wedi'u cynnwys ym mhob ton neu maent yn gyfyngedig o ran eu cwmpas. Mae hyn yn arwain at orddibyniaeth ar ddata gweinyddol a data ynghylch y defnydd o wasanaethau, sy'n tanamcangyfrif gwir gyffredinrwydd VAWDASV.

Mae sawl opsiwn i weithredu argymhelliad un. Yn gyntaf, gallai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth i adnewyddu dadansoddiadau blaenorol a ddefnyddiwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rheolaidd i greu amcangyfrifon penodol ar gyfer Cymru o Arolwg

Troseddu Cymru a Lloegr. Roedd y dadansoddiad hwn yn cynnwys: (i) cyfuno dangosyddion lluosog o fewn yr arolwg i greu metrig cryfach ar gyfer trais, a (ii) uno data o flynyddoedd lluosog i gynyddu pŵer ystadegol, oherwydd y ffaith bod maint samplau'n llai yng Nghymru. Byddai hyn yn gofyn am adnoddau cyfyngedig a gellid ei gyflawni'n ymarferol yn y tymor byr.

Gallent hefyd archwilio opsiynau ar gyfer cyllid i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol gynyddu nifer yr ymatebwyr i'r arolwg yng Nghymru er mwyn caniatáu amcangyfrifon mwy manwl.

Yn olaf, gallent gynnwys cwestiynau'n rheolaidd am ddioddef trais mewn arolwg penodol i Gymru (er enghraifft, Arolwg Cenedlaethol Cymru), neu ddatblygu arolwg hydredol newydd i Gymru i amcangyfrif pa mor gyffredin yw dioddef trais. Er y byddai datblygu arolwg newydd i Gymru yn fwyaf cadarn ac yn debygol o fod yn fwy ymarferol yn yr hirdymor, yr opsiwn hwn fyddai'r mwyaf dwys o ran costau hefyd.

## 2. Datblygu fframwaith monitro cenedlaethol i fesur cynnydd yn erbyn gweithredu'r Ddeddf

Er bod y dangosyddion cenedlaethol yn darparu sylfaen gref i fesur cynnydd tuag at weithredu'r Ddeddf, mae yna le sylweddol o hyd i wella ymhellach. Ar hyn o bryd, mae'r dangosyddion yn defnyddio set benodol iawn o fetrigau sy'n seiliedig ar ddata, ac nid ydynt yn defnyddio'r holl ddata sydd ar gael yn y sector a nodwyd drwy'r adolygiad. At hynny, maent yn gyfyngedig o ran cwmpas, ac nid ydynt yn cwmpasu rhai themâu sydd wedi'u cynnwys yn ffrydiau gwaith y glasbrint. Gellid gwella'r dangosyddion cenedlaethol trwy eu cysylltu â metrigau sy'n fwy seiliedig ar ddata a thrwy gwmpasu ffrydiau gwaith y glasbrint yn fwy llawn.

Er mwyn mynd i'r afael â'r cyfyngiadau presennol, gellid datblygu fframwaith monitro cenedlaethol yn yr hirdymor. Byddai hyn yn adeiladu ar amcanion a dangosyddion presennol, gan gysylltu nifer o fetrigau sy'n seiliedig ar ddata, nodau amser-benodol, a'r canlyniadau a nodir yn namcaniaeth newid y rhaglen. Byddai hyn yn gwella dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio a ble mae angen gwelliannau, gan ddarparu adnodd defnyddiol i ymarferwyr.

Yn ymarferol, gellid cyhoeddi cyfresi amser lefel uchel fel rhan o'r fframwaith ar gyfer y ffynonellau data sy'n sail i bob dangosydd, gan gynnwys llinell sylfaen ar gyfer y flwyddyn y gweithredwyd y Ddeddf, a'u diweddaru pan fydd data newydd ar gael. Gallai'r fframwaith ddibynnu ar ddata a gyhoeddir ac a gedwir gan Lywodraeth Cymru (megis Arolwg Cenedlaethol Cymru) a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, a data gweinyddol o'r trydydd sector. Byddai hyn yn cynnig mesur o gynnydd cyson tuag at y dangosyddion ac yn dangos yn dryloyw ble mae angen ymdrechion ychwanegol. Ar ben hynny, byddai hyn yn darparu asesiad parhaus o'r bylchau yn y data ac yn tynnu sylw at ba ddangosyddion y mae llai o dystiolaeth yn eu cefnogi, gan ganiatáu ar gyfer proses casglu data sydd wedi'i thargedu.

Er enghraifft, gellid strwythuro'r fframwaith yn debyg i Fframwaith Canlyniadau Awstralia. Mae gan Awstralia set o ganlyniadau y mae'n mesur cynnydd yn eu herbyn tuag at y Cynllun Cenedlaethol ar Roi Terfyn i Drais yn erbyn Menywod a Phlant.Maent yn diweddaru

dangosfwrdd data yn rheolaidd, sy'n rhoi arwyddion o newid, ac yn caniatáu i'r cyhoedd archwilio pob targed.

Er bod fframwaith monitro llawn yn nod hirdymor, yn y tymor byr, gellid cryfhau'r sail dystiolaeth bresennol drwy gyhoeddi adroddiadau sy'n seiliedig ar ddata. Byddai'r rhain yn seiliedig ar y dangosyddion cenedlaethol sy'n bodoli eisoes, gan ddefnyddio data a metrigau cyfredol. Ar hyn o bryd, cyhoeddir adroddiad blynyddol yn disgrifio'r camau allweddol a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae adroddiadau cynnydd hyd yn hyn wedi bod yn ansoddol i raddau helaeth, ac nid ydynt yn darparu mesurau o gynnydd gan ddefnyddio'r mesuriadau technegol a amlinellir yn y Dangosyddion Cenedlaethol i Gymru ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol:Dogfen dechnegol. Byddai cynnwys ymhellach ddata a ddarperir gan y trydydd sector, yn ogystal ag amcangyfrifon o gyffredinrwydd a newidiadau mewn agweddau, yn helpu i lywio dull system gyfan o gomisiynu gwasanaethau pellach.

## 3. Archwilio pa mor ddichonadwy yw rhoi hyfforddiant ledled y sector ar arferion gorau ar gyfer data

Oherwydd diffyg amcangyfrifon yn seiliedig ar arolygon, mae dibyniaeth ar ddata gweinyddol o wasanaethau iechyd, troseddu a'r trydydd sector i amcangyfrif pa mor gyffredin yw rhai mathau o VAWDASV. Fodd bynnag, mae anghysondeb hefyd yn broblem gyda data gweinyddol. Er enghraifft, gall swyddogion heddlu gofnodi digwyddiadau o dan godau troseddau amrywiol neu gallant gofnodi gwybodaeth ddemograffig (megis ethnigrwydd) yn anghyson. Mae anghysondebau tebyg yn codi o ddata a gesglir o fewn GIG Cymru gan ysbytai a meddygfeydd teulu. Nododd rhai rhanddeiliaid hefyd nad oeddent yn teimlo'n hyderus yn eu gallu eu hunain i ddefnyddio'r data, oherwydd nad oeddent yn teimlo eu bod wedi'u deall yn iawn. Nid yw llawer o adroddiadau cyhoeddedig chwaith yn cynnwys manylion am gyfyngiadau data na phrosesau sicrhau ansawdd, sy'n ei gwneud yn anodd asesu pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth neu a oes modd ei defnyddio'n hyderus mewn cyd-destunau polisi.

Er mwyn gwella ansawdd data gweinyddol ar gyfer dadansoddi, gallai Llywodraeth Cymru gynnal hyfforddiant i weithwyr rheng flaen (yn benodol o blismona ac iechyd) ar arferion gorau wrth gasglu a thrin data VAWDASV. Gellid cynnal hyfforddiant hefyd i ymarferwyr (megis y rheini sy'n gweithio ym maes gofal iechyd, plismona, a'r trydydd sector) a dadansoddwyr ar arferion gorau wrth ddefnyddio'r data sydd ar gael yn eu sectorau, gan gynnwys proses adrodd dryloyw ac ymdrin â dyblygu a gwybodaeth sydd ar goll. Nododd rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer yr ymchwil hon, er bod rhywfaint o hyfforddiant o'r math hwn yn bodoli, y gallai sicrhau cyllid rheolaidd fod yn heriol, ac nad oes unrhyw gynnyrch hyfforddi cyson ar gael ar draws rhanbarthau nac is-sectorau ar hyn o bryd. Felly, dylai ymgynghori â rhanddeiliaid ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn ddefnyddiol, ac yn cael ei gyflwyno mewn fformat hyfyw, gan sicrhau cyllid cynaliadwy i ddatblygu hyfforddiant, yn ogystal â digon o amser ac adnoddau i ymarferwyr gymryd rhan, fod yn flaenoriaeth. Gellid cynnig hyfforddiant drwy adnoddau presennol, fel y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol (nad yw ar hyn o bryd yn cynnig hyfforddiant sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddata), er mwyn sicrhau cysondeb ar draws rhanbarthau ac is-sectorau perthnasol.

### 4. Creu adnoddau sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd sy'n catalogio'r data sydd ar gael yng Nghymru

Nododd nifer o randdeiliaid natur ddarniog y dirwedd data. Mae data da yn bodoli, ond efallai na chaiff eu rhannu'n rheolaidd, neu eu bod wedi'u cadw ar wahân o fewn sefydliadau penodol. Fodd bynnag, efallai na fydd rhannu data manwl ar draws sefydliadau yn bosibl oherwydd (i) cyfyngiadau technegol, (ii) natur sensitif y data, a (iii) baich gweinyddol cytundebau rhannu data. Ymhellach, tra bod yr adnodd Violence Against Women and Girls: Data Landscape (sy'n cael ei gadw a'i ddiweddaru gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol) yn gyfeirbwynt da, nid yw llawer o'r setiau data yn berthnasol i Gymru neu nid ydynt ar gael i Gymru'n benodol. Felly, efallai na fydd hyd yn oed y rheini sy'n gweithio yn y sector yn ymwybodol o ba setiau data sy'n bodoli.

Felly, gallai Llywodraeth Cymru greu adolygiad "tirwedd data" sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd, yn debyg i'r un a grëwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n cynnwys manylion lefel uchel ar setiau data ac astudiaethau o VAWDASV sy'n benodol i Gymru.

Gellid diweddaru hwn yn rheolaidd drwy'r alwad am dystiolaeth, a fyddai'n cael ei lledaenu gan Lywodraeth Cymru i sefydliadau perthnasol yn y sector bob blwyddyn. Yn ogystal â lledaenu'r alwad am dystiolaeth, gallai Llywodraeth Cymru greu cyfeiriad cyswllt pwrpasol y gallai sefydliadau gysylltu ag ef ynghylch diweddariadau ar sail ad hoc. Yn y dyfodol, gellid cefnogi'r adnodd hwn hefyd gan gyfathrebiadau eraill, fel cylchlythyr rheolaidd a chalendr rhyddhau ystadegol, er mwyn sicrhau bod y sector yn ymwybodol o ddiweddariadau rheolaidd ac yn gallu defnyddio'r adnodd yn llawn.

Mae adborth gan y gweithgor a gynullwyd ar gyfer y prosiect yn awgrymu nad yw storfa ganolog o ddata yn ymarferol ar hyn o bryd oherwydd pryderon ynghylch sensitifrwydd y data sy'n cael eu rhannu ac amharodrwydd yn y sector ynghylch rhannu data yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, mae'r catalog data yn gam cyntaf pwysig i symud i'r cyfeiriad hwn.

## 8. Cyfeiriadau


Archwilio Cymru (2019), 'Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith', ar gael yn: https://www.audit.wales/sites/default/files/VAWDASV_cym_11.pdf.

Dominguez S, Menjivar C (2014), 'Beyond individual and visible acts of violence: A framework to examine the lives of women in low-income neighbourhoods', Women's Studies International Forum, 44, 184-195

Hearn, J, Strid, S, Verloo, M (2016), 'Interrogating violence against women and state violence policy: Gendered intersectionalities and the quality of policy in The Netherlands, Sweden and the UK' Current Sociology, Cyfrol 64, Rhifyn 4

Hester, M, Lilley S (2016), 'Preventing violence against women: Article 12 of the Istanbul Convention', Cyngor Ewrop, ar gael yn: https://edoc.coe.int/en/violence-against-women/7140-preventing-violence-against-women-article-12-of-the-istanbul-convention.html.

Kindling Interventions (d.d.), 'Lead the Change Wales', Kindling Interventions, ar gael yn: https://kindling-interventions.com/lead-the-change-wales/.

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2025), 'Tackling violence against women and girls: Summary', Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ar gael yn: https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2025/01/tackling-violence-against-women-and-girls-summary.pdf.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015), 'Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015', ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/3/contents.

Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (d.d.), 'Our work – Violence against women and girls', Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, ar gael yn: https://www.npcc.police.uk/our-work/violence-against-women-and-girls/.

Oliver, R, Barnaby A, Roe, S, Wlasny, M (2019), 'The economic and social costs of domestic abuse', Adroddiad Ymchwil y Swyddfa Gartref 107, ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5f637b8f8fa8f5106d15642a/horr107.pdf.

Senedd Cymru (d.d.), 'Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)', Senedd Cymru, ar gael yn: https://senedd.wales/media/ln3jil4m/pri-ld9817-em-r-w.pdf.

Senedd y DU (2025), 'Written evidence submitted by VAWDASV Research Network Wales, University of South Wales', Senedd y DU, ar gael yn: https://committees.parliament.uk/writtenevidence/138247/pdf/.

United Nations Committee on the Elimination of Discrimination Against Women (d.d.), 'General recommendations', Y Cenhedloedd Unedig, ar gael yn: https://www.un.org/womenwatch/daw/cedaw/recommendations/recomm.htm.

Llywodraeth Cymru (2022), 'Y Cwricwlwm i Gymru: Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb', Llywodraeth Cymru, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-01/cwricwlwm-i-gymru-cod-addysg-cydberthynas-rhywioldeb.pdf.

Llywodraeth Cymru (2019), 'Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru', Llywodraeth Cymru, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/fframwaith-i-gymorth-cadarnhaol-newid-ir-rhai-mewn-risg-o-droseddu_0.pdf

Llywodraeth Cymru (2022), 'Strategaeth genedlaethol 2016 i 2021', Llywodraeth Cymru, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-05/cenedlaethol-strategaeth-2016-i-2021.pdf.

Llywodraeth Cymru (2025), 'Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: cynllun blynyddol cynghorwyr cenedlaethol 2025 i 2026', Llywodraeth Cymru, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-cynllun-blynyddol-cynghorwyr-cenedlaethol-2025-2026

Llywodraeth Cymru (2019), 'Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol', Llywodraeth Cymru, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-03/fframwaith-hyfforddiant-cenedlaethol.pdf.

Llywodraeth Cymru (d.d.), 'Iawn', Llywodraeth Cymru, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/iawn.

Llywodraeth Cymru (2024), 'Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: adroddiad cynnydd blynyddol 2023 i 2024', Llywodraeth Cymru, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-adroddiad-cynnydd-blynyddol-23-i-24-html

Llywodraeth Cymru (2023), 'Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: cynllun gweithredu lefel uchel y glasbrint', Llywodraeth Cymru, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-cynllun-gweithredu-lefel-uchel-y-0.

Llywodraeth Cymru (2019), 'Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: dangosyddion cenedlaethol ar gyfer Cymru', Llywodraeth Cymru, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-dangosyddion-cenedlaethol-ar-gyfer-cymru.

Llywodraeth Cymru (2022), 'Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026', Llywodraeth Cymru, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-strategaeth-2022-i-2026-html

Cymorth i Ferched Cymru (2022), 'Welsh Women's Aid respond to VAWDASV strategy 2022 to 2026', Cymorth i Ferched Cymru, ar gael yn: https://welshwomensaid.org.uk/news/welsh-womens-aid-respond-to-vawdasv-strategy-2022-2026/.

Sefydliad Iechyd y Byd (2024), 'Violence against women', Taflen Ffeithiau Sefydliad Iechyd y Byd, ar gael yn: https://www.who.int/news-room/fact-sheets/detail/violence-against-women

# Atodiad A:Protocol chwilio

Mae'r canlynol yn amlinellu ein strategaeth chwilio systematig i nodi setiau data perthnasol sydd ar gael i'r cyhoedd ar VAWDASV yng Nghymru.

## Strategaeth chwilio

Rydym wedi dylunio ein strategaeth chwilio er mwyn sicrhau ei bod wedi'i thargedu i nodi'r setiau data mwyaf perthnasol wrth barhau i fod yn ddigon hyblyg i fod yn addas ar gyfer nifer o gronfeydd data ac adnoddau ar-lein gwahanol. Mae Tabl 1 yn dangos yr allweddeiriau a fydd yn cael eu defnyddio i nodi ffynonellau data perthnasol. Dewiswyd yr allweddeiriau ar sail profion cychwynnol, gan asesu gwahanol gyfuniadau o dermau chwilio ar draws ffynonellau gwybodaeth i benderfynu ar y rhai sy'n cynhyrchu'r setiau data mwyaf perthnasol ar gyfer amcanion y prosiect ymchwil.

Oherwydd ymarferoldeb rhai cronfeydd data, dim ond nifer gyfyngedig o allweddeiriau sy'n cael eu caniatáu neu sy'n cynhyrchu canlyniadau defnyddiadwy. Felly, er y bydd gweithredyddion Boole (AND/OR/NOT) yn cael eu defnyddio lle caniateir hwy, bydd y mwyaf o’r cronfeydd data yn cael eu chwilio â llaw, gan ddefnyddio un i ddau allweddair ar y tro. Gan ddefnyddio'r llinynnau chwilio hyn, byddwn yn llunio rhestr hir o setiau data, a fydd wedyn yn cael eu sgrinio i weld a ydynt yn bodloni'r meini prawf cynnwys y manylir arnynt isod.

Tabl 1. Rhestr o allweddeiriau

| | |
|---|---|
| **Mathau o VAWDASV** | VAWDASV, VAWG, violence, abuse, domestic abuse, IPV, harassment, neglect, traffick*, GBV, FGM, marriage, assault |
| **Grŵp targed** | Women, girl*, partner*, child*, adolescent*, survivor*, perpetrator*, victim* |
| **Nodweddion, canlyniadau a pherfformiad (dewisol)** | Report*, awareness, attitude*, understand*, interven*, train*, offending, offense, service*, rehabilitation, health, wellbeing, refer*, conviction*, discharg*, relief, safeguard*, prevent* |

## Meini prawf cynnwys ac eithrio

Byddwn yn defnyddio meini prawf cynnwys ac eithrio i benderfynu a yw'r data a nodwyd o'n chwiliad yn addas i'w cynnwys yn ein taflen echdynnu data derfynol. Mae'r meini prawf a ddefnyddir i symud o restr hir o setiau data i restr fer a fydd yn cael ei hasesu’n unigol o ran ansawdd wedi'u rhestru yn y tabl isod.

Tabl 2. Meini prawf cynnwys ac eithrio

| Thema | Meini prawf cynnwys | Meini prawf eithrio |
|---|---|---|
| Daearyddiaeth | Data sy'n darparu gwybodaeth benodol ar gyfer Cymru neu ranbarthau Cymru. Gellir ystyried setiau data sy'n crynhoi gwybodaeth ar gyfer Cymru a Lloegr os oes angen. | Data sy'n gysylltiedig â gwledydd eraill y DU, neu nad ydynt yn darparu dadansoddiadau penodol i Gymru. |
| Dyddiad cyhoeddi'r set ddata | 2015 ymlaen | Setiau data o cyn 2015. |
| Iaith | Cymraeg neu Saesneg | Unrhyw iaith arall |
| Math o ddata | Data arolygon, data gweinyddol, data defnydd gwasanaethau, data ariannol neu gostau, cofnodion swyddogol. | Data ansoddol o gyfweliadau neu grwpiau ffocws. |
| Perthnasedd | Bydd data sy'n cyd-fynd â ffrydiau gwaith y glasbrint (aflonyddu ar y stryd a diogelwch mewn mannau cyhoeddus, aflonyddu yn y gweithle, mynd i'r afael â chyflawni troseddau, comisiynu cynaliadwy, ac anghenion pobl hŷn, plant a phobl ifanc, a llais goroeswyr) yn cael eu cynnwys. | Bydd data nad ydynt yn berthnasol i unrhyw un o'r amcanion, y dangosyddion, na ffrydiau gwaith y glasbrint yn cael eu heithrio. |

## Ffynonellau gwybodaeth

Byddwn yn adfer tystiolaeth drwy amrywiaeth o gronfeydd data a gwefannau'r llywodraeth, y trydydd sector ac academaidd, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y rhai a amlinellir yn y tabl isod. Y ffynonellau hyn yw'r rhai y mae ein profion wedi dangos eu bod yn cynnwys y data mwyaf perthnasol ar gyfer y sector.

Tabl 3. Ffynonellau gwybodaeth a data

| Categori | Ffynonellau |
|---|---|
| Cyffredinol | Iechyd Cyhoeddus Cymru, StatsCymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Gwasanaeth Data'r DU, YouGov, Cyngor ar Bopeth, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Weinyddiaeth Gyfiawnder |

| Categori | Ffynonellau |
|---|---|
| Sefydliadau gwirfoddol a thrydydd sector | BAWSO, Hawliau Menywod Cymru, Cymorth i Ferched Cymru, SafeLives, y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant, Llwybrau Newydd, Calan DVS, Cymdeithas y Plant |
| Canolfannau ymchwil a phrifysgolion | Canolfan PRIME Cymru, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Wrecsam, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, DECIPHER, Prifysgol Abertawe, ACE Hub Cymru, IRISi, Canolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Llesiant y Boblogaeth, Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru, CASCADE |
| Byrddau iechyd | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| Comisiynwyr heddlu a throseddu | Dyfed-Powys, Gwent, Gogledd Cymru, De Cymru |

Byddwn yn chwilio gwefannau'r sefydliadau a restrir uchod â llaw neu gan ddefnyddio ein llinynnau chwilio. Ar ben hynny, gellir cynnwys data ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, a gafwyd drwy ein galwad am dystiolaeth, neu a ddarperir gan randdeiliaid mewn cyfweliadau cwmpasu.

## Cofnodion astudio

### Rheoli data

Er mwyn sicrhau bod y broses chwilio yn gynhwysfawr ac yn dryloyw, byddwn yn defnyddio taflen gweithgaredd ymchwil i gofnodi'r holl dermau a chwiliwyd, ffynonellau a gafwyd mynediad atynt, dyddiad y chwiliad, a nifer y canlyniadau chwilio.

## Proses ddethol a chasglu data

Yn dilyn y broses chwilio, byddwn yn dechrau trwy sgrinio teitlau'r setiau data cychwynnol o'r canlyniadau chwilio a chael gwared ar ddyblygiadau i lunio rhestr hir o setiau data perthnasol. Yna bydd y rhestr hir hon yn cael ei sgrinio yn ôl y meini prawf cynnwys ac eithrio a restrir yn Nhabl 2. Bydd ymchwilydd annibynnol yn gwirio sampl ar hap o benderfyniadau i wirio cytundeb â'r broses sgrinio. Os nad yw aelodau'r tîm sgrinio yn cytuno ynghylch penderfyniad, bydd hyn yn cael ei uwchgyfeirio at reolwr y prosiect, a fydd yn gwneud penderfyniad terfynol.

Bydd y broses sgrinio yn arwain at restr fer derfynol o setiau data i'w cynnwys yn yr adolygiad, a fydd yn cael eu hasesu o ran ansawdd.

## Echdynnu data

Er mwyn cofnodi prif ganfyddiadau pob astudiaeth sydd wedi'i chynnwys yn y rhestr fer, byddwn yn defnyddio taflen echdynnu data a fydd yn cynnwys y manylion canlynol ar gyfer pob astudiaeth:

- teitl
- dyddiad cyhoeddi cynharaf
- dyddiad cyhoeddi diweddaraf
- pa mor aml mae'r data'n cael eu cofnodi
- rheolydd/cyhoeddwr y data
- y wlad/rhanbarth sydd dan sylw
- y boblogaeth darged
- argaeledd
- mapio i ddangosyddion cenedlaethol
- mapio i amcanion strategaeth VAWDASV
- mapio i ffrydiau gwaith y glasbrint

Er y bydd ein fframwaith asesu ansawdd yn cael ei gwblhau yn ddiweddarach yn y broses, bydd yr elfennau allweddol y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn cynnwys y canlynol:

- amseroldeb (megis pa mor aml y caiff y data eu diweddaru)
- cysondeb (megis a yw'r data'n cael eu casglu'n gyson ar draws blynyddoedd, rhanbarthau, neu unedau eraill)
- cyflawnrwydd (megis a yw'r data'n cynnwys yr wybodaeth y dylent gynnwys, heb unrhyw wybodaeth ar goll)
- strwythur/fformat (megis a yw'r data wedi'u cofnodi mewn ffordd sy'n eu gwneud yn hawdd eu defnyddio ar gyfer gwybodaeth neu ddadansoddiad)
- perthnasedd (megis a yw'r data'n cynnwys dadansoddiadau perthnasol a chywir ar gyfer Cymru neu ranbarthau Cymru)
- cywirdeb (megis a yw'r data'n cael eu gwirio neu eu harchwilio'n rheolaidd, ac i ba raddau y maent yn adlewyrchu darlun gwirioneddol o ddigwyddiadau)

# Atodiad B: Deunyddiau ymchwil

## Canllawiau cyfweliadau cwmpasu

### Cyflwyniad (5 munud)

*[Croeso a diolch i'r cyfwelai/cyfweleion am gymryd yr amser i wneud y cyfweliad hwn]*

Fy enw i yw [enw] ac rwy'n ymchwilydd yn Alma Economics. Fel y gwyddoch efallai, rydym wedi cael ein comisiynu gan Lywodraeth Cymru i ymchwilio i dirwedd data trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru.

Rydym yn cynnal adolygiad i nodi a mapio ffynonellau data presennol ar draws meysydd allweddol o ddiddordeb, gan gynnwys aflonyddu ar y stryd a diogelwch mewn mannau cyhoeddus, aflonyddu yn y gweithle, mynd i'r afael â chyflawni troseddau, comisiynu cynaliadwy, anghenion pobl hŷn a phlant a phobl ifanc, a llais goroeswyr. Nod y cyfweliad cwmpasu hwn yw archwilio'r dirwedd data gyfredol yn y meysydd hyn, gan ganolbwyntio ar wybodaeth sy'n ymwneud â sefydliadau, y gweithlu, a defnyddwyr gwasanaethau, yn ogystal â setiau data lleol a chenedlaethol perthnasol ar VAWDASV yng Nghymru. Bydd y canfyddiadau'n helpu i nodi bylchau a chyfyngiadau data allweddol er mwyn archwilio sut y gellid cryfhau'r dirwedd data i gefnogi polisïau ac arferion gorau.

Hoffem bwysleisio na fyddwn yn cynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch chi, fel eich enw, yn ein hadroddiad i Lywodraeth Cymru. Ni fydd yr hyn y byddwch yn ei ddweud yn ystod y cyfweliad yn cael ei briodoli i chi nac i'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli.

Bydd y cyfweliad yn para tua 45 munud, ond rhowch wybod i mi os nad oes gennych chi gymaint o amser â hyn fel y gallaf flaenoriaethu cwestiynau. Mae eich cyfranogiad heddiw yn gwbl wirfoddol, a gallwch ddod â'r cyfweliad hwn i ben unrhyw bryd neu ddewis peidio ag ateb rhai cwestiynau.

A oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymchwil neu eich cyfranogiad cyn i ni ddechrau?

**– DECHREU RECORDIO OS YN BERTHNASOL –**

### Gwybodaeth gefndirol (5 munud)

Mae'r adran hon yn ein helpu i ddeall cefndir technegol yr ymatebydd er mwyn pennu dyfnder y cwestiynau i'w gofyn.

1. **A allech chi ddisgrifio'n fyr waith eich sefydliad sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?**
    a. [Rhaid gofyn] Proc: A yw eich sefydliad yn rheoli ac yn dadansoddi data sy'n ymwneud â'r gwaith hwn?
    b. [Rhaid gofyn] Proc: Pa fathau o ddata ydych chi'n ymwneud â hwy, a sut ydych chi'n defnyddio'r data hyn?
        i. Cwestiwn dilynol: Sut mae'r data hyn yn dylanwadu ar broses gwneud penderfyniadau, mentrau, a gweithgareddau eraill eich sefydliad?

2. **A allech chi hefyd egluro eich cyfrifoldebau penodol o fewn eich sefydliad?**
    a. Proc: A allech chi ymhelaethu ar eich cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â chasglu/dadansoddi data ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o fewn eich sefydliad?
        i. [Os nad yw'r ymatebydd yn gyfrifol am gasglu/dadansoddi data ar VAWDASV, gofynnwch]: A allech chi ein cyfeirio ni at yr unigolyn priodol o fewn eich sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gweithgareddau hyn?
        ii. Cwestiwn dilynol: Sut mae eich tasgau sy'n gysylltiedig â data yn cyfrannu at amcanion cyffredinol eich tîm neu'ch sefydliad?

**Y dirwedd bresennol – argaeledd ac ansawdd (15 munud)**

Hoffwn i ni drafod y data sydd ar gael yn eich maes gwaith. Ein nod yw deall yn well pa ffynonellau data sydd ar gael, y dangosyddion sydd ynddynt, a pha mor dda y mae'r setiau data hyn yn cefnogi eich gwaith, yn enwedig o ran dadansoddi is-grwpiau.

3. **A allech chi nodi pa setiau data neu ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael yn eich maes gwaith i lywio ymdrechion ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)?**
    a. Proc: Pa ffynonellau data allweddol ydych chi'n ymwybodol ohonynt sy'n ymwneud â VAWDASV yn eich maes gwaith?
    b. Cwestiwn dilynol: *[Ar gyfer pob set ddata a grybwyllir]* – Pwy sy'n gyfrifol am reoli'r set ddata hon?
    c. Proc: Beth yw natur y setiau data hyn? A ydyn nhw'n seiliedig ar ddata arolygon, cofnodion gweinyddol, adroddiadau'r heddlu, logiau darparu gwasanaethau, neu dull arall o gasglu data?
    d. Proc: A yw unrhyw un o'r ffynonellau data hyn wedi'u dadgyfuno ar lefel genedlaethol – e.e. a ydynt yn cynnwys data sy'n benodol i Gymru? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn ffynonellau sy'n darparu dadansoddiadau rhanbarthol neu benodol i wlad.
        i. [Os nad oes data ar gael ar gyfer Cymru ar hyn o bryd] Cwestiwn dilynol: pa mor ymarferol fyddai dechrau casglu data sy'n cynnwys dadansoddiad daearyddol?
    e. Proc: Mae gennym ddiddordeb mewn data ar gyffredinrwydd, demograffeg dioddefwyr, cysylltiadau gwasanaeth, canlyniadau gwasanaethau/ymyriadau, a mathau o drais. Pa un o'r ffynonellau data hyn sy'n cynnwys gwybodaeth o'r fath?
    f. A yw'r setiau data hyn yn hygyrch i eraill y tu allan i'r sefydliad sy'n eu cynhyrchu? Os felly, sut gellir eu cyrchu (e.e. mynediad agored, drwy gais, cytundebau rhannu data, partneriaethau, prosiectau cydweithredol)?

4. **Pa newidynnau penodol sydd wedi'u cynnwys yn y setiau data hyn sydd fwyaf perthnasol i'ch gwaith ar VAWDASV?**
    a. Proc: Beth yw'r newidynnau allweddol rydych chi'n canolbwyntio arnyn nhw wrth adolygu'r setiau data hyn?
    b. Proc: A yw'r setiau data hyn yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:
        i. Pa mor gyffredin yw trais neu gam-drin?
        ii. Demograffeg dioddefwyr (e.e. oedran, ethnigrwydd, rhanbarth, cyfeiriadedd rhywiol)?
        iii. Mathau o drais neu gam-drin (e.e. cam-drin domestig, trais rhywiol, stelcio)?
        iv. Cysylltiadau â gwasanaethau (e.e. yr heddlu, gofal cymdeithasol, gofal iechyd)?
        v. Ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth o faterion yn ymwneud â VAWDASV ar draws y cyhoedd?
        vi. Agweddau neu ganfyddiadau'r cyhoedd yn ymwneud â VAWDASV?
        vii. Canlyniadau neu effeithiolrwydd darparu gwasanaethau?
    c. Proc: A yw'r setiau data hyn yn caniatáu dadgyfuniadau yn ôl ffactorau allweddol fel oedran, rhywedd, ethnigrwydd, anabledd, neu ddaearyddiaeth?
5. **At ba ddibenion y defnyddir y setiau data hyn yn eich gwaith?**
    g. Proc: Ym mha ffyrdd ydych chi'n defnyddio'r setiau data hyn yn eich gwaith?
    h. Proc: Pa feini prawf ydych chi'n eu defnyddio i benderfynu pa setiau data i'w defnyddio?
    i. Proc: Beth yw prif fuddion a chyfyngiadau pob set ddata?
6. **Sut fyddech chi'n graddio ansawdd cyffredinol y setiau data rydych chi'n eu defnyddio?**
    a. Proc: Yn benodol, gwerthuswch y setiau data hyn ar sail y meini prawf canlynol:
        i. I ba raddau mae'r setiau data yn addas at eu diben bwriadedig?
        ii. I ba raddau y gellir dibynnu ar y setiau data hyn ac ymddiried ynddynt?
        iii. I ba raddau y gellir addasu'r raddfa ar gyfer dadansoddiadau ehangach a mwy manwl?
        iv. A oes modd cyfuno eu canlyniadau â ffynonellau eraill o ddata?

v. A ydyn nhw wedi'u safoni o ran fformat?

vi. Pa mor aml mae'r data hyn yn cael eu casglu a'u diweddaru?

b. Cwestiwn dilynol: Wrth asesu ansawdd set ddata, a oes unrhyw feini prawf neu agweddau eraill rydych chi'n eu hystyried?

**7. A yw eich sefydliad yn cynnal unrhyw weithgareddau casglu data cynradd, megis arolygon neu gasglu data gweinyddol?**

a. Proc: Beth yw natur y setiau data hyn?

b. **RHAID GOFYN** Proc:Pa fathau penodol o wybodaeth sydd wedi'u cynnwys yn y setiau data hyn?

c. Proc: Pa mor aml ydych chi'n casglu'r data hyn?

d. **Proc: Am ba hyd y disgwylir i'r gweithgarwch casglu barhau? A yw'n rhan o broses flynyddol statudol, arolwg â chyfyngiad amser, neu brosiect â chyllid wedi'i gadarnhau am gyfnod penodol o amser?**

e. Proc: Pa brosesau sicrhau ansawdd sydd ar waith? Pa mor aml y cynhelir y prosesau hyn?

Os na chrybwyllir hynny, gofynnwch ba brosesau amgen sydd ar waith er mwyn sicrhau cywirdeb, cysondeb a chyflawnrwydd y setiau data hyn

8. **A allech chi ddisgrifio sut mae'r data hyn yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd o fewn eich sefydliad, yn ogystal ag unrhyw ddefnyddiau allanol y gwyddys amdanynt?**

a. Proc: A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw sefydliadau eraill, ar wahân i'ch un chi, sy'n defnyddio'r data hyn? Os felly, at ba ddibenion y cânt eu defnyddio?

b. Proc: A allwch chi ddarparu enghreifftiau o unrhyw adroddiadau, cyhoeddiadau neu allbynnau sydd wedi cael eu defnyddio neu sydd wedi cael eu seilio ar y data hyn?

Gofynnwch i'r ymatebydd rannu templed data – taenlen Excel lefel uchel heb wybodaeth gyd-destunol (neu, os yw'n ymarferol, i gynnwys enghraifft ddienw hefyd)

**Bylchau ac anghysondebau yn y data (10 munud)**

Hoffwn i ni nawr ganolbwyntio ar anghenion nad ydynt wedi'u cynnwys yn y setiau data hyn a bylchau posibl yn y broses o gasglu data yn ogystal â sut mae eich sefydliad yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

**9. O'ch profiad chi, beth yw'r bylchau a'r cyfyngiadau yn y data sydd ar gael ar hyn o bryd ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru?**

a. Proc: A oes mathau penodol o drais, grwpiau poblogaeth, neu lwybrau

gwasanaeth sydd heb gynrychiolaeth ddigonol neu sydd wedi'u cofnodi'n wael?

b. Proc: A oes agweddau penodol nad ydynt wedi'u cofnodi'n ddigonol?

c. Proc: A oes unrhyw welliannau a allai wneud y data presennol yn fwy defnyddiol – megis fformatau data newydd, dadansoddiadau gwahanol yn ôl daearyddiaeth, sector neu ddemograffeg, neu unrhyw welliannau eraill?

**Cwestiwn dilynol:**A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw fathau o ddata heb eu cyhoeddi neu ddata mewnol a allai helpu i fynd i'r afael â'r bylchau hyn neu gynnig mwy o fewnwelediad i'r meysydd hyn?

**Cwestiwn dilynol:** A oes lleoliadau neu gyd-destunau (e.e. ysgolion, gweithleoedd, amgylcheddau ar-lein) lle dylid gwella gweithgarwch casglu data?

**Cwestiwn dilynol:** Yn eich barn chi, sut mae'r data sydd ar gael yng Nghymru yn cymharu â'r hyn a gesglir mewn rhannau eraill o'r DU, o ran cryfderau a meysydd i'w gwella?

**10. A oes tasgau neu weithgareddau sy'n rhan o'ch gwaith yr ydych chi'n meddwl y dylid eu gwneud ond nad ydyn nhw'n bosibl ar hyn o bryd oherwydd problemau o ran ansawdd neu argaeledd data?**

a. Proc: A oes penderfyniadau neu gamau gweithredu penodol sy'n cael eu rhwystro gan y bylchau hyn yn y data?

b. A ydych chi wedi dod ar draws heriau sy'n gysylltiedig ag amseroldeb, cywirdeb neu gyflawnrwydd data sy'n effeithio ar eich gwaith?

**11. A oes unrhyw heriau y gwyddys amdanynt yn y ffordd y mae gwahanol sefydliadau'n diffinio neu'n cofnodi data sy'n gysylltiedig â VAWDASV?**

c. Proc: A oes gwahaniaethau mewn diffiniadau rhwng data'r heddlu, data iechyd, data gwasanaethau'r trydydd sector, a data hunan-adrodd (o arolygon)?

   a. [Os oes gwahaniaethau] Cwestiwn dilynol: Os felly, a allech chi esbonio pam mae'r gwahaniaethau hyn yn bodoli a sut y gallent effeithio ar gysondeb y data a'r ffordd y caiff eu dehongli?

d. Proc: A oes unrhyw heriau penodol sy'n gysylltiedig â manylder y setiau data hyn, e.e. pan fyddant yn cyfuno gwybodaeth o Gymru a Lloegr? Pa mor anodd yw cael data sy'n benodol i Gymru?

e. A ydych chi'n wynebu unrhyw heriau wrth alinio neu gymharu data ar draws sectorau a sefydliadau?

f. A oes achosion lle rydych chi'n gwybod bod data perthnasol yn bodoli o fewn sefydliadau eraill ond nad ydych chi'n gallu eu cyrchu? Os felly, pa rwystrau sy'n atal data rhag cael eu rhannu neu eu cyrchu?

**12. A oes dangosyddion, mesurau neu newidynnau penodol yr ydych chi'n teimlo**

**y dylid eu casglu'n fwy cyson neu'n fwy cynhwysfawr ar draws setiau data?**

a. Proc: A oes dangosyddion canlyniad (e.e. diogelwch, llesiant, mynediad at gyfiawnder) sydd ar goll ar hyn o bryd neu nad ydynt yn cael eu holrhain yn gyson ar draws setiau data?
b. Proc: A oes dangosyddion sy'n mesur pa mor effeithiol yw gwasanaethau (e.e. amseroedd ymateb, hyd y cymorth, neu ganlyniadau hirdymor) y dylid eu cynnwys yn fwy systematig?
c. Proc: A oes dangosyddion prosesau allweddol (e.e. cyfraddau llwyddiant atgyfeirio, cydlynu rhwng asiantaethau, achosion mynych) nad ydynt wedi'u cofnodi'n ddigonol yn y data?

13. **Mae tan-adrodd yn parhau i fod yn broblem gydnabyddedig mewn data VAWDASV. Yn seiliedig ar eich profiad, beth yw prif ysgogwyr tan-adrodd, a sut y gallai hyn effeithio ar ansawdd y data a'r ffordd y cânt eu dehongli?**

j. Proc: A oes mathau penodol o drais neu gam-drin (e.e. dioddefwyr rheolaeth drwy orfodaeth, trais rhywiol, stelcio, aflonyddu rhywiol, aflonyddu yn y gweithle, yr hyn a elwir yn drais 'ar sail anrhydedd', neu gam-drin ariannol) sy'n fwy tebygol o beidio â chael eu hadrodd neu o gael eu cofnodi'n wael yn y setiau data cyfredol?

k. Proc: A oes rhai grwpiau neu leoliadau lle mae tan-adrodd yn arbennig o acíwt (e.e. pobl hŷn, plant a phobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig, dioddefwyr anabl, unigolion LHDT+, ac ardaloedd daearyddol penodol)?

**Cwestiwn dilynol:** Yn eich barn chi, beth yw'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at y diffyg adrodd am brofiadau o drais, cam-drin neu gamfanteisio?

14. **A oes unrhyw rwystrau ychwanegol i wella ansawdd a chyflawnrwydd data VAWDASV yng Nghymru?**

Gall rhwystrau ychwanegol fod yn gysylltiedig â chapasiti, adnoddau, cydlynu, systemau, neu rywbeth arall.

15. **Yn olaf, a oes unrhyw fathau o ddata nad ydynt yn cael eu casglu o gwbl ar hyn o bryd ond a fyddai o fudd i waith eich sefydliad?**

a. Proc: Pa agweddau penodol ar gasglu data ydych chi'n teimlo sydd fwyaf prin?

b. Proc: Sut gallai'r data hyn ategu'r data rydych chi eisoes yn eu defnyddio? Sut fyddai'r data hyn o gymorth yng ngwaith eich sefydliad?

c. Proc: Pam ydych chi'n meddwl nad yw'r data hyn yn cael eu casglu'n rheolaidd?

**Awgrymiadau (5–10 munud)**

Hoffem nawr ganolbwyntio ar eich argymhellion ar gyfer cryfhau ecosystem data VAWDASV yng Nghymru. Yn benodol, mae gennym ddiddordeb yn eich barn ar ba

newidiadau – boed mewn casglu data, seilwaith, neu gydweithio – a allai ategu'r gwaith o gyflawni strategaeth VAWDASV Llywodraeth Cymru yn well a helpu i sicrhau bod y dangosyddion perfformiad allweddol yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed ac effaith yn gywir.

16. **Pa feysydd fyddai'n elwa ar broses gasglu data sydd wedi'i thargedu'n fwy?**
    a. Proc: A allai hyn gynnwys meysydd megis atal, ymyrraeth gynnar, canlyniadau hirdymor i oroeswyr, neu brofiadau grwpiau lleiafrifiedig?
    b. Proc: A oes dangosyddion a allai helpu i nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg neu anghenion heb eu diwallu yn gyflymach?
17. **Pa fesurau fyddech chi'n eu hawgrymu i gryfhau ecosystem data VAWDASV?**
    a. Proc: A oes unrhyw welliannau y mae angen eu gwneud o ran casglu ac adrodd data?
    b. Proc: Pa newidiadau technolegol neu fethodolegol fyddai'n helpu i wella hygyrchedd ac ansawdd data?

**Cloi (hyd at 5 munud)**

1. **A oes unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r drafodaeth hon yr hoffech ei rhannu ynghylch data ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?**
2. **A fyddech chi'n cytuno i ymgysylltu â ni eto yn y dyfodol agos os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom fel rhan o'r prosiect ymchwil hwn? Hoffem gysylltu â chi i gwblhau galwad am dystiolaeth a'i rhannu â chydweithwyr neu randdeiliaid perthnasol eraill.**
3. **Efallai y byddwn hefyd yn gofyn i chi gymryd rhan mewn cyfweliad dilynol. A fyddai hynny'n iawn gyda chi?**

## Holiadur galwad am dystiolaeth

**Canllawiau i gwblhau'r alwad am dystiolaeth**

Prif nod yr alwad hon am dystiolaeth yw casglu gwybodaeth am gasgliadau data sy'n gysylltiedig â **VAWDASV**.

Mae'r holiadur wedi'i strwythuro'n bedair adran. Mae'r ddwy adran gyntaf yn canolbwyntio ar setiau data rydych chi'n ymwybodol ohonyn nhw neu'n gweithio gyda nhw. Yn **Adran 1**, gofynnwn i chi ddarparu gwybodaeth am unrhyw setiau data cyhoeddedig rydych chi'n eu defnyddio, yn gyfarwydd â hwy neu'n eu cynhyrchu. Mae **Adran 2** yn canolbwyntio ar setiau data heb eu cyhoeddi y gallech weithio gyda nhw neu eu cynhyrchu. Ar gyfer pob set ddata, mae gennym ddiddordeb mewn deall ei henw a manylion cyd-destunol allweddol, megis y cyfnod amser y mae'n ei chwmpasu, amlder y data a gesglir, cwmpas y data (e.e. o ran daearyddiaeth), a pha ffurfiau penodol o VAWDASV y mae'n ymwneud â hwy.

Ar gyfer setiau data cyhoeddedig, bydd angen i chi rannu'r ddolen mynediad yn unig â ni (o fewn amgylchedd yr arolwg) a darparu unrhyw wybodaeth berthnasol arall yr hoffech ei rhannu â ni (templedi casglu data, enwau dangosyddion a gasglwyd a'u nodweddion, canllawiau neu eirfaoedd cysylltiedig) yn **[RHOWCH GYFEIRIAD E-BOST YMA]**.

Ar gyfer setiau data heb eu cyhoeddi, gallwch gyfrannu mewn dwy ffordd. Os ydych chi'n gyfarwydd â set ddata, gallwch chi gwblhau set o gwestiynau sy'n gwestiynau caeëdig ar y cyfan. Os ydych chi'n llai cyfarwydd, gallwch ymateb gan ddefnyddio cwestiwn agored i rannu unrhyw wybodaeth gyffredinol. Mae croeso i chi hefyd rannu unrhyw wybodaeth ychwanegol yn **[RHOWCH GYFEIRIAD E-BOST YMA]**.

Bydd **Adran 3** yn canolbwyntio ar werthuso digonolrwydd, ansawdd a hygyrchedd y data VAWDASV presennol, nodi rhwystrau a bylchau yn y ffynonellau sydd ar gael, ac asesu pa mor dda y mae'r data hyn yn ategu ffrydiau gwaith ac amcanion polisi'r glasbrint.

Yn olaf, mae **Adran 4** yn cynnig y cyfle i chi ddarparu unrhyw argymhellion neu fyfyrdodau pellach ar gasglu a defnyddio data VAWDASV.

Noder bod pob cwestiwn yn yr holiadur hwn yn ddewisol. Gallwch ddewis "Mae'n well gen i beidio ag ateb" ar gyfer unrhyw gwestiynau caeëdig neu hepgor yr ymatebion testun agored os nad ydyn nhw'n berthnasol.

Diolch i chi am roi o'ch amser i gyfrannu at y prosiect pwysig hwn.

**Adran 0: Gwybodaeth sefydliadol**

1. Rhowch enw llawn y sefydliad rydych chi'n gweithio iddo / eich rôl. Testun agored

**Adran 1:Data rydych chi'n eu hadnabod ac yn gweithio gyda hwy – cyhoeddedig**

**Cyfarwyddiadau:** Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar nodi setiau data **cyhoeddedig** sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yr ydych yn ymwybodol ohonynt neu y mae eich sefydliad yn eu cynhyrchu. Noder ein bod â diddordeb penodol mewn setiau data sy'n cynnwys data sydd wedi'u dadgyfuno neu ddadansoddiadau sy'n berthnasol i Gymru. Dim ond dolenni i'r setiau data hyn y mae eu hangen arnom, ynghyd ag unrhyw wybodaeth gyd-destunol berthnasol y gallwch ei darparu. Atebwch yn y ffordd sydd orau i chi o ran pa mor gyfarwydd ydych chi â'r data. Os nad ydych chi'n ymwybodol o unrhyw setiau data, neu os nad oes gennych chi setiau data cyhoeddedig perthnasol i'w rhannu, gallwch hepgor y cwestiwn hwn.

1. Rhowch fanylion unrhyw setiau data **cyhoeddedig** sy'n ymwneud â VAWDASV yr ydych yn ymwybodol ohonynt, gan gynnwys y rhai a gynhyrchwyd gan eich sefydliad, sy'n darparu data penodol i Gymru. Pan fo modd, cofiwch gynnwys dolenni mynediad neu unrhyw wybodaeth gyd-destunol berthnasol.

Gallwch hefyd rannu unrhyw nodiadau neu gyd-destun ychwanegol yma. Os hoffech ddarparu rhagor o fanylion neu dempledi, cysylltwch â ni yn: **[RHOWCH GYFEIRIAD E-BOST YMA]**

**Adran 2:Data rydych chi'n eu hadnabod ac yn gweithio gyda hwy – heb eu cyhoeddi**

**Cyfarwyddiadau:** Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar nodi setiau data **heb eu cyhoeddi** rydych chi'n ymwybodol ohonynt, yn gweithio gyda hwy neu'n eu cynhyrchu sy'n ymwneud â **thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)**. Mae gennych yr hyblygrwydd i ymateb yn y ffordd sydd orau i'ch lefel o gyfarwydd-deb â'r data. Gallwch naill ai ateb cyfres o gwestiynau strwythuredig (caeëdig) neu roi trosolwg cyffredinol mewn fformat agored.

Trosolwg byr o'r hyn y bydd y cwestiynau caeëdig yn ei gynnwys. Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynllunio i gasglu gwybodaeth gyson am bob set ddata heb ei chyhoeddi rydych chi'n ymwybodol ohoni neu'n gweithio gyda hi mewn modd strwythuredig:

- Gofynnir i chi ddarparu manylion megis enw, perchennog a chwmpas daearyddol y set ddata, y mathau o ddata sydd wedi'u cynnwys, y pynciau a gwmpesir (e.e. ffurfiau o VAWDASV), yr wybodaeth ddemograffig a gasglwyd, a'r cyfnod amser a gwmpaswyd.
- Bydd cwestiynau ychwanegol yn canolbwyntio ar yr wybodaeth ddemograffig sydd wedi'i chynnwys, y canlyniadau y gall y set ddata eu cefnogi, pa mor aml y cânt eu diweddaru, ac unrhyw gryfderau neu gyfyngiadau allweddol.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol cael dogfennaeth berthnasol cyn dewis yr opsiwn hwn. Os nad oes gennych unrhyw wybodaeth berthnasol i'w rhannu ar gyfer yr adran hon, mae hynny'n hollol iawn – dewiswch yr opsiwn ymateb priodol isod.

2. Sut hoffech chi ymateb yn yr adran hon?
    a. Byddai'n well gennyf ymateb i set o gwestiynau am y data yn yr arolwg hwn [Neidio i Gwestiwn 4]
    b. Byddai'n well gennyf rannu manylion am y setiau data hyn mewn fformat agored neu anfon neges e-bost atoch gyda gwybodaeth am y setiau data heb eu cyhoeddi a allai fod yn berthnasol
    c. Nid oes gennyf unrhyw wybodaeth berthnasol i'w darparu [Ewch i Adran 3]
3. Rhowch fanylion unrhyw setiau data **heb eu cyhoeddi** sy'n ymwneud â VAWDASV yr ydych yn ymwybodol ohonynt, gan gynnwys y rhai a gynhyrchwyd gan eich sefydliad. Testun agored [Neidio i Adran 3]

4. Sawl set ddata hoffech chi ddarparu gwybodaeth amdanynt gan ddefnyddio'r cwestiynau strwythuredig?
    a. 0
    b. 1
    c. 2
    d. 3
    e. 4
    f. 5
    g. 6
    h. 7
    i. 8
    j. 9
    k. 10

**Cwestiynau caeëdig**

5. Nodwch enw'r set ddata. Testun agored
6. Pa sefydliad sy'n berchen ar y set ddata hon? Testun agored
7. Pam mae'r sefydliad neu'r tîm hwn yn casglu neu'n defnyddio'r data hyn? Testun agored
8. Sut mae'r data hyn yn cael eu storio neu eu casglu? Caniateir atebion lluosog
    a. Mae data'n cael eu casglu'n ansoddol (megis nodiadau mewn dogfen Word, neu mewn fformat tebyg fel PDF)
    b. Mae data yn cael eu cofnodi mewn taflen Excel neu offeryn tebyg
    c. Mae data'n cael eu cofnodi mewn platfform neu offeryn cofnodi data penodol
    d. Arall [nodwch]
9. A allwch chi roi rhagor o fanylion am y fformat y mae eich data wedi'u cofnodi ynddo? Testun agored
10. Pa ardal ddaearyddol mae'r set ddata hon yn ei chwmpasu? Cwestiwn ateb unigol
    a. Ledled y DU
    b. Prydain Fawr
    c. Cymru a Lloegr

d. Cymru yn unig [Ewch i Gwestiwn 12]

e. Gwlad arall, nad yw'n cwmpasu Cymru [Ewch i'r set ddata nesaf]

f. Rhanbarth o fewn Cymru [Ewch i Gwestiwn 13]

g. Wn i ddim

h. Mae'n well gennyf beidio ag ateb

11. A yw'r set ddata hon yn cynnwys data wedi'u dadgyfuno ar gyfer Cymru? Cwestiwn ateb unigol

    a. Ydyw

    b. Nac ydyw [Ewch i Gwestiwn 14]

    c. Wn i ddim [Ewch i Gwestiwn 14]

    d. Mae'n well gen i beidio ag ateb [Ewch i Gwestiwn 14]

12. A yw'r set ddata hon yn cynnwys data wedi'u dadgyfuno mewn dadansoddiadau rhanbarthol yng Nghymru?Cwestiwn ateb unigol

    a. Ydyw

    b. Nac ydyw [Ewch i Gwestiwn 14]

    c. Wn i ddim [Ewch i Gwestiwn 14]

    d. Mae'n well gen i beidio ag ateb [Ewch i Gwestiwn 14]

13. Pa ranbarth(au) sy'n cael eu cwmpasu yn y set ddata hon? Testun agored

14. Pa fathau o ddata mae'r set ddata hon yn eu cynnwys? Caniateir atebion lluosog

    a. Data arolwg

    b. Cofnodion gweinyddol

    c. Cofnodion yr heddlu, trosedd neu lys

    d. Logiau darparu gwasanaeth

    e. Arall [nodwch]

15. Pa ffurfiau o VAWDASV sydd wedi'u cynnwys yn y set ddata hon?Dewiswch bob un sy'n berthnasol Caniateir atebion lluosog

    a. Trais gan bartner agos

    b. Trais a cham-drin domestig

    c. Trais a cham-drin rhywiol

d. Rheolaeth drwy orfodaeth

e. Priodas dan orfod

f. Priodas plant

g. Cam-drin ar sail anrhydedd

h. Anffurfio organau cenhedlu benywod

i. Masnachu pobl

j. Aflonyddu rhywiol

k. Aflonyddu seiber

l. Trais ymhlith pobl ifanc sy’n dêtio

m. Cam-drin seicolegol neu emosiynol

n. Cam-drin digidol, ar-lein, neu wedi'i hwyluso gan dechnoleg

o. Cam-drin economaidd/ariannol

p. Stelcio

q. Arall [nodwch]

r. Mae’n well gennyf beidio â dweud

16. Pa grwpiau poblogaeth neu is-grwpiau sy'n cael eu cwmpasu gan y set ddata?Dewiswch bob un sy'n berthnasol Caniateir atebion lluosog

a. Poblogaeth gyfan

b. Dioddefwyr/goroeswyr sy'n oedolion

c. Dioddefwyr/goroeswyr sy’n blant

d. Troseddwyr

e. Plant a phobl ifanc

f. Pobl hŷn

g. Darparwyr gwasanaethau / gweithwyr rheng flaen

h. Arall [nodwch]

i. Mae’n well gennyf beidio â dweud

17. Pa rai o’r nodweddion dioddefwr canlynol sy’n cael eu cynnwys yn y set ddata hon? Caniateir atebion lluosog

a. Oedran

b. Rhyw
c. Rhywedd
d. Ethnigrwydd
e. Cyfeiriadedd rhywiol
f. Statws anabledd
g. Crefydd neu gred
h. Statws beichiogrwydd
i. Arall [nodwch]
j. Mae’n well gennyf beidio ag ateb

18. A yw'r set ddata hon yn cynnwys gwybodaeth am droseddwyr?
    a. Ydyw
    b. Nac ydyw [Ewch i Gwestiwn 20]
    c. Mae’n well gen i beidio ag ateb [Ewch i Gwestiwn 20]
19. Nodwch pa wybodaeth am droseddwyr sydd wedi'i chynnwys. Testun agored
20. Pa rai o'r canlyniadau canlynol y gellir eu gwerthuso gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y set ddata hon?Dewiswch bob un sy'n berthnasol Caniateir atebion lluosog
    a. Cyffredinrwydd VAWDASV
    b. Tueddiadau mewn adrodd am VAWDASV
    c. Gwybodaeth plant a phobl ifanc am gydberthnasau diogel, cyfartal ac iach
    d. Agweddau plant tuag at gam-drin
    e. Canlyniadau cyfreithiol ar gyfer VAWDASV (arestiadau, erlyniadau, euogfarnau)
    f. Cyffredinrwydd rhaglenni ymyrraeth ar gyfer troseddwyr
    g. Argaeledd gwasanaethau ymyrraeth gynnar i ddioddefwyr a goroeswyr (gan gynnwys cymorth ymyrraeth gynnar cyffredinol)
    h. Cyfran y gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi i ymateb i VAWDASV
    i. Argaeledd gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr
    j. Ymddiriedaeth dioddefwyr yn y broses gyfreithiol
    k. Cyfran y dioddefwyr a gafodd fynediad at wasanaethau cyfreithiol ac a gafodd gymorth ganddynt

l. Arall [nodwch]
m. Mae’n well gennyf beidio ag ateb

21. Beth yw'r cyfnod cynharaf a'r cyfnod diweddaraf a gwmpesir gan y set ddata hon? Testun agored
22. Pa mor aml mae'r set ddata hon yn cael ei diweddaru? Cwestiwn ateb unigol
23. Beth yw nodweddion mwyaf defnyddiol y set ddata hon? Testun agored
24. Beth yw prif gyfyngiadau neu broblemau ansawdd y set ddata hon? Testun agored

**Adran 3: Bylchau canfyddedig**

1. Pa mor effeithiol ydych chi'n credu bod ffynonellau data cyfredol o ran cofnodi graddfa lawn VAWDASV yng Nghymru? Cwestiwn ateb unigol
    a. Effeithiol iawn
    b. Effeithiol i raddau
    c. Ddim yn effeithiol, nac yn aneffeithiol
    d. Yn aneffeithiol i raddau
    e. Aneffeithiol iawn
    f. Wn i ddim
    g. Mae’n well gennyf beidio ag ateb
2. A allech chi roi mwy o gyd-destun i'r ateb a wnaethoch roi uchod, os gwelwch yn dda?Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw gryfderau neu gyfyngiadau penodol ffynonellau data cyfredol wrth gofnodi graddfa VAWDASV yng Nghymru. Testun agored
3. Pa un o'r heriau canlynol ydych chi wedi dod ar eu traws wrth weithio gyda data sy'n gysylltiedig â VAWDASV?Dewiswch bob un sy'n berthnasol Caniateir atebion lluosog
    a. Diffyg data wedi’u dadgyfuno sy’n benodol i Gymru
    b. Casglu data anghyson neu anghyflawn
    c. Rhannu data cyfyngedig rhwng sefydliadau
    d. Bylchau mewn data ar gyfer rhai grwpiau demograffig
    e. Diffyg metrigau perfformiad i werthuso effaith y gwasanaeth
    f. Mae’r data heb strwythur neu’n anhrefnus, gan eu gwneud yn anodd eu defnyddio
    g. Mae data'n anghywir (megis data sydd heb eu hadrodd yn ddigonol neu sy’n cynnwys dyblygu)
    h. Anawsterau wrth gyrchu setiau data

i. Arall [nodwch]

j. Dim un o'r uchod

4. I ba raddau ydych chi'n gallu cyrchu ddata sy'n benodol i'r pynciau hyn yn eich maes gwaith? [Graddfa:Ddim yn hygyrch o gwbl; Ychydig yn hygyrch; Cymharol hygyrch; Hygyrch ar y cyfan; Cwbl hygyrch; Wn i ddim; Yn well gen i beidio ag ateb] Cwestiwn un ateb

   a. Trais gan bartner agos
   b. Trais a cham-drin domestig
   c. Trais a cham-drin rhywiol
   d. Rheolaeth drwy orfodaeth
   e. Priodas dan orfod
   f. Priodas plant
   g. Cam-drin ar sail anrhydedd
   h. Anffurfio organau cenhedlu benywod
   i. Masnachu pobl
   j. Aflonyddu rhywiol
   k. Aflonyddu seiber
   l. Trais ymhlith pobl ifanc sy’n dêtio
   m. Cam-drin seicolegol neu emosiynol
   n. Cam-drin digidol, ar-lein, neu wedi'i hwyluso gan dechnoleg
   o. Cam-drin economaidd/ariannol
   p. Stelcio
   q. Arall [nodwch]
   r. Mae’n well gennyf beidio â dweud

5. Pa ffactorau sy'n cyfyngu ar amlder y diweddariadau ar gyfer y setiau data sy'n gysylltiedig â VAWDASV rydych chi'n gweithio gyda hwy? Caniateir atebion lluosog

   a. Diffyg cyllid i ddiweddaru data yn fwy rheolaidd
   b. Mae data wedi’u cysylltu â set ddata neu ystadegyn gweinyddol a gesglir ar gyfnodau penodol
   c. Mae prosesau rhannu neu ddatgelu data yn gwneud diweddariadau rheolaidd yn anodd
   d. Arall [nodwch]

e. Mae’n well gennyf beidio ag ateb

6. Eglurwch sut mae amlder diweddariadau data yn effeithio ar eich gwaith. Testun agored

7. Pa rai o'r canlyniadau canlynol sydd â data cyfyngedig ar gael i'w gwerthuso ar hyn o bryd?Dewiswch bob un sy'n berthnasol Caniateir atebion lluosog

   a. Cyffredinrwydd VAWDASV
   b. Tueddiadau mewn adrodd am VAWDASV
   c. Gwybodaeth plant a phobl ifanc am gydberthnasau diogel, cyfartal ac iach
   d. Agweddau plant tuag at gam-drin
   e. Canlyniadau cyfreithiol ar gyfer VAWDASV (arestiadau, erlyniadau, euogfarnau)
   f. Cyffredinrwydd rhaglenni ymyrraeth ar gyfer troseddwyr
   g. Argaeledd gwasanaethau ymyrraeth gynnar i ddioddefwyr a goroeswyr (gan gynnwys cymorth ymyrraeth gynnar cyffredinol)
   h. Cyfran y gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi i ymateb i VAWDASV
   i. Argaeledd gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr
   j. Ymddiriedaeth dioddefwyr yn y broses gyfreithiol
   k. Cyfran y dioddefwyr a gafodd fynediad at wasanaethau cyfreithiol ac a gafodd gymorth ganddynt
   l. Arall [nodwch]
   m. Mae’n well gennyf beidio ag ateb

8. Rhowch sgôr i ba raddau ydych chi'n credu bod y ffynonellau data presennol yn ategu pob un o ffrydiau gwaith canlynol y glasbrint: [Graddfa:Dim yn eu hategu o gwbl, Yn eu hategu ychydig, Yn eu hategu’n gymedrol, Yn eu hategu i raddau helaeth, Yn eu hategu’n llawn, Wn i ddim, Mae’n well gennyf beidio ag ateb] Cwestiwn un ateb

Noder: *Mae Glasbrint VAWDASV (2022–2026) yn gynllun gweithredu cydlynol, traws-sector dan arweiniad Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol.Mae'n cynnwys chwe ffrwd waith thematig sy'n cyd-fynd ag amcanion y strategaeth genedlaethol. Mae'r ffrydiau gwaith hyn yn canolbwyntio ar feysydd â blaenoriaeth i fynd i'r afael â VAWDASV ledled Cymru. Mae'r cwestiwn hwn yn ddewisol a gellir ei hepgor os nad ydych yn sicr sut i ymateb.*

   a. Aflonyddu ar y stryd a diogelwch y cyhoedd
   b. Aflonyddu yn y gweithle
   c. Mynd i'r afael â throseddu

d. Comisiynu cynaliadwy

e. Plant, pobl ifanc a phobl hŷn

f. Llais y goroeswr

9. A oes unrhyw ddata eraill sy'n ymwneud â VAWDASV yr ydych chi'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol neu'n bwysig i'w casglu, ond nad ydynt yn cael eu mesur ar hyn o bryd? Rhestrwch gynifer o enghreifftiau ag ydych chi'n ystyried sy'n berthnasol Testun agored

**Adran 4: Argymhellion a myfyrdodau pellach**

1. Os oes gennych unrhyw argymhellion neu sylwadau pellach ynghylch casglu, ansawdd, hygyrchedd, dadansoddi neu'r ffordd y caiff data VAWDASV eu defnyddio, rhannwch hwy yma. Testun agored

2. A ydych chi'n cydsynio i ni ddefnyddio dyfyniadau a gwybodaeth ddienw am y setiau data rydych chi wedi'u darparu mewn adroddiadau neu gyhoeddiadau? Cwestiwn un ateb

    a. Ydyw

    b. Nac ydw

    c. Mae'n well gennyf beidio ag ateb

3. A ydych chi'n cydsynio i gael eich cysylltu ag unrhyw gwestiynau neu eglurhadau dilynol ynghylch eich ymatebion neu'r setiau data rydych chi wedi'u rhannu? Cwestiwn un ateb

    a. Ydyw

    b. Nac ydw [ewch i'r adran olaf]

    c. Mae'n well gennyf beidio ag ateb [ewch i'r adran olaf]

4. Rhannwch eich cyfeiriad e-bost â ni. Testun agored

**Diolch yn fawr**

Diolch i chi am gwblhau'r alwad hon am dystiolaeth. Mae eich mewnwelediadau yn amhrisiadwy wrth lunio ymateb cadarn, sy'n seiliedig ar ddata, i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.

Os hoffech rannu unrhyw ddeunyddiau ychwanegol neu os oes gennych sylwadau pellach, cysylltwch â [RHOWCH GYFEIRIAD E-BOST YMA]. Gallai deunyddiau a rennir gynnwys y canlynol:

- Setiau data enghreifftiol
- Dogfennau sy'n disgrifio sut mae setiau data wedi'u strwythuro

- Templedi casglu data (ffeiliau Excel yn dangos enwau'r dangosyddion a gasglwyd a'u nodweddion)
- Canllawiau neu restrau termau cysylltiedig, neu ddisgrifiad naratif o'r data rydych chi'n eu defnyddio neu'n eu rheoli